



# Y PANEL TROSOLWG ANNIBYNNOL AR WASANAETHAU MAMOLAETH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Adroddiad Cynnydd  
Medi 2022

# Rhagair

Ar 30 Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adroddiad beirniadol a oedd yn amlinellu canfyddiadau adolygiad a gynhaliwyd ar y cyd rhwng Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd (y Colegau Brenhinol), cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd (y Gweinidog) ei fod yn rhoi'r gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg mewn 'mesurau arbennig'.

Fel rhan o becyn ehangach o fesurau a luniwyd i gefnogi'i ymyriad, penododd y Gweinidog banel annibynnol (y Panel) i ddarparu'r oruchwyliaeth a oedd yn angenrheidiol i sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol, a hynny mewn modd amserol, agored a thryloyw a oedd yn sicrhau bod y menywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd fwyaf arnynt yn rhan ganolog o'r broses.

Ers hynny, mae'r Panel wedi adrodd yn rheolaidd ar gynnydd y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r methiannau hynny. Mae'r adroddiad hwn, y seithfed i'w gyhoeddi hyd yma, yn cwmpasu'r cyfnod o chwe mis hyd at 30 Medi 2022.

Mae'r adroddiad yn crynhoi'r cynnydd pellach y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'i wneud o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gyflawni cyfres o dri ar ddeg o 'amodau ar gyfer cynaliadwyedd' sydd wedi cael eu datblygu ar y cyd rhwng y Panel a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r amodau cynaliadwyedd hyn yn cyd-fynd yn agos â chynlluniau gwella tymor hwy y Bwrdd Iechyd ac wedi'u dylunio i roi sicrwydd bod y gwelliannau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud ac yn parhau i'w gwneud, yn cael eu gwreiddio mewn ymarfer ac yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae'r Panel yn credu bod yr amodau hynny bellach ar waith ac yn amodol ar gytundeb y Gweinidog, mae'r Panel yn bwriadu i hwn fod yn adroddiad cynnydd terfynol. O'r herwydd, mae'r adroddiad yn dwyn ynghyd y dadansoddiad a'r casgliadau a gynhwyswyd mewn adroddiadau blaenorol i ddarparu crynodeb cyfunol o daith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant dros y tair blynedd a hanner diwethaf. Mae hefyd yn nodi pa gymorth pellach sydd ei angen yn y dyfodol i sicrhau yr adeiledir ar y cynnydd sydd wedi'i wneud, yn enwedig yng nghyswllt gwasanaethau newyddenedigol y Bwrdd Iechyd.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys adroddiadau cynnydd blaenorol, yr adroddiadau thematig o raglen adolygiadau clinigol y Panel a chylch gorchwyl gwaith y Panel ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](http://yma.gov.wales).

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth



Mae **Mick Giannasi** (Y Cadeirydd) yn Gadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd yn arfer bod yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a bu'n Gomisiynydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn. Swyddog heddlu ydoedd wrth ei waith, ac mae'n gyn-Brif Gwnstabl Heddlu Gwent.



Mae **Cath Broderick** (Aelod Lleyg) yn Gymrawd Anrhydeddus o Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr, a hi yw awdur yr adroddiad *'Gwrando ar Farn Menywod a Theuluoedd am Ofal Mamolaeth Cwm Taf'*. Mae ganddi brofiad helaeth o ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd, a bu'n cynorthwyo gyda gwaith tebyg ym Mae Morecambe.



Mae gan **Alan Cameron** (Arweinydd Obstetreg) dros 27 mlynedd o brofiad fel Obstetregydd Ymgynghorol, a gorffennodd yn ei swydd fel Arweinydd Clinigol Cenedlaethol Obstetreg ar gyfer Grŵp Cydweithredol yr Alban ar Wella Ansawdd Gwasanaethau Mamolaeth a Phlant yn ddiweddar. Ef yw cynghorydd clinigol y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd.



Mae gan **Christine Bell** (Arweinydd Bydwreigiaeth) dros 31 mlynedd o brofiad o weithio fel Bydwraig yn Lloegr. Treuliodd ddeg o'r blynyddoedd hynny'n Bennaeth Bydwreigiaeth yn un o Ymddiriedolaethau mawr y GIG. Mae ganddi brofiad helaeth mewn rheoli newid a thrawsnewid gwasanaethau.



Mae gan **Kelly Harvey** (Arweinydd Nyrsio Newyddenedigol) dros 19 mlynedd o brofiad fel Nyrs Newyddenedigol ac Uwchymarferydd Nyrsio Newyddenedigol. Ar hyn o bryd mae'n Uwchnyrs ar gyfer Rhwydwaith Gofal Newyddenedigol Gogledd-orllewin Lloegr. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Nyrsys Newyddenedigol.



Mae gan **Alan Fenton** (Arweinydd Neonatoleg) dros 27 mlynedd o brofiad fel Neonatolegydd Ymgynghorol, ac mae'n gyn-Lywydd Cymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain. Alan oedd y Neonatolegydd yn nhîm craidd yr Adolygiad Cenedlaethol o Wasanaethau Mamolaeth yn 2016 (Better Births), ac mae wedi bod yn rhan o raglen gydwethredol MBRRACE-UK ers 2018.

## Crynodeb Gweithredol

Dyma'r seithfed adroddiad cynnydd i'w gyhoeddi gan y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth (y Panel). Mae'n crynhoi'r cynnydd y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd Iechyd) wedi'i wneud o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol erbyn diwedd mis Medi 2022.

### Cynnydd Cynharach

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf yng Ngwanwyn 2022, daeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth mewn ymateb i ganfyddiadau adolygiad y Colegau Brenhinol. Ar yr un pryd, er bod y cyflymder wedi bod yn arafach na'r disgwyl, roedd rhywfaint o gynnydd cynnar wedi'i wneud hefyd o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn adolygiad manwl y Panel o wasanaethau newyddenedigol y Bwrdd Iechyd a gyflwynodd adroddiad ym mis Ionawr 2022.

Yn y cyfamser, ar lefel sefydliadol, roedd materion sylfaenol fel arweinyddiaeth, llywodraethu corfforaethol, cyfathrebu corfforaethol a rheoli rhaglenni wedi cael eu cryfhau ac roedd y Panel yn teimlo bod yr amser yn dynesu lle y gallai fod mewn sefyllfa i roi gwybod i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (y Gweinidog) nad oedd angen yr oruchwyliaeth allanol a ddarparwyd gan y Panel mwyach.

Fodd bynnag, cyn cynnig y cyngor hwnnw, teimlai'r Panel ei bod yn bwysig sicrhau bod y gwelliannau a wnaed wedi'u gwreiddio mewn ymarfer a bod cynlluniau gwella tymor hwy y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy i'r dyfodol; mewn geiriau eraill, na fyddai pethau'n llithro'n ôl nac yn colli momentwm os nad oedd y Panel yno mwyach i ddarparu monitro, her a chefnogaeth allanol annibynnol.

### Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd

Er mwyn darparu'r sicrwydd hwnnw, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd, nododd y Panel dri ar ddeg o 'amodau ar gyfer cynaliadwyedd' a fyddai, pe baent yn cael eu cyflawni, yn dangos bod y gwelliannau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud hyd at y pwynt hwnnw, wedi'u gwreiddio mewn ymarfer a bod ei raglen wella tymor hwy yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Mae diagram sy'n nodi'r amodau ar gyfer cynaliadwyedd wedi'i gynnwys yn [Atodiad D](#) yr adroddiad. Mae'r amodau'n cyd-fynd yn agos â chynlluniau gwella tymor hwy y Bwrdd Iechyd ac yn cefnogi'r broses o newid i ddull mwy 'busnes fel arfer', a fydd yn galluogi i gam nesaf y daith tuag at welliant fod yn 'eiddo' i'r gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol ac wedi'i wreiddio yn nhrefniadau llywodraethu arferol y Bwrdd Iechyd.

### Asesiad Cyfredol

Mae adrannau 4 i 11 yr adroddiad yn darparu asesiad manwl o'r graddau y mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn bodloni'r amodau hynny ar gyfer cynaliadwyedd.

Ar sail yr asesiad hwnnw, **roedd pob un o'r tri amod ar ddeg wedi cael eu bodloni** erbyn diwedd y cyfnod adrodd presennol ac, o'r herwydd, mae'r Panel yn credu bod **cynlluniau gwella tymor hwy y Bwrdd Iechyd yn gynaliadwy wrth symud ymlaen.**

Ar ben hynny, dair blynedd a hanner ar ôl adolygiad y Colegau Brenhinol, mae'r Panel yn credu bod gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd bellach yn cael eu darparu i'r safonau y mae gan y menywod a'r teuluoedd sy'n eu defnyddio yr hawl i'w disgwyl. Mewn rhai meysydd, yn fwyaf nodedig yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â menywod a theuluoedd yn awr, mae'r Bwrdd Iechyd yn gosod safonau i eraill ymgynghraedd atynt.

Mae mwyafrif helaeth argymhellion y Colegau Brenhinol bellach wedi cael eu cyflawni'n llawn ac mae'r ychydig waith sydd ar ôl yn waith sy'n mynd rhagddo, ar y cyfan mae'r rheini sy'n ymwneud â materion cymhleth fel diwylliant staff, arweinyddiaeth, gweledigaeth a strategaeth, wedi cael eu hymgorffori yng nghynlluniau gwella sefydliadol tymor hwy y Bwrdd Iechyd.

Daeth yr asesiad diweddaraf yn erbyn y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) a ddefnyddiwyd i asesu cynnydd taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant dros amser, i'r casgliad bod y gwasanaeth mamolaeth bellach wedi cyflawni 'Aeddfedrwydd' ym mhob un o'r tri maes perfformiad ac o ran ansawdd profiad menywod wedi ennill statws 'Enghraifft o Ragoriaeth'.

Mae gwaith i'w wneud o hyd, ond mae hyn bellach yn ddatblygiadol yn hytrach nag yn adferol; nid yw'r heriau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu wrth symud ymlaen yn wahanol i'r heriau a wynebier gan fyrddau Iechyd eraill yng Nghymru sy'n ceisio'n barhaus i wella ansawdd a diogelwch y gwasanaethau mamolaeth y maent yn eu darparu.

Ar yr un pryd, mae cynnydd ystyrllon wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion brys ar gyfer gwella a ddeilliodd o'r adolygiad manwl o'r maes newyddenedigol. Er bod y cyflymder wedi aros yn llai na'r disgwyl, mae seiliau sylfaenol gwasanaeth diogel ac effeithiol bellach yn eu lle. Mae cynllun y cytunwyd arno i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol sy'n weddill ac nid yw'r Panel yn gweld unrhyw reswm pam, gan ddefnyddio'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn y gwasanaeth mamolaeth, na ddylid cyflawni'r gwelliannau hynny'n llawn o fewn amserlenni rhesymol.

Mae'r asesiad diweddaraf yn erbyn yr IPAAF yn dangos bod y gwasanaeth newyddenedigol wedi symud ymlaen o 'Cynnydd Cynnar' i 'Canlyniadau' yn ystod y chwe mis diwethaf. Mae hon yn garreg filltir bwysig i'r gwasanaeth newyddenedigol sy'n adlewyrchu cynnydd mewn cyflymder a momentwm sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y misoedd diwethaf, yn sgil mwy o ymgysylltu â'r timau clinigol.

Er gwaethaf y cynnydd hwnnw, mae'r Panel yn credu y bydd angen rhywfaint o gymorth a mentora allanol parhaus ar y timau clinigol am y tro, beth bynnag, er mwyn eu helpu i gyflawni'r elfennau sydd ar ôl o gynllun gwella'r gwasanaeth newyddenedigol. Fodd bynnag, nid oes angen i'r Panel ddarparu'r gefnogaeth honno bellach, ac ni ddylai wneud hynny.

## Casgliadau ac Argymhellion

Gan ystyried hynny i gyd ac yn benodol, y ffaith bod y tri ‘amod ar ddeg ar gyfer cynaliadwyedd’ wedi cael eu bodloni erbyn hyn, mae'r Panel yn teimlo y gall sicrhau'r Gweinidog bod **taith y Bwrdd lechyd tuag at welliant bellach yn gynaliadwy** i'r dyfodol.

Ar ben hynny, am resymau sydd wedi'u nodi yng nghasgliadau'r adroddiad, mae'r Panel hefyd yn credu bod ei gyloch gorchwyl wedi'i gyflawni erbyn hyn a bod yr amser yn iawn i'r Bwrdd lechyd barhau â'i daith tuag at welliant **heb oruchwyliaeth a chymorth allanol annibynnol gan y Panel**.

Ar sail hynny, mae'r Panel wedi gwneud dau argymhelliad allweddol i'r Gweinidog eu hystyried sydd wedi'u nodi yn [Adran 12](#) yr adroddiad, ynghyd â'r sail resymegol y maent yn seiliedig arni. Yn gryno, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- dirwyn y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth i ben ar ôl gallu cwblhau'r trefniadau gweinyddol angenrheidiol (**Argymhelliad Un**);
- gofyniad am fentora a chefnogaeth barhaus i sicrhau bod gweddill cynllun gwella'r gwasanaeth newyddenedigol yn cael ei gyflawni (**Argymhelliad Dau**).

Mae'r Panel hefyd wedi gwneud un argymhelliad ehangach (**Argymhelliad Tri**) sy'n ymwneud â'r angen am waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatblygu set ddata genedlaethol a fydd yn golygu bod modd bwrw ymlaen â dadansoddiad cymharol ystyrion a dibynadwy o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru cyn gynted ag y bo modd.

## Sylwadau i Gloi

Os bydd y Gweinidog yn derbyn argymhellion y Panel, hwn fydd adroddiad cynnydd terfynol y Panel. Ar sail hynny, mae'r Panel wedi darparu crynodeb cyfunol o daith y Bwrdd lechyd tuag at welliant hyd yma. Cyflwynir hyn yn [Adran 2](#) ac ymhelaethir arno yn [Atodiad C](#). Mae'n bwysig gosod y daith honno'n fyr yn ei chyd-destun.

Fel llawer o sefydliadau eraill, dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, mae'r Bwrdd lechyd wedi wynebu cyfres o heriau na welwyd eu tebyg erioed o'r blaen, gan gynnwys ymateb i ddechrau pandemig COVID-19 a'r heriau yn deillio ohono. O ystyried yr heriau hynny, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd rhyfeddol, yn fwyaf nodedig o fewn ei wasanaethau mamolaeth ond yn fwy diweddar yn ei wasanaethau newyddenedigol o ganlyniad i ffocws cynyddol yn y rhaglen wella.

Mae hynny'n brawf nid yn unig o arweinyddiaeth, cadernid a phenderfyniad y Bwrdd a'r uwch dîm arwain ond hefyd o waith caled, ymroddiad ac ymrwymiad y clinigwyr, y rheolwyr a'r staff cymorth rheng flaen sydd wedi gweithio mor galed mewn amgylchiadau anodd a heriol i drawsnewid gwasanaeth a oedd yn flaenorol yn siomi'r menywod a'r teuluoedd a oedd yn ei ddefnyddio.

Ni ddylent fyth anghofio'r hyn a ddigwyddodd, ac ni allant fod yn hunanfodlon ychwaith, gan fod gwaith ar ôl i'w wneud o hyd. Fodd bynnag, gallant fod yn haeddiannol falch o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni hyd yma a dylent deimlo'n hyderus bod ganddynt y capasiti a'r gallu i barhau â'r daith y maent wedi cychwyn arni.

Mae'r menywod a'r teuluoedd yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan fethiannau blaenorol y Bwrdd lechyd wedi bod wrth galon gwaith y Panel erioed. Gellir eu sicrhau hefyd fod eu lleisiau wedi cael eu clywed a bod buddiannau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn dylanwadu fwyfwy ar y ffordd y mae gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yng Nghwm Taf Morgannwg yn cael eu llunio a'u darparu.

# Cynnwys

1	Cefndir Gwaith y Panel .....	1
1.1	Ymateb Llywodraeth Cymru .....	2
1.2	Sefydlu'r Panel .....	2
1.3	Ehangu'r Panel.....	3
2	Taith y Bwrdd Iechyd tuag at Welliant – Cipolwg .....	5
3	Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd .....	8
3.1	Methodoleg Asesu .....	8
4	Argymhellion y Colegau Brenhinol, Rheoli'r Rhaglen a Llywodraethu Corfforaethol .....	9
4.1	Trefniadau Rheoli'r Rhaglen .....	10
4.2	Goruchwyllo'r Gwasanaeth Mamolaeth a Newyddenedigol .....	12
5	Y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) .....	13
5.1	Hunanasesiad Diweddar yn Erbyn yr IPAAF.....	13
6	Rhaglen Adolygiadau Clinigol ac Ymchwiliadau i Ddigwyddiadau Difrifol.....	17
6.1	Ymarfer Golwg yn Ôl 2016-2018.....	17
6.2	Proses Hunanatgyfeirio Ddiwygiedig.....	18
6.3	Ymchwilio i Ddigwyddiadau Difrifol.....	18
6.4	Uwchgynhadledd Genedlaethol ar Ddiogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol .....	19
6.5	Themâu sy'n Dod i'r Amlwg ar gyfer Ystyriaethau Pellach.....	20
7	Gwella'r Gwasanaethau Newyddenedigol .....	22
7.1	Cynnydd yn Erbyn Meysydd i'w Gwella 'Ar Unwaith' .....	22
7.2	Gwelliannau i'r Gwasanaeth Newyddenedigol yn y Tymor Hwyl.....	24
7.3	Meysydd ar gyfer Datblygu Parhaus .....	25
8	Strategaeth Ymgysylltu Mamolaeth .....	27
8.1	Cynaliadwyedd Ymgysylltu â Mamolaeth.....	27



8.2	Cynaliadwyedd Ymgysylltu â'r Gwasanaeth Newyddenedigol .....	29
8.3	Strategaeth ar y cyd ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol .....	29
8.4	Cwynion a Phryderon .....	30
9	Arweinyddiaeth Feddygol .....	34
10	Gwella Ansawdd .....	36
11	Newid Diwylliant a Gweledigaeth Strategol .....	39
11.1	Ymateb y Sefydliad .....	40
11.2	Cyflawniadau Allweddol hyd yma .....	41
11.3	Cynllun Datblygu Arweinyddiaeth .....	43
11.4	Ymweliad Sicrwydd ar y Safle - Medi 2022 .....	44
11.5	Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol 2022-2025 ..	47
12	Casgliadau ac Argymhellion .....	50
12.1	Asesiad Cyffredinol o Gynnydd – Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd .....	51
12.2	Trefniadau Goruchwylio a Chefnogi i'r Dyfodol .....	51
12.3	Meysydd ar gyfer Monitro ac Adrodd Pellach .....	52
12.4	Ystyriaethau Eraill .....	53
13	Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Panel .....	55
14	Atodiad B - Werthoedd ac Ymddygiad y Panel .....	56
15	Atodiad C - Taith y Bwrdd Iechyd tuag at Welliant .....	57
16	Atodiad D - Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd .....	71
17	Atodiad E - Meini Prawf Llwyddiant y Cytunwyd Arnynt ar gyfer Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd .....	72
18	Atodiad F - Y Sefyllfa yn Erbyn Camau Brys yr Adolygiad Manwl o'r Gwasanaeth Newyddenedigol .....	80
19	Atodiad G - Rhestr Termiau .....	87

# 1 Cefndir Gwaith y Panel

Ym mis Hydref 2018, yn dilyn pryderon cynyddol am ddiogelwch ac ansawdd y gofal mamolaeth a oedd yn cael ei ddarparu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf gynt, bu i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd (y Gweinidog) gomisiynu adolygiad annibynnol gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd (y Colegau Brenhinol).

Ym mis Ionawr 2019, fel rhan o'r fethodoleg ar gyfer yr adolygiad, cynhaliodd y Colegau Brenhinol ymweliad safle tri diwrnod yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â staff a defnyddwyr gwasanaeth i helpu i ddeall eu profiadau o ddarparu a derbyn gofal.

Yn ystod yr ymweliad, nodwyd rhai pryderon difrifol a arweiniodd at aseswyr y Coleg Brenhinol yn gwneud cyfres o argymhellion interim i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ar unwaith i wella diogelwch cleifion. Cafodd yr argymhellion 'gwneud yn ddiogel' hyn eu derbyn gan y Bwrdd Iechyd blaenorol a Llywodraeth Cymru a gweithredwyd arnynt ar unwaith.

Cafodd [adroddiad](#) y Colegau Brenhinol, yn nodi canfyddiadau eu hadolygiad yn llawn, ei gyhoeddi ar 30 Ebrill 2019. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at bryderon difrifol ynglŷn â'r canlynol:-

- diffyg cydymffurfio â'r safonau cenedlaethol;
- rotâu a lefelau staffio annigol;
- diwylliant diogelwch annigonol a pherthnasoedd rhyngbroffesiynol gwael;
- rheolaeth wael ar ddysgu o ddigwyddiadau difrifol;
- ymgysylltu aneffeithiol â chleifion.

Cafodd y methiannau hyn eu dwysáu gan wendidau ymddangosiadol o ran trefniadau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â diwylliant ac ymddygiad amhriodol a oedd yn peryglu ansawdd a diogelwch y gofal a oedd yn cael ei ddarparu.

Ategwyd canfyddiadau'r Colegau Brenhinol gan [adroddiad](#) ychwanegol a oedd yn adrodd hanesion y menywod a'r teuluoedd a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth ac a oedd yn peintio darlun digalon o brofiad cleifion ac ansawdd gwasanaethau a oedd yn bell iawn o gyrraedd safonau derbyniol.

Gwnaeth y Colegau Brenhinol 70 o argymhellion ar gyfer gwella, a chafodd pob un ohonynt eu derbyn gan y Bwrdd Iechyd a chan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad y dylai nifer o ddigwyddiadau difrifol a ddigwyddodd rhwng mis Ionawr 2016 a mis Medi 2018, fod yn destun adolygiad clinigol annibynnol.

## 1.1 Ymateb Llywodraeth Cymru

Mewn ymateb i ganfyddiadau'r Colegau Brenhinol, cyhoeddodd y Gweinidog y byddai gwasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf (Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg) yn cael eu rhoi mewn 'mesurau arbennig'. Erbyn hynny, ad-drefnwyd y sefydliad fel Bwrdd lechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (y Bwrdd lechyd) yn dilyn newid i'r ffin.

Hefyd, cynyddodd y Gweinidog lefel statws cyffredinol y Bwrdd lechyd newydd i 'ymyriad wedi'i dargedu' oherwydd y materion ehangach o ran ansawdd a llywodraethu a nodwyd yn ystod yr adolygiad. O ganlyniad, gyda chymorth a goruchwyliaeth allanol, sefydlodd y Bwrdd lechyd raglen ehangach o fesurau gwella a luniwyd i wella effeithiolrwydd y sefydliad yn ei gyfanrwydd.

Fel rhan o'r broses newid lefel y statws, cyhoeddodd y Gweinidog nifer o fesurau ategol ond ar wahân, sef:-

- sefydlu'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth, gyda'r dasg, ymysg pethau eraill, o geisio sicrwydd cadarn gan y Bwrdd lechyd bod argymhellion y Colegau Brenhinol yn cael eu gweithredu o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt;
- penodi Cyngorydd Llywodraethu profiadol i gefnogi'r Cadeirydd a'r Bwrdd i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol;
- rhaglen gymorth, a ddarperir gan Uned Gyflawni GIG Cymru (Uned Gyflawni), i alluogi'r Bwrdd lechyd i ddarparu sicrwydd mewnol ac allanol bod trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer adrodd, rheoli ac adolygu digwyddiadau a phryderon yn ymwneud â diogelwch cleifion.

Mae'r gwaith a wnaed gan yr Ymgynghorydd Llywodraethu a'r Uned Gyflawni bellach wedi'i gwblhau. Darparwyd adborth cadarnhaol o ran cynnydd y Bwrdd lechyd, gan ddod yn sefydliad mwy agored a thryloyw, wedi'i gefnogi gan berchnogaeth well gan y Bwrdd ynghyd â gwell craffu a mwy o dealltwriaeth o risg.

O ran gwaith ymyrryd ehangach, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru (AGIC) ac Archwilio Cymru hefyd adolygiad ar y cyd o drefniadau llywodraethu ansawdd y Bwrdd lechyd, a arweiniodd at [adroddiad](#) a gyhoeddwyd yn ystod mis Tachwedd 2019. Mae'r Panel yn deall bod adolygiad dilynol wedi ei drefnu ar gyfer dechrau 2023 i asesu'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn erbyn yr argymhellion a ddaeth i'r amlwg.

## 1.2 Sefydlu'r Panel

Daeth y Panel ynghyd am y tro cyntaf ar 27 Mai 2019. Bryd hynny, roedd yn cynnwys Cadeirydd, Aelod Lleyg, Arweinydd Obstetreg ac Arweinydd Bydwreigiaeth.

Mae gan y Panel bum prif gyfrifoldeb a nodir yn y cylch gorchwyl sydd wedi'i atodi yn [Atodiad A](#). Gellir crynhoi'r rhain yn fras fel a ganlyn:-

- goruchwyllo'r gwaith o wella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol;
- sefydlu a rheoli rhaglen o adolygiadau clinigol annibynnol;
- cynorthwyo i ddatblygu a gweithredu trefniadau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â chleifion a staff;
- uwchgyfeirio pryderon ehangach ynghylch llywodraethu i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd;
- rhoi cyngor i'r Gweinidog ar unrhyw gamau pellach sy'n angenrheidiol.

Mabwysiadodd y Panel ddull gweithredu strwythuredig ar gyfer ei waith, gan ddefnyddio arferion da o ymyriadau blaenorol, yn fwyaf arbennig ymyriad Llywodraeth Cymru i Gyngor Sir Ynys Môn, ymyriad Tawel Fan a'r gwaith a wnaed mewn ymateb i Ymchwiliad Kirkup i wasanaethau mamolaeth ym Mae Morecambe.

Ar y dechrau, bu'r Panel hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod ei ddull gweithredu'n adlewyrchu egwyddorion academaidd cadarn ac arferion seiliedig ar dystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' i sicrhau ymyriad llwyddiannus.

Gan adlewyrchu'r dull seiliedig ar dystiolaeth hwnnw a'r egwyddor y dylai corff ymyrryd ddarparu arweinyddiaeth modelu rôl i'r sefydliad sy'n destun yr ymyriad, aeth y Panel ati i ddatblygu set o werthoedd ac ymddygiadau sy'n sail i'r ffordd y mae'n gweithredu, a'u dosbarthu'n eang. Mae datganiad ar werthoedd ac ymddygiad y Panel ar gael yn [Atodiad B](#).

### **1.3 Ehangu'r Panel**

Am resymau sydd wedi'u cofnodi'n dda, yng nghanau cynnar y broses wella, roedd ffocws ar unwaith ar y gwasanaeth mamolaeth ac yn benodol ar agweddau 'gwneud yn ddiogel' argymhellion y Colegau Brenhinol. Roedd hyn yn golygu nad oedd y gwasanaeth newyddenedigol yn derbyn yr un faint o graffu, ffocws nac adnoddau â'r gwasanaeth mamolaeth i ddechrau.

Ym mis Mawrth 2021, gyda chefnogaeth frwd y Bwrdd Iechyd, gwnaeth y Panel argymhelliad i'r Gweinidog ar y pryd y dylai'r broses oruchwyllo roi mwy o bwyslais ar wasanaethau newyddenedigol. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad, gan awdurdodi ymarfer 'adolygiad manwl' i asesu ansawdd a diogelwch y gwasanaeth newyddenedigol a oedd yn cael ei ddarparu gan y Bwrdd Iechyd yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Comisiynwyd hyn ar y cyd gan y Panel a'r Bwrdd Iechyd gyda'r nod o ddarparu darlun manwl a chynhwysfawr o'r gwasanaeth cyfredol, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch, effeithiolrwydd, dysgu a gwella.

Ar yr un pryd, cafodd Arweinydd Neonatoleg ac Arweinydd Nyrsio newyddenedigol eu penodi i'r Panel i ddarparu'r capasiti ychwanegol a'r wybodaeth broffesiynol arbenigol yr oedd eu hangen i ymgymryd â'r gwaith ac ehangu rôl oruchwyllo'r Panel i gynnwys gwasanaeth newyddenedigol y Bwrdd Iechyd.

Mae rhagor o wybodaeth am y datblygiadau hyn i'w cael yn [natganiad](#) y Gweinidog i'r Senedd ar 22 March 2021.

## 2 Taith y Bwrdd Iechyd Tuag at Welliant – Cipolwg

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf ar gynnydd yng Ngwanwyn 2022, daeth i'r casgliad dair blynedd ers adolygiad y Colegau Brenhinol, bod y Bwrdd Iechyd i bob pwrpas wedi gweddnewid ei wasanaethau mamolaeth a'u bod yn cael eu darparu'n gyffredinol i'r safonau yr oedd gan y menywod a'r teuluoedd a oedd yn eu defnyddio yr hawl i'w disgwyl. Mewn rhai ffyrdd, yn fwyaf nodedig yn y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn ymgysylltu â menywod a theuluoedd, roedd y Panel yn cydnabod ei bod yn debyg bod y Bwrdd Iechyd yn gosod safonau i eraill ledled Cymru ymgyrraedd atynt.

Yr adeg hynny, roedd y rhan fwyaf o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cyflawni'n llawn a'r rhai yr oedd y gwaith yn parhau i fynd rhagddo arnynt, sef rhai a oedd yn bennaf yn ymwneud â materion cymhleth fel diwylliant staff, arweinyddiaeth, gweledigaeth a strategaeth wedi cael eu hymgorffori yng nghynlluniau gwella sefydliadol tymor hwy y Bwrdd Iechyd.

Roedd gwaith i'w wneud o hyd ond nid oedd yr heriau yr oedd y Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu erbyn hyn yn wahanol i'r heriau a oedd yn cael eu hwynebu gan fyrdau iechyd eraill a oedd yn ceisio gwella ansawdd a diogelwch eu gwasanaethau mamolaeth yn barhaus.

Ar yr un pryd, roedd rhywfaint o gynnydd cynnar wedi'i wneud o ran mynd i'r afael â'r argymhellion brys ac ar unwaith ar gyfer gwella a ddeilliodd o'r adolygiad manwl o'r maes newyddenedigol. Nid oedd cynnydd wedi'i wneud mor gyflym ag yr oedd y Panel na'r Bwrdd Iechyd wedi gobeithio neu ei ddisgwyl, yn rhannol oherwydd effaith barhaus absenoldeb cysylltiedig â COVID-19. Fodd bynnag, roedd y seiliau sylfaenol wedi'u gosod yn eu lle, roedd cynllun wedi'i gytuno i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol ac roedd y Panel yn rhagweld y byddai'r cyflymder a'r momentwm yn cynyddu yn y cyfnod dilynol.

Roedd y rhaglen adolygiadau clinigol a darnau eraill o waith allweddol hefyd yn dod i gasgliad boddhaol ac o ystyried popeth, teimlai'r Panel fod yr amser yn dynesu lle gallai fod mewn sefyllfa cyn bo hir i wneud argymhelliad i'r Gweinidog nad oedd angen goruchwyliaeth allanol ymwithiol mwyach. Fodd bynnag, roedd yn bwysig yn gyntaf sicrhau bod y gwelliannau a wnaed wedi'u gwreiddio mewn ymarfer a bod taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant yn gynaliadwy i'r dyfodol; mewn geiriau eraill, cael sicrwydd na fyddai'n llithro'n ôl, yn colli momentwm nac yn cilio'n raddol os nad oedd y Panel yno mwyach i ddarparu monitro, her a chefnogaeth allanol annibynnol.

Er mwyn darparu'r sicrwydd hwnnw, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, nododd y Panel a'r Bwrdd Iechyd dri ar ddeg o 'amodau ar gyfer cynaliadwyedd' a fyddai, pe baent yn cael eu cyflawni, yn dangos bod y gwelliannau yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud wedi'u gwreiddio mewn ymarfer ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Cafodd yr amodau hyn eu nodi yn yr adroddiad cynnydd diwethaf ac roedd y Panel a'r Bwrdd lechyd yn y broses o gytuno ar y dystiolaeth fanwl y byddai ei hangen i ddangos eu bod wedi cael eu cyflawni.

Mae gweddill yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar asesu i ba raddau y mae pob un o'r tri ar ddeg o amodau hyn ar waith erbyn hyn a beth y mae'n ei olygu o ran cynaliadwyedd taith y Bwrdd lechyd tuag at welliant yn y dyfodol.

Os bydd y Gweinidog yn derbyn yr argymhellion yn yr adroddiad hwn, i bob pwrpas hwn fydd seithfed adroddiad cynnydd y Panel a'r adroddiad cynnydd olaf. Am y rheswm hwnnw, teimlai'r Panel y byddai'n ddefnyddiol dwyn ynghyd y dadansoddiad a'r casgliadau yn y chwe adroddiad blaenorol i ddarparu crynodeb cyfunol o daith y Bwrdd lechyd tuag at welliant hyd y pwynt hwn.

Er mwyn cadw prif gorff yr adroddiad yn gryno, mae'r crynodeb wedi'i nodi yn [Atodiad C](#). Fodd bynnag, mae'r ffeithlun yn Ffigur 1 yn rhoi darlun cam wrth gam o daith gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd lechyd tuag at welliant 'ar ffurf cipolwg'.

Mae'n bwysig gosod y daith honno'n fyr yn ei chyd-destun. Fel llawer o sefydliadau eraill, dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf, mae'r Bwrdd lechyd wedi wynebu cyfres o heriau nas gwelwyd erioed o'r blaen. Mae hynny'n cynnwys ymateb i ddechrau pandemig COVID-19, cyflwyno'r rhaglen frechu a sefydlu'r rhaglen adfer. Ar yr un pryd, mae wedi bod yn ymateb i alwadau na welwyd eu tebyg ar ei wasanaethau rheng flaen drwy ddau aeaf anodd a hir iawn eu parhad.

Does dim dwywaith fod absenoldeb oherwydd salwch yn gysylltiedig â COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar gyflymder y cynnydd o ran cyflawni cynlluniau gwella'r Bwrdd lechyd; bu sawl adeg dros y chwe mis diwethaf pan fu'n rhaid i staff sy'n ymwneud â gweithgareddau gwella ddychwelyd i ddyletswyddau rheng flaen er mwyn rhoi cymorth i'w cydweithwyr gweithredol.

O ystyried yr heriau hynny, y mae rhai ohonynt yn dal i fynd rhagddynt, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd rhyfeddol, yn fwyaf nodedig o fewn ei wasanaethau mamolaeth ond yn fwy diweddar yn ei wasanaethau newyddenedigol o ganlyniad i ffocws cynyddol yn y rhaglen wella.

Mae hynny'n brawf nid yn unig o arweinyddiaeth, cadernid a phenderfyniad y Bwrdd a'r uwch dîm arwain ond hefyd o waith caled, ymroddiad ac ymrwymiad y clinigwyr, y rheolwyr a'r staff cymorth rheng flaen sydd wedi gweithio mor galed mewn amgylchiadau anodd a heriol i drawsnewid gwasanaeth a oedd yn flaenorol yn siomi'r menywod a'r teuluoedd a oedd yn ei ddefnyddio.

Ni ddylent fyth anghofio'r hyn a ddigwyddodd, ac ni allant fod yn hunanfodlon ynglŷn â'r hyn sydd ar ôl i'w wneud. Fodd bynnag, gallant fod yn haeddiannol falch o'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni hyd yma a dylent deimlo'n hyderus bod ganddyn nhw yn gynyddol y capasiti a'r gallu i barhau â'r daith tuag at welliant.



**Ffigur 1: Taith y Bwrdd Iechyd tuag at Welliant – Cipolwg**

## Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Taith tuag at Welliant – Cipolwg

**YR ADOLYGIAD:** *Canfu'r aseswyr wasanaeth a oedd yn gweithio dan bwysau enbyd, ac nad oedd yr arweinyddiaeth reolaethol na chlinigol yn ddigon da. [...] nid oedd prosesau llywodraethu sylfaenol yn eu lle yn iawn eto. I wneud pethau'n fwy cymhleth, roedd diffygion yn y sefydliad bydweigiaeth, [...] defnydd sylweddol o staff meddygol ar sail locwm ar lefel meddygon iau a meddygon ymgynghorol a diffyg safonau ymarfer sefydledig.*

*(Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, Ebrill 2019)*

### Hydref 2019 - Rhagfyr 2019

#### Cyflawni'n Gynnar yn erbyn Argymhellion RCOG

- Fframwaith llywodraethu clinigol cadarn yn ei lle;
- Aseswyd ar lefel 'Cynnydd Cynnar' yn erbyn pob un o'r tri maes IPAAF;
- Cydymffurfriad gwell ar gyfer hyfforddiant gorfodol;
- Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau wedi'i gryfhau.

### Mawrth 2020 - Medi 2020


#### Dod drwy'r Storm COVID-19 a'r Pryderon sy'n Dod i'r Amlwg am Wasanaethau Newyddenedigol

- Canllawiau diwygiedig ar gyfer gweithdrefnau rheoli;
- Defnydd arloesol o gyfryngau cymdeithasol ar gyfer ymgysylltu;
- Aseswyd ar lefel 'Canlyniadau' yn erbyn pob un o'r tri maes IPAAF;
- Cwestiynau yn dod i'r amlwg am ansawdd gwasanaethau newyddenedigol.

### Medi 2021 - Ebrill 2022

#### Creu'r Amodau ar gyfer Gwelliannau Cynaliadwy

- Cau cynllun gweithredu RCOG;
- Cyhoeddi adroddiad manwl a chynllun gweithredu ar gyfer y newydd-anedig;
- Mekanweithiau adolygu Digwyddiadau Difrifol cryfach yn eu lle;
- Meysydd IPAAF Diogel ac Effeithiol ac Ansawdd Profiad Menywod ar lefel 'Aeddfedwydd' ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth.



### Mawrth 2019 - Medi 2019

#### Gwneud y Gwasanaeth yn Ddiogel - Gosod y Sylfeini ar gyfer Gwella

- Y gwasanaeth Mamolaeth wedi'i wneud yn ddiogel;
- Y Bwrdd ac uwch arweinwyr wedi croesawu'r angen am newid;
- Trefniadau rheoli'r rhaglen wedi'u sefydlu;
- Ymgysylltu'n gynnar â menywod, teuluoedd a chymunedau.

### Ionawr 2020 - Mawrth 2020

#### Cynnydd Cyson - Y Daith tuag at Welliant ar y Trywydd Iawn

- Cafodd dros hanner camau gweithredu'r RCOG eu cyflawni a'u cymeradwyo;
- Gwelliannau cynnar bellach wedi'u gwreiddio mewn ymarfer;
- Y berthynas â menywod a theuluoedd wedi'i chryfhau;
- Agor Canolfan Enedigaeth Tirion.

### Medi 2020 - Medi 2021

#### Symud tuag at Agwedd Drawsnewidiol Tymor hwy

- Elfennau gweithrediadol cynllun Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) bellach wedi'u cyflawni;
- Newid i ddull trawsnewid tymor hwy;
- Allosod Rheoli'r Rhaglen ar ôl COVID-19;
- Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol wedi'i gomisiynu;
- Pryderon ar unwaith sy'n deillio o'r adolygiad manwl wedi'u huwchgysyfeirio;
- Lansio PREMs ym maes mamolaeth;
- Gwella trefniadau goruchwyllo gan y Bwrdd.

**GWELEDIGAETH Y BWRDD IECHYD** - "Darparu gofal mamolaeth a newyddenedigol o'r safon uchaf gan sicrhau bod teuluoedd a babanod yn cael y dechrau gorau a bod babanod a phlant yn gallu cyrraedd eu potensial llawn o ran iechyd a llesiant." (Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Mamolaeth a Newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Hydref 2022)



### 3 Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd

Am resymau a esboniwyd yn yr adran flaenorol, mae gweddill yr adroddiad wedi cael ei strwythuro o amgylch y tri ar ddeg o 'amodau ar gyfer cynaliadwyedd'. Mae'r amodau hyn wedi'u crynhoi yn [Atodiad D](#).

Cafodd yr amodau cynaliadwyedd eu cynllunio drwy ymgynghori â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd i ddarparu ffordd wrthrychol o asesu cynnydd yn ystod camau diweddarach taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant. Y bwriad oedd, petai'r holl amodau'n cael eu cyflawni, y byddai hyn yn rhoi sicrwydd bod y gwelliannau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi'u gwneud ac yn parhau i'w gwneud yn gynaliadwy i'r dyfodol.

Mae'r amodau'n cyd-fynd yn agos â chynllun gwella tymor hwy y Bwrdd Iechyd a'u bwriad yw cefnogi'r broses o newid i ddull mwy 'busnes fel arfer', gyda cham nesaf y daith tuag at welliant yn eiddo i'r gwasanaeth mamolaeth a newyddenedigol ac wedi'i wreiddio mewn trefniadau llywodraethu arferol.

Ar gyfer pob un o'r amodau, mae'r Panel a'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar set o feini prawf llwyddiant a rhestr o'r dystiolaeth a fydd yn ofynnol er mwyn gallu ystyried bod yr amod wedi'i fodloni. Mae'r meini prawf llwyddiant a'r gofynion tystiolaeth ar gyfer pob un o'r tri amod ar ddeg wedi'u nodi yn y tabl yn [Atodiad E](#).

#### 3.1 Methodoleg Asesu

Mae asesiad y Panel o gynnydd yn erbyn yr amodau ar gyfer cynaliadwyedd wedi'i seilio ar wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:-

- adolygiadau o dystiolaeth ddogfennol;
- ymgysylltu â staff;
- cyfathrebu gyda menywod a theuluoedd;
- arddangosiadau gwella;
- hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr IPAAF.

Mae'r dystiolaeth hon wedi cael ei gwerthuso a'i thriongli yn erbyn ffynonellau gwybodaeth eraill, er enghraifft gwybodaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid allanol, gan gynnwys cyrff statudol a rheoleiddio fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), Archwilio Cymru a'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Ddechrau mis Medi 2022, cwblhaodd y Panel ymweliad sicrwydd dros ddau ddiwrnod â'r Bwrdd Iechyd, gan adeiladu ar ymarferion tebyg a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2021 a mis Mawrth 2022.

Roedd yr ymweliad yn galluogi'r Panel i asesu'n uniongyrchol pa gynnydd pellach a wnaed yn ystod y chwe mis rhwng yr ymweliadau, yn enwedig mewn perthynas â gwella gwasanaethau newyddenedigol. Roedd yr ymweliad hefyd yn galluogi'r Panel i asesu a oedd y gwelliannau a oedd wedi cael eu cyflawni'n flaenorol wedi cael eu hymgorffori 'ar lawr gwlad'.

## 4 Argymhellion y Colegau Brenhinol, Rheoli'r Rhaglen a Llywodraethu Corfforaethol

### Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Argymhellion y Colegau Brenhinol

Proses argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael ei chyflawni; yr holl argymhellion naill ai wedi cael eu hardystio gan y Panel fel rhai sydd wedi'u cyflawni neu'n rhai y trefnwyd i'w cyflawni yng Nghynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol tymor hwy y Bwrdd Iechyd.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd blaenorol, roedd y Panel wedi cadarnhau bod 62 o'r 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi'u cyflawni'n llawn, ac roedd yr wyth arall yn cael eu hystyried yn waith ar y gweill ar wahanol gamau o'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r argymhellion a oedd yn dal i gael eu rhoi ar waith yn gysylltiedig â datblygiadau tymor hwy mewn meysydd fel diwylliant ac arweinyddiaeth staff.

Er mwyn rhesymoli'r rhaglen wella, ym mis Mai 2022, gwnaeth y Panel argymhelliad i'r Gweinidog y dylid rhyddhau cynllun gweithredu'r Colegau Brenhinol ac y dylid trefnu'r elfennau sy'n weddill i'w cyflawni yng Nghynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol y Bwrdd Iechyd yn y tymor hwy. Cefnogwyd y cynnig hwnnw gan y Gweinidog ac, o'r herwydd, mae cynllun gweithredu'r Colegau Brenhinol bellach wedi'i gau gan y Bwrdd Iechyd.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r Panel wedi adolygu newidiadau i'r Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn rheolaidd ac mae'n fodlon bod holl elfennau sydd ar ôl o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu trosglwyddo'n systematig ac y trefnwyd i'w cyflawni yn y dyfodol gydag amserlenni ac atebolrwydd clir.

**Ar y sail honno, mae'r Panel yn fodlon bod yr amod hwn wedi'i fodloni'n llawn.**

Mae'n werth nodi bod nifer o'r argymhellion sydd ar ôl a symudwyd ymlaen i'r cynllun gwella tymor hwy eisoes wedi'u cyflawni neu'n agos iawn at gael eu cwblhau. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Cyf.	Argymhelliad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG)	Canlyniad
7.7	Sicrhau amgylchedd o breifatrwydd ac urddas i fenywod sy'n cael erthyliad neu'n camesgor yn unol â'r safonau gofal cenedlaethol y cytunwyd arnynt.	Mae llwybr a model gweithredu safonol Uned Asesu Ddydd Gynaecoleg (GDAU) wedi cael eu datblygu a'u cymeradwyo gan y tîm gweithredol. Mae cyfleusterau addas wedi cael eu comisiynu ac mae'r gwasanaeth GDAU wedi 'mynd yn fyw'.

Cyf.	Argymhelliad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG)	Canlyniad
7.35	Cynnal asesiad o anghenion hyfforddiant yr holl staff i nodi bylchau mewn sgiliau ac i dargedu hyfforddiant ychwanegol.	Mae Dadansoddiad o Anghenion Dysgu (LNA) wedi cael ei gynnal ar draws gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau newyddenedigol, gynaecoleg a gwasanaethau iechyd rhywiol integredig. Mae cynlluniau LNA wedi'u drafftio a'u cymeradwyo ac mae digwyddiad lansio wedi'i gynnal i hyrwyddo ymwybyddiaeth staff o'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael.
7.67	Datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth a defnyddio'r cyfle presennol i newid er mwyn creu gwasanaeth modern sy'n ymateb i'r menywod a'u teuluoedd a'r staff sy'n darparu gofal.	Datblygwyd drafft cyntaf o'r strategaeth, wedi'i seilio ar asesiad iechyd y boblogaeth ac ymgynghoriad gyda staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Mae hyn wedi bod drwy grŵp cyfeirio adolygiad clinigol allanol ac mae wedi cael ei gymeradwyo'n ddiweddar gan y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn barod i'w gyhoeddi (Gweler <a href="#">Adran 11</a> hefyd).

#### 4.1 Trefniadau Rheoli'r Rhaglen

Pan gyflwynodd y Panel ei adroddiad diwethaf ym mis Mai 2022, rhoddodd sylwadau ffafriol am effeithiolrwydd y trefniadau rheoli rhaglen gwell a oedd wedi cael eu rhoi ar waith gan y Bwrdd Iechyd i reoli'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol (MNIP).

Roedd cyrraedd (neu beidio â chyrraedd) cerrig milltir allweddol yn cael ei adrodd i'r Bwrdd drwy'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol (MNIB) drwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Roedd risgiau a metrigau ar lefel y rhaglen hefyd yn cael eu hadrodd, gan alluogi'r sefydliad i gadw golwg glir ar sut yr oedd y rhaglen wella'n gweithio, beth oedd eto i'w wneud a pha heriau allai godi dros yr wythnosau nesaf.

Ers hynny, mae Cyfarwyddwr y Rhaglen a oedd yn arwain yr MNIP wedi symud ymlaen ac mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gyfeiriad y rhaglen ar sail 'busnes fel arfer'. Mae cysondeb o fewn tîm y rhaglen ac mae'r trefniadau rheoli rhaglenni a oedd ar waith wedi cael eu cynnal i raddau helaeth ac maent yn parhau i weithio'n dda.

Roedd yr adroddiad uchafbwyntiau a'r papurau ategol a gyflwynwyd i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ym mis Medi 2022 o safon uchel a oedd yn galluogi'r Uwch Swyddogion Cyfrifol ac eraill i gael darlun clir o sefyllfa'r rhaglen o ran yr hyn a oedd wedi'i gyflawni, beth oedd angen ei wneud o hyd ac unrhyw gamau adferol angenrheidiol. Cafodd y papurau eu hategu gan gyfres gynyddol gynhwysfawr o ddata yn dangos sut mae'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn perfformio dros amser. Roedd hyn yn rhoi mwy o hyder i'r Panel na chollwyd dim sylweddol wrth drosglwyddo'r rhaglen.

O 01 Medi 2022 ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd wedi symud o strwythur y Grŵp Ardal Integredig (ILG) i strwythur Grŵp Gofal fel rhan o'r gwaith o ail-lunio model gweithredu'r sefydliad. O ganlyniad, mae gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wedi cael eu dwyn ynghyd mewn un grŵp, a elwir yn Grŵp Gofal Plant a Theuluoedd. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r cam gweithredu'n mynd rhagddo ac mae'r prosesau a'r strwythurau o fewn y grwpiau yn dal i gael eu cwblhau'n derfynol. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth yn awr yn goruchwyllo'r ddau wasanaeth, gyda chefnogaeth Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyfarwyddwr Meddygol, gan roi cyfle i'r ddau wasanaeth ddod yn fwyfwy integredig.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol sy'n disgrifio'r prosesau, y llinellau atebolrwydd a'r mecanweithiau uwchgyfeirio sydd wedi cael eu rhoi yn eu lle i reoli'r MNIP tymor hwy wedi cael ei adolygu a'i addasu i gyd-fynd â strwythur newydd y Grŵp Gofal. Cafodd y cynigion diwygiedig hyn eu cyflwyno i'r MNIB ym mis Medi 2022 a'u cymeradwyo. Mae'r fframwaith yn nodi pedair 'llinell amddiffyn 'o'r ward i'r bwrdd' sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod risg yn cael ei nodi a'i huwchgyfeirio fel sy'n briodol drwy'r fframwaith llywodraethu.

Fel rhan o'r trefniadau diwygiedig hyn, bydd MNIB yn cael ei ail-ddynodi fel y Bwrdd Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol i gydnabod natur newidiol y rhaglen wella a datblygiad y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol ar lefel Cymru gyfan.

Dros y chwe mis diwethaf, drwy'r broses o adolygu tystiolaeth ac arsylwi strwythurau cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd, mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth bod y trefniadau rheoli rhaglenni presennol yn effeithiol o ran diffinio amcanion gwaith gwella a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig, yn ogystal â nodi, monitro a lliniaru unrhyw rwystrau neu risgiau i gyflawni canlyniadau.

**Ar y sail honno, mae'r Panel yn credu bod yr amod rheoli rhaglen ar gyfer cynaliadwyedd wedi'i fodloni** er yn amlwg y bydd y trefniadau'n parhau i esblygu wrth i strwythur diwygiedig y Grŵp Gofal gael ei wreiddio.

## 4.2 Goruchwylio'r Gwasanaeth Mamolaeth a Newyddenedigol

### Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn goruchwylio ac yn craffu'n effeithiol ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, ac mae'n gwneud hynny'n gyson.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, sydd wedi cael ei ddatblygu i gefnogi cynlluniau gwella mamolaeth a newyddenedigol tymor hwy y Bwrdd lechyd, yn nodi strwythur clir i alluogi i risgiau a phroblemau gael eu huwchgyfeirio drwy fecanweithiau mewnol i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Mae'r Panel wedi parhau i arsylwi cyfarfodydd MNIB, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd drwy gydol y cyfnod adrodd hwn. Mae ansawdd ac amllder yr her a'r craffu a ddarperir gan Aelodau Annibynnol wedi cael ei gynnal ac mae hyn wedi rhoi sicrwydd pellach i'r Panel bod lefel briodol o oruchwyliaeth gorfforaethol ar ddarparu gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a'r rhaglen wella barhaus. Mae ymrwymiad personol Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wedi bod yn sbardun pwysig ar gyfer y gwelliannau mewn llywodraethu corfforaethol sydd wedi cael eu cyflawni.

Mae'r Panel o'r farn bod argaeledd data cywir ac amserol, ynghyd â'r gallu i archwilio a defnyddio'r data hwn i lywio gwelliannau, yn rhagofyniad ar gyfer gwelliannau cynaliadwy yn y tymor hwy ac yn sail i lawer o'r amodau ar gyfer cynaliadwyedd, yn enwedig llywodraethu corfforaethol effeithiol.

Mae cryn gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn, yn enwedig o ran gwella ansawdd data, datblygu dangosfyrddau a'r uchelgais sy'n dod i'r amlwg i fod yn wasanaeth sy'n cael ei yrru gan ddata.

Ym mis Medi 2022, cafodd dangosfwrdd y gwasanaeth mamolaeth ei ail-lansio ac mae bellach yn ymddangos ym mhob fforwm llywodraethu gyda llwybrau clir ar gyfer uwchgyfeirio i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod y dangosfwrdd newyddenedigol ar yr un lefel o ddatblygiad ond mae cynlluniau clir ar waith i fwrw ymlaen â hyn, ynghyd ag uchelgais i alinio ac integreiddio â dangosfwrdd y gwasanaeth mamolaeth, sy'n cael ei groesawu gan y Panel.

O ran rheoli data, mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth o arweinyddiaeth glir ar lefel uwch ac ar lefel y Bwrdd ac er bod gwaith i'w wneud o hyd, mae dealltwriaeth glir o'r bylchau gyda chynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hwy.

**Ar y sail honno, mae'r Panel yn credu, er y bydd y trefniadau'n parhau i ddatblygu a gwella wrth symud ymlaen, yn enwedig o ran defnyddio data, bod yr amod llywodraethu corfforaethol ar gyfer cynaliadwyedd bellach wedi'i fodloni.**

## 5 Y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF)

### Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – IPAAF

Mae'r IPAAF yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar lefel y gwasanaeth a'r Bwrdd er mwyn ystyried a gwerthuso cynnydd yn rheolaidd; aseswyd bod y gwasanaeth mamolaeth wedi cyrraedd lefel 'aeddferwydd' ar gyfer gofal diogel ac effeithiol, gyda'r meysydd eraill yn symud tuag at aeddferwydd; aseswyd bod y gwasanaeth newyddenedigol ar lefel 'canlyniadau' ym mhob un o'r tri maes; tystiolaeth gynnar o gynnydd yn erbyn y metrigau allweddol y cytunwyd arnynt.

Pan gyflwynodd y Panel adroddiad ddiwethaf ym mis Mai 2022, roedd yr IPAAF wedi esblygu'n broses hunanasesu ar lefel Bwrdd a oedd yn cael ei chynnal ar gylch pedwar mis a oedd yn cyd-fynd â'r trefniadau ymyrryd ehangach wedi'u targedu.

Cynhelir asesiad cychwynol yn erbyn matricesau aeddferwydd IPAAF gan arweinyddion y Grŵp Gwasanaethau Clinigol drwy gyfarfod adolygu wedi'i hwyluso. Wedyn bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i herio gan Gyfarwyddwyr y Grŵp Ardal Integredig a'r Uwch Swyddogion Cyfrifol dynodedig cyn cael ei gyflwyno i'w archwilio ymhellach gan Aelod Annibynnol. Yna, bydd canlyniad y broses herio hon yn cael ei drafod yn ystod sesiwn hunanasesu'r Bwrdd, ac os caiff ei gefnogi bydd yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd.

Ym marn y Panel, mae hwn yn gam pwysig ymlaen sy'n dangos yn glir pa mor drylwyr yw'r broses hunanasesu a pherchnogaeth y Bwrdd o ansawdd a diogelwch ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

### 5.1 Hunanasesiad Diweddar yn Erbyn yr IPAAF

Yn ystod mis Medi 2022, cynhaliodd y Bwrdd lechyd hunanasesiad pellach yn erbyn IPAAF y gwasanaeth mamolaeth a phenderfynodd ar y lefelau canlynol o aeddferwydd:

Maes	Lefel Aeddferwydd	Ffactorau sy'n Cyfrannu
Gofal Diogel ac Effeithiol	'Aeddferwydd' gyda rhai agweddau'n dynesu at 'Enghraifft o Ragoriaeth'	<ul style="list-style-type: none"><li>• diwylliant cadarnhaol o adrodd ar Datix;</li><li>• rhannu dysgu drwy nifer sylweddol o fforymau a rhwydweithiau;</li><li>• tri phrosiect gwella ansawdd wedi'u nodi i wella gofal clinigol;</li><li>• rhaglen archwilio clinigol wedi'i sefydlu ac archwiliadau lleol yn cael eu monitro'n rheolaidd;</li><li>• hyrwyddo'r dangosfwrdd mamolaeth;</li></ul>

Maes	Lefel Aeddfedrwydd	Ffactorau sy'n Cyfrannu
		<ul style="list-style-type: none"> <li>• adolygiad thematig o farw-enedigaethau wedi'i gynnal a Chlinig Babi Rainbow wrthi'n cael ei ddatblygu.</li> </ul>
Ansawdd Profiadau Menywod	Enghraifft o Ragoriaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>• presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol gyda dros 6,300 o aelodau ar grŵp Facebook 'Bump Talk';</li> <li>• 'her 15 cam' a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda defnyddwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr CIC;</li> <li>• gwasanaeth myfyrio ac ôl-ystyried genedigaeth bellach yn ei le;</li> <li>• digwyddiadau ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth drwy'r grŵp 'My Maternity My Way' fel sail ar gyfer datblygu'r strategaeth gwasanaeth.</li> </ul>
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Aeddfedrwydd	<ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu gweledigaeth a strategaeth ddrafft sy'n seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol;</li> <li>• Adolygiad Birthrate+ (asesiad o lefelau staffio mamolaeth) wedi'i gwblhau ac adborth yn cael ei ddisgwyl;</li> <li>• Fframwaith Dadansoddi Anghenion Dysgu wedi'i gwblhau gyda chyfraddau hyfforddi dros 90% a hyfforddiant amlddisgyblaethol wedi'i wreiddio;</li> <li>• clwb cylchgronau cenedlaethol yn cael ei lansio'n bennaf dan arweiniad bydwragedd y Bwrdd Iechyd;</li> <li>• hyfforddiant ffactorau dynol a diogelwch seicolegol yn mynd rhagddo;</li> <li>• cynllun ymgysylltu a llesiant wedi'i gwblhau a'i rannu â staff drwy ddigwyddiadau ymgysylltu ffurfiol;</li> <li>• Fframwaith Gwella Ansawdd yn ei le gyda'r Rheolwr Gwella Ansawdd yn cynnal clinigau rheolaidd a staff yn rhannu eu syniadau.</li> </ul>

Mae'r Panel wedi adolygu asesiad y Bwrdd Iechyd yn annibynnol yn erbyn IPAAF y gwasanaeth mamolaeth ac mae'n llwyr gefnogi'r casgliadau y daethpwyd iddynt.

Mae'r asesiad cyffredinol o 'Aeddfedrwydd' ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth yn ei gyfanrwydd a'r newid o 'Aeddfedrwydd' i 'Enghraifft o Ragoriaeth' yn y maes Ansawdd Profiadau Menywod yn garreg filltir bwysig yn nhaith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant y dylid ei chydabod a'i chymeradwyo.

Dylai'r ffordd y mae'r grŵp My Maternity My Way wedi datblygu dros y tair blynedd diwethaf gael ei gydnabod hefyd ac, ym marn y Panel, bu newid sylfaenol yn y ffordd y mae'r gwasanaeth mamolaeth yn gwrando ac yn ymateb i'r adborth a gafwyd gan fenywod a theuluoedd.

Mae'r Panel yn deall bod Cadeirydd y grŵp wedi cael Gwobr Uchel Siryf i gydnabod ei gwaith sy'n adlewyrchu'r newid rhyfeddol a gyflawnwyd ers cynnal adolygiad y Colegau Brenhinol.

O ran y gwasanaeth newyddenedigol, daeth y Bwrdd Iechyd i'r casgliad canlynol o ran aeddfedrwydd yn erbyn y tri maes yn IPAAF y gwasanaeth newyddenedigol:

<b>Maes</b>	<b>Lefel Aeddfedrwydd</b>	<b>Ffactorau sy'n Cyfrannu</b>
Gofal Diogel ac Effeithiol	Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gwell cydymffurfriad o ran hyfforddiant a mynediad amserol at hyfforddiant ar-lein drwy ddefnyddio codau QR;</li> <li>• rhannu'r hyn a ddysgwyd drwy brosesau archwilio a llywodraethu yn ogystal ag addysgu gyda siart troi sy'n digwydd ar 'lawr y siop';</li> <li>• cydweithio â Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru a chyfrannu at gyfarfodydd cot dyddiol a sgrymiau 'diogel i ddechrau';</li> <li>• datblygu'r dangosfwrdd newyddenedigol ymhellach ac ystyried sut y gellir cysoni hyn yn agos â'r dangosfwrdd mamolaeth;</li> <li>• presenoldeb cyson gan y gwasanaeth newyddenedigol yn nhrosglwyddiadau mamolaeth.</li> </ul>
Ansawdd Profiadau Menywod	Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu strategaeth ymgysylltu â theuluoedd gan ddefnyddio dulliau cydgynhyrchu;</li> <li>• presenoldeb y gwasanaeth newyddenedigol yn y sesiynau ymgysylltu My Maternity My Way;</li> <li>• tîm gofal teulu integredig wedi'i ddatblygu;</li> <li>• sesiynau addysgu rhieni yn cael eu cynnal ar yr unedau newyddenedigol;</li> <li>• byrddau cyfathrebu 'dywedoch chi, gwnaethom ni' yn eu lle.</li> </ul>



Maes	Lefel Aeddfedrwydd	Ffactorau sy'n Cyfrannu
Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth	Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygu strategaeth ddrafft ar y cyd â'r gwasanaeth mamolaeth;</li> <li>• cynlluniau'r gweithlu wrthi'n cael eu datblygu i sicrhau cydymffurfiad BAPM ar gyfer lefelau staffio nyrsys;</li> <li>• Dadansoddiad o Anghenion Dysgu yn cael ei datblygu a chynrychiolaeth barhaus i staff newyddenedigol ar raglenni arweinyddiaeth gorfforaethol;</li> <li>• Uwch Nyrs a Rheolwr Ward wedi'u penodi ar draws y ddau safle ysbyty;</li> <li>• arolygon staff yn cael eu cynnal a chynlluniau i gael adborth amserol gan staff drwy QR Llais Staff yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r gwasanaeth mamolaeth.</li> </ul>

Mae'r newid o 'Cynnydd Cynnar' i Canlyniadau hefyd yn garreg filltir bwysig i'r gwasanaeth newyddenedigol, sy'n adlewyrchu'r cyflymder a'r momentwm cynyddol sydd wedi dechrau dod i'r amlwg yn ei raglen wella yn y misoedd diwethaf.

Mae'r Panel yn cefnogi hunanasesiad y Bwrdd Iechyd ar gyfer ei wasanaeth newyddenedigol ond mae wedi darparu rhywfaint o adborth ynghylch sut y gellid atgyfnerthu'r sefyllfa hon yn ystod y misoedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys:-

- yr angen i rolau arweinyddiaeth ac ansawdd sydd wedi'u creu'n ddiweddar gael eu gwneud yn sylweddol;
- bod y dysgu'n cael ei rannu a'i weithredu'n gyson;
- mwy o ymgysylltiad meddygol;
- datblygu a defnyddio'r dangosfwrdd newyddenedigol ymhellach fel sail ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau.

**Wedi dweud hynny, o ystyried y ffordd y mae fframwaith yr IPAAF wedi esblygu dros y deuddeg mis diwethaf a'r ffaith bod yr asesiad o aeddfedrwydd yn erbyn yr IPAAF wedi bodloni neu wedi rhagori ar y disgwyliadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol gyda'r Bwrdd Iechyd, mae'r Panel o'r farn bod yr amod hwn ar gyfer cynaliadwyedd wedi cael ei fodloni'n llawn.**

## 6 Rhaglen Adolygiadau Clinigol ac Ymchwiliadau i Ddigwyddiadau Difrifol

### Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Y Rhaglen Adolygiadau Clinigol

Mae'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol wedi'i chwblhau'n llwyr; rhoddwyd sylw llawn i'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu'r Bwrdd Iechyd.

### 6.1 Ymarfer Golwg yn Ôl 2016-2018

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf ym mis Mai 2022, roedd y trydydd categori a'r olaf o ymarfer golwg yn ôl 2016-2018 (yr adolygiad o'r gofal a ddarparwyd i famau a'u babanod a fu farw yn anffodus neu a oedd angen gofal newyddenedigol arbenigol ar ôl geni) newydd gael ei gwblhau ac roedd [adroddiad](#) thematig wedi cael ei gyhoeddi yn crynhoi'r prif ganfyddiadau.

Daeth hyn â'r ymarfer golwg yn ôl i ben i bob pwrpas. Ysgrifennwyd at yr holl fenywod a theuluoedd y mae eu gofal wedi cael ei adolygu er mwyn cadarnhau bod eu canfyddiadau personol ar gael os ydynt yn dymuno eu derbyn. Nid oes dyddiad cau ar gyfer y cynnig hwn; gall menywod a theuluoedd ddod ymlaen ar unrhyw adeg yn y dyfodol i ofyn am eu canfyddiadau os mai dyna yw eu dymuniad.

Rhoddwyd proses gadarn ar waith o ddechrau'r rhaglen i sicrhau bod yr holl ddysgu a ddeilliodd o'r adolygiadau yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd Iechyd ar sail ailadroddol er mwyn gallu cymryd camau lle bo hynny'n briodol. Mae'r Panel wedi parhau i oruchwylio cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran bwrw ymlaen â'r dysgu hwn ac wedi gweld tystiolaeth sy'n cadarnhau bod y mwyafrif helaeth o'r camau gweithredu a ddaeth i'r amlwg o'r rhaglen bellach wedi'u cwblhau.

Lle mae camau gweithredu'n dal i fod yn waith syn mynd rhagddo, mae hyn yn bennaf oherwydd eu natur tymor hwy ac mae'r camau gweithredu hyn wedi cael eu hymgorffori yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol sy'n cael ei fonitro gan Fwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol y Bwrdd Iechyd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Ym marn y Panel, mae mynd i'r afael â'r materion a bwrw ymlaen â'r dysgu sydd wedi deillio o'r rhaglen adolygiadau clinigol wedi cefnogi'r Bwrdd Iechyd, nid yn unig o ran sicrhau gofal mwy diogel a mwy effeithiol i fenywod, eu babanod a'u teuluoedd, ond hefyd o ran meithrin ethos gwella o fewn a rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Bydd yr ethos hwn yn hwyluso dull mwy cynaliadwy o wella gwasanaethau'n barhaus wrth symud ymlaen, sy'n cael ei sbarduno'n bennaf gan y timau clinigol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Panel wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd lechyd a sefydliadau eraill sy'n ymwneud â darparu'r rhaglen, sef yr Uned Gyflawni a'r Cyngor lechyd Cymuned, er mwyn sefydlu cynlluniau i gau'r rhaglen adolygiadau clinigol, o ran adolygiadau unigol yn ogystal â'r rhaglen yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys archifo holl ganfyddiadau'r adolygiad yn ddiogel yn systemau gwybodaeth y Bwrdd lechyd.

## 6.2 Proses Hunanatgyfeirio Ddiwygiedig

Yn ei Adroddiad Cynnydd ym mis Ebrill 2022, argymhellodd y Panel y dylid rhoi'r gorau i'r broses hunanatgyfeirio bresennol a'i disodli gan broses dan arweiniad y Bwrdd lechyd yn seiliedig ar egwyddorion y prosesau Gweithio i Wella (PTR) presennol, gyda goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y newid hwn oedd sicrhau bod llwybr ar gael o hyd i unrhyw fenywod a theuluoedd sy'n dal i geisio atebion am y gofal mamolaeth a newyddenedigol a gawsant cyn 2018.

Derbyniodd y Gweinidog yr argymhelliad hwn ac mewn ymgynghoriad â'r Panel a Llywodraeth Cymru, mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu a gweithredu proses ddiwygiedig. Gall unrhyw fenyw neu deulu sydd â phryderon am y gofal a gawsant gysylltu â'r Bwrdd lechyd i wneud cais am adolygiad drwy ddefnyddio'r wybodaeth gyswllt a ddarperir [yma](#).

**Gan fod y rhaglen adolygiadau clinigol wedi'i chwblhau'n effeithiol a bod yr holl gamau gweithredu a ddaeth i'r amlwg naill ai wedi cael sylw gan y Bwrdd lechyd neu'n parhau i fod yn waith sy'n mynd rhagddo ac wedi'u cynnwys yn y cynllun gwella tymor hwy, mae'r Panel yn credu bod yr amod hwn ar gyfer cynaliadwyedd wedi cael ei fodloni'n llawn.**

## 6.3 Ymchwilio i Ddigwyddiadau Difrifol

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Ymchwilio i Ddigwyddiadau Difrifol**

Mae argymhellion Uned Gyflawni GIG (Cymru) wedi'u cyflawni a'u cymeradwyo; ymchwiliadau effeithiol yn cael eu cynnal ar sail 'busnes fel arfer'; yr holl ddysgu'n cael ei nodi a'i rannu'n rheolaidd fel mater o drefn ac mae tystiolaeth bod hyn yn arwain at welliannau mewn gofal.

Pan ddatblygwyd y rhaglen adolygiadau clinigol yn wreiddiol, cytunwyd mai ar y Bwrdd lechyd y byddai'r cyfrifoldeb dros reoli adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ar ôl mis Hydref 2018, gyda goruchwyliaeth gan y Panel.

Roedd dau reswm am hyn. Y rheswm cyntaf, mwy ymarferol, oedd bod angen i'r Panel ganolbwyntio ar ymarfer golwg yn ôl 2016-18, a oedd yn argymhelliad penodol gan y Colegau Brenhinol. Yr ail reswm, a oedd yn fwy seiliedig ar egwyddorion, oedd y gydnabyddiaeth y dylai'r Bwrdd lechyd ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wella ei brosesau adolygu ei hun, a bod hynny'n annhebygol o ddigwydd pe bai rhaglen allanol annibynnol yn cael ei datblygu i adolygu digwyddiadau mwy cyfoes.

Yn seiliedig ar hynny, cytunwyd y byddai'r Bwrdd lechyd yn rheoli'r digwyddiadau difrifol ar ôl mis Hydref 2018, ac y byddai'r Panel yn rhoi proses ar waith i samplu ymchwiliadau ar hap, gyda'r bwriad o gael y sicrwydd angenrheidiol i allu rhoi gwybod i'r Gweinidog bod y prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd yn addas i'r diben.

Yn dilyn ymarfer samplo ar hap, nid oedd y Panel yn gallu cael y lefel sicrwydd angenrheidiol. O ganlyniad, ym mis Mai 2021, cafodd yr Uned Gyflawni ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo'r Bwrdd lechyd i gryfhau ei brosesau a'i systemau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau a dysgu yn ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, yn ogystal â chynorthwyo i ddelio â'r ôl-gronid o ddigwyddiadau difrifol a oedd wedi datblygu mewn modd amserol ac wedi'i flaenoriaethu.

Yn ei Adroddiad Cynnydd ym mis Ebrill 2022, eglurodd y Panel fod y gwaith hwn wedi'i gwblhau a bod adroddiad terfynol wedi'i dderbyn gan yr Uned Gyflawni a oedd yn cadarnhau'r cynnydd sylweddol a wnaed gan y Bwrdd lechyd.

Er bod gwelliannau pellach i'w gwneud o hyd, fel cyfraniadau gwell i ymchwiliadau gan y gwasanaeth newyddenedigol yn ogystal â sicrhau bod y gwelliannau a wnaed hyd yma wedi'u gwreiddio'n gadarn mewn ymarfer, cadarnhaodd y Panel ei fod wedi cael sicrhau bod systemau a phrosesau'r Bwrdd lechyd ar gyfer rheoli ac ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol yn addas i'r diben.

Ers ei adroddiad diwethaf, mae'r Panel wedi adolygu ymchwiliad mwy diweddar i ddigwyddiad a gyflwynwyd gan y Bwrdd lechyd ar lefel genedlaethol. Pwrpas yr adolygiad hwn oedd cadarnhau bod ansawdd yr ymchwiliadau sy'n cael eu cynnal gan wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd lechyd yn parhau i fod o'r safon ddisgwyliedig gyda chyfranogiad amlddisgyblaethol a dysgu priodol wedi'i nodi.

Drwy'r adolygiad hwn, cafodd y Panel ei sicrhau bod y gwelliannau a wnaed eisoes gan y Bwrdd lechyd wedi cael eu cynnal a'u gwreiddio ymhellach mewn ymarfer. Ar ben hynny, mae'r Panel yn deall ers hynny bod yr Uned Gyflawni wedi enwebu Pennaeth Bydwreigiaeth y Bwrdd lechyd am wobwr genedlaethol sy'n adlewyrchu ymhellach y cynnydd a wnaed.

**Ar y sail honno, mae'r Panel yn fodlon bod yr amod ar gyfer cynaliadwyedd yn ymwneud ag ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol wedi'i fodloni'n llawn.**

#### **6.4 Uwchgynhadledd Genedlaethol ar Ddiogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol**

Ar 06 Medi 2022, cyfrannodd y Panel at yr Uwchgynhadledd Genedlaethol ar Ddiogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol a gynhaliwyd ar y cyd gan y Prif Swyddog Nyrsio a Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru.

Gyda'r thema 'Mae Diogelwch yn Gyfrifoldeb i Bawb', nod y digwyddiad oedd rhannu'r hyn a ddysgwyd o raglen adolygiadau clinigol y Panel tra'n ystyried argraffiadau ac arferion gorau o gynlluniau a rhaglenni gwaith eraill sy'n digwydd ledled y Deyrnas Unedig.

Prif ffocws mewnbyn y Panel oedd rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r broses adolygiadau clinigol y gellid ei drosglwyddo i sefydliadau eraill a helpu i wella'r ffordd y cynhelir adolygiadau ac ymchwiliadau fel mater o drefn. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu mecanweithiau sicrhau ansawdd cadarn, gan sicrhau lefelau priodol o allanoldeb yn ogystal ag ymgorffori adborth a gwerthuso ailadroddol i sicrhau bod dysgu drwy brosesau yn cefnogi gwelliant parhaus.

Yn ogystal â dysgu drwy brosesau, tynnodd y Panel sylw hefyd at ddysgu trosglwyddadwy mewn perthynas ag ymgysylltu â thelueoedd, eu cynnwys a'u cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at gymorth eiriolaeth annibynnol, darparu cyfleoedd i deulueoedd fod yn rhan o'r gwaith o lunio dulliau cyfathrebu yn ogystal â newidiadau mewn ymarfer a sicrhau bod pecynnau cymorth emosiynol a chorfforol ar gael.

Yn ystod yr uwchgynhadledd, darparwyd gwybodaeth amrywiol gan siaradwyr arbenigol o amrywiaeth o gyrff a sefydliadau cenedlaethol yn ymwneud â gofal mamolaeth a newyddenedigol. Roedd hyn yn cynnwys canfyddiadau ymchwiliadau ac ymholiadau ar wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol eraill ar draws y Deyrnas Unedig a thystiolaeth o 'beth mae da yn ei olygu' wrth ddarparu gofal mamolaeth a newyddenedigol diogel a chynaliadwy o safon uchel.

Roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i'r Bwrdd lechyd ddangos y ffordd y mae wedi ymateb yn gadarnhaol i'r dysgu a ddeilliodd o'r rhaglen adolygiadau clinigol, gan arddangos y gwelliannau y mae wedi'u gwneud yn ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn fwy cyffredinol.

## **6.5 Themâu sy'n Dod i'r Amlwg ar gyfer Ystyriaethau Pellach**

Y cwestiwn allweddol y gofynnwyd i'r cynadleddwyr a'r siaradwyr a oedd yn bresennol yn yr uwchgynhadledd ei ystyried oedd sut y gellir atal y materion a gododd o'r rhaglen adolygiadau clinigol yng Nghwm Taf Morgannwg, sydd wedi codi dro ar ôl tro o ymchwiliadau ac ymholiadau tebyg ledled y Deyrnas Unedig dros flynyddoedd lawer, rhag digwydd eto. Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg, yn fwyaf nodedig:-

- gwrando ar leisiau menywod a'u teulueoedd a gweithredu arnynt ar bob cam o'u taith mamolaeth a newyddenedigol – dylent fod wrth galon y broses o wneud penderfyniadau ac yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu a gwella gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol;
- buddsoddi ym mhob rhan o'r gweithlu i sicrhau lefelau staffio diogel gyda chynlluniau gweithlu cryf yn ymgorffori gweledigaeth gydweithredol – dylid cydnabod pwysigrwydd rolau ansawdd nad ydynt yn rhai clinigol hefyd;

- dysgu a hyfforddiant amlddisgyblaethol i wella deinameg timau a gweithio cydweithredol;
- buddsoddi mewn rolau arwain i gynnwys hyfforddiant priodol, digon o amser wedi'i neilltuo i ymgymryd â rolau a chynllunio olyniaeth – mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol i hyrwyddo diwylliant cadarnhaol sy'n meithrin;
- mae mynediad at ddata meintiol ac ansoddol o ansawdd uchel yn hanfodol er mwyn deall allbwn y gwasanaeth i wella'r gofal a ddarperir i fenywod, babanod a theuluoedd yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth a'r newyddenedigol;
- mae angen i brosesau llywodraethu gael eu diffinio'n dda, eu strwythuro a chael adnoddau digonol.

Rhagwelir y bydd yr hyn a ddysgwyd o adolygiad clinigol y Panel, ynghyd â'r dysgu arall a ddeilliodd o'r uwchgynhadledd, yn awr yn cyfrannu at y Rhaglen Genedlaethol Cefnogi Diogelwch Mamolaeth a Newyddenedigol, gan sicrhau ei bod yn cyfrannu at ddatblygu gofal diogel, effeithiol o ansawdd uchel i famau, babanod a'u teuluoedd ledled Cymru.

## 7 Gwella'r Gwasanaethau Newyddenedigol

Comisiynwyd yr adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol i asesu ansawdd a diogelwch y gwasanaethau newyddenedigol a ddarperir yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Edrychodd yr adolygiad yn fanwl ar bob agwedd ar wasanaeth newyddenedigol yr ysbyty, gan gynnwys y ffordd y mae wedi ei integreiddio â'r gwasanaeth mamolaeth, gwasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd a'r rhwydwaith ehangach o wasanaethau newyddenedigol ledled Cymru.

Ym mis Awst 2021, beth ffordd drwy'r adolygiad, nododd y tîm adolygu nifer o bryderon yr ystyriwyd bod ganddynt y potensial i effeithio ar ddiogelwch y gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyfanswm o 14 o faterion a oedd yn ymwneud â darpariaeth meddygon ymgynghorol, cymorth fferylliaeth, gweithio ar y cyd â'r gwasanaeth mamolaeth, a safonau dogfennau. Cafodd y rhain eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu ar unwaith.

Cafodd yr adolygiad manwl llawn ei gwblhau ym mis Tachwedd 2021, a chyhoeddodd y Gweinidog [adroddiad](#) a oedd yn nodi canfyddiadau'r Panel ym mis Chwefror 2022. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen gwella'r gwasanaeth newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn sylweddol, a gwnaeth 42 o argymhellion. Roedd pump o'r rhain yn cael eu hystyried yn rhai lle yr oedd angen gweithredu ar unwaith, a derbyniwyd pob un o'r argymhellion gan y Bwrdd Iechyd. O'u cyfuno â'r 14 maes oedd wedi'u huwchgyfeirio i weithredu arnynt ar unwaith, roedd hyn yn creu cyfanswm o 56 o gamau gwella i'r Bwrdd Iechyd eu cyflawni a'u gwreiddio mewn arferion gweithredol.

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o gyflawni argymhellion yr adolygiad manwl, aeth y Panel ati i datblygu 'templod cynllun gweithredu' a'i rannu â'r Bwrdd Iechyd. Bwriad hyn oedd egluro disgwyliadau'r Panel a nodi'n fanylach y gwaith oedd angen ei wneud i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion, ynghyd ag amserlenni a awgrymwyd ar gyfer cwblhau, i gynorthwyo gyda blaenoriaethu.

### 7.1 Cynnydd yn Erbyn Meysydd i'w Gwella 'Ar Unwaith'

#### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gwella'r Gwasanaeth Newyddenedigol Cynnar**

Y Panel wedi cadarnhau bod yr argymhellion yn yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol a oedd yn gofyn am weithredu ar unwaith wedi cael eu cwblhau ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch yr uned; cynllun i gyflawni'r argymhellion sy'n weddill wedi cael ei ddatblygu a'i gytuno gan y Panel.

Pan gyflwynodd y Panel adroddiad ym mis Mai 2022, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno pecynnau cynhwysfawr o dystiolaeth yn erbyn 9 o'r 19 maes i'w gwella ar unwaith, a nodwyd gan y tîm adolygu manwl.

Cydnabu'r Panel fod datblygiadau cadarnhaol wedi'u gwneud ym mhob un o'r 9 maes hynny, gyda gwaith paratoi wedi'i gwblhau ym mhob achos a rhai canlyniadau cynnar wedi'u cynhyrchu. Fodd bynnag, daeth y Panel i'r casgliad mai dim ond pump y gellid eu hystyried fel rhai wedi'u cwblhau a'u gwreiddio'n llawn mewn ymarfer ar y pryd.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r tîm newyddenedigol wedi gwneud cynnydd clinigol clir. Mae rhai datblygiadau ehangach wedi'u cyflawni mewn strwythurau a phrosesau gwasanaeth hefyd ac mae'r Panel o'r farn bod cynnydd ystyrlon wedi'i wneud yn y rhan fwyaf o'r meysydd 'gwella ar unwaith' a nodwyd gan yr adolygiad manwl.

Dros y ddau fis diwethaf, mae'r Panel wedi gweld mwy o ymgysylltu clinigol gyda'i gynnig hirsefydlog o gymorth clinigol uniongyrchol. Mae clinigwyr newyddenedigol y Panel wedi cwrdd ag uwch staff meddygol, nyrsio a rheoli bob wythnos i adolygu tystiolaeth a thrafod cyfleoedd pellach ar gyfer cynnydd. Cafwyd ymdeimlad clir o fod eisiau gwella'r gwasanaeth a pharodwyd i dderbyn mentora a chymorth allanol.

Er bod cyflymder y cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl, mae'r Panel yn cydnabod bod heriau gweithredol parhaus wedi bod yn y gwasanaeth newyddenedigol sydd wedi effeithio ar y gallu i ryddhau staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella. Mae hyn yn rhannol oherwydd effaith barhaus COVID-19 ar lefelau salwch staff a rhywfaint o salwch hirdymor nad oes modd ei osgoi yn yr uwch dîm rheoli. Fodd bynnag, nid yw hynny'n adlewyrchiad o ymrwymiad y Bwrdd Iechyd na'r tîm newyddenedigol i fwrw ymlaen â gwelliannau i'r gwasanaeth, ac nid yw ychwaith yn gyd-destun sy'n unigryw i'r Bwrdd Iechyd.

Yn erbyn y cefndir hwnnw, o fewn y cyfnod adrodd presennol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu pecynnau cynhwysfawr o dystiolaeth yn erbyn pob un o'r 14 maes i'w gwella ar unwaith sydd eto i'w cwblhau.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd wedi cael ei gwerthuso ac mae'r Panel yn falch o adrodd ar gynnydd ar draws pob un o'r 14 maes. Erbyn hyn, mae 10 wedi'u cyflawni'n llawn a phedwar wedi'u cyflawni'n rhannol, gydag elfennau'n dal i fod yn 'waith sy'n mynd rhagddo'.

Mae hynny'n golygu bod 15 o'r 19 cam gweithredu 'ar unwaith' wedi'u cyflawni'n llawn erbyn hyn. Mae'r sefyllfa bresennol yn erbyn pob un o'r 19 cam gweithredu ar unwaith wedi'i nodi yn yr atodlen yn [Atodiad F](#). Mae enghreifftiau o welliannau newyddenedigol yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:-

- gwell safonau dogfennu;
- ffocws clir ar wella gweithdrefnau clinigol, gan gynnwys prosiect gwella ansawdd ar y cyd (QI) â'r Uned Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (NCV) leol er mwyn lleihau'r achosion o dynnu tiwb endotracheaidd heb eu cynllunio;
- datblygu strategaeth ymgysylltu newyddenedigol gyda chamau manwl i gefnogi gweithio gyda theuluoedd i ddeall effaith profi gofal newyddenedigol a gwella'r broses o gynnwys teuluoedd yn y gwasanaeth;



- cyflwyno strwythur archwilio clir i fonitro gwelliant a dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwasanaeth;
- adolygu adroddiadau radioleg ffurfiol ac archwiliad o ddehongli delweddau.

Yn ogystal, ystyriai'r Panel bod bod ar ward newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ystod mis Medi yn teimlo'n wahanol iawn i'r ymweliad blaenorol ddiwedd mis Chwefror 2022 a bod ymdeimlad o symud a chydlyniant nad oedd wedi cael ei weld o'r blaen.

Er bod nifer fach yn dal ar ôl i gael eu cyflawni'n llawn, bu cynnydd ystyrion yn erbyn pob un o'r 19 o'r camau gweithredu ar unwaith a gynhwyswyd yng nghynllun gwella'r gwasanaeth newyddenedigol.

**Ar y sail honno, mae'r Panel yn credu bod yr amod hwn ar gyfer cynaliadwyedd wedi cael ei fodloni, er bod rhagor o waith i'w wneud yn y dyfodol.**

## 7.2 Gwelliannau i'r Gwasanaeth Newyddenedigol yn y Tymor Hwyl

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gwella'r Gwasanaeth Newyddenedigol yn y Tymor Hwyl**

Mae cynlluniau gwella tymor hwyl yn gredadwy gydag amserlen a llwybr clir; mae tystiolaeth o gynnydd ystyrion yn erbyn yr elfennau hynny yn y cynllun gwella sy'n gofyn am ymatebion tymor byr a chanolig, yn enwedig yr argymhellion sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â theuluoedd.

Prif ffocws y Panel dros y chwe mis diwethaf fu gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i fynd i'r afael â'r camau gweithredu 'ar unwaith' yng nghynllun gwella'r gwasanaeth newyddenedigol.

Fodd bynnag, mae'r Panel yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd hefyd yn y cefndir wedi bod yn rhoi sylw i elfennau eraill o'r cynllun gwella sy'n gofyn am weithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hwyl. Er enghraifft, mae'r Panel yn ymwybodol o'i arsylwadau ei hun o nifer o ddatblygiadau allweddol sydd wedi digwydd, gan gynnwys:-

- mae'r gwaith o gylchdroi timau nyrsio a meddygol i'r uned newyddenedigol trydyddol leol i gefnogi'r gwaith o gynnal cymhwysedd mewn sgiliau clinigol allweddol a gwneud penderfyniadau wedi dechrau ac yn cael derbyniad da;
- mae hyfforddiant efelychu aml-ddisgyblaeth rheolaidd yn cael ei gynnal gan ddefnyddio enghreifftiau achos i gefnogi dysgu ymarferol;
- mae nifer fach o brosiectau gwella ansawdd wedi cael eu cynnal.

Wrth i ffocws y Bwrdd Iechyd symud tuag at gyflawni yn erbyn y cynllun gwella tymor hwyl, disgwylir y bydd yn cymryd perchnogaeth gynyddol dros yrru'r broses wella yn ei blaen.

Mae'n bwysig pwysleisio nad yw'r Panel, ar hyn o bryd, wedi adolygu tystiolaeth fanwl yn ymwneud â chyflawni camau gweithredu tymor byr, canolig a hwy, nac ychwaith wedi cynnal unrhyw fath o werthusiad strwythuredig i asesu i ba raddau y mae'r camau gweithredu hyn yn y cynllun wedi cael eu cyflawni.

Fodd bynnag, yr hyn y gall y Panel ei ddweud yn hyderus yw:-

- bod cynllun manwl yn ei le a fydd yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad manwl;
- bod gan y cynllun amserlenni clir a'i fod yn nodi'r camau sylfaenol y mae angen eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion.

Er nad yw wedi cael ei werthuso na'i sicrhau o ran ansawdd gan y Panel, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal asesiad mewnol yn ddiweddar o'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud yn erbyn y cynllun gwella ehangach hyd yma. Daeth i'r casgliad bod nifer fawr o'r gwelliannau hyn wedi'u cwblhau erbyn hyn, er bod elfennau sydd angen sylw dilynol, eu gwerthuso a'u gwreiddio ymhellach.

Mae cyfran debyg yn dal yn waith sy'n mynd rhagddo ac ar wahanol gamau cyflawni, tra bod llond llaw wedi cael eu dal yn ôl ond mae rhesymau clir dros hyn, yn ogystal â chynlluniau yn eu lle ar gyfer eu cwblhau. Os byddant yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlenni a bennwyd, y bwriad yw i'r cynllun gwella fod wedi'i gwblhau'n llawn erbyn 31 Mawrth 2023.

Mae ymgysylltu â theuluoedd mewn gwasanaethau newyddenedigol yn dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo ac mae'r Panel o'r farn bod cyfleoedd ar gyfer parhau i rannu'r hyn a ddysgwyd o ddulliau llwyddiannus y gwasanaeth mamolaeth. Fodd bynnag, mae rhywfaint o gynnydd cynnar wedi'i wneud sy'n cael ei drafod ymhellach yn Adran 8 yr adroddiad.

Er nad yw'r Panel wedi cynnal asesiad ar sail tystiolaeth, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd ystyrlon yn erbyn yr argymhellion tymor byr, tymor canolig a thymor hwy, ac er bod llawer iawn o waith i'w wneud o hyd, mae cynlluniau credadwy yn eu lle gyda chyfrifoldebau a llwybrau clir ar gyfer cyflawni.

**Ar y sail honno, mae'r Panel yn teimlo bod yr amod ar gyfer cynaliadwyedd wedi'i fodloni.**

### **7.3 Meysydd ar gyfer Datblygu Parhaus**

Er bod cynnydd pendant wedi'i wneud, yn bennaf drwy hyfforddiant efelychu aml-ddisgyblaeth, mae'r Panel o'r farn bod dal angen canolbwytio ar integreiddio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ymhellach er mwyn lleihau gweithio mewn seilos a darparu gofal di-dor i famau a babanod. Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gefnogi ymhellach drwy ymgorffori'r strwythur gweithredu newydd sy'n dod â'r ddau wasanaeth at ei gilydd dan y Grŵp Gofal Plant a Theuluoedd, gydag arweinyddiaeth gadarn a ddarperir gan dri o arweinwyr sef y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Panel o'r farn bod angen i'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar ddata ar gyfer llywodraethu a sicrwydd sydd wedi cael ei feithrin yn y gwasanaeth mamolaeth gael ei efelychu yn y gwasanaeth newyddenedigol a'i gefnogi gan ddangosfwrdd effeithiol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod hyn ac wedi cymryd camau i'w symud ymlaen drwy benodi Swyddog Data Newyddenedigol. Cafwyd sgysiau adeiladol gyda'r swyddog a'r tîm clinigol ynghylch casglu, dilysu a thriongli data. Bydd yn hanfodol defnyddio data i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau newyddenedigol a datblygiad parhaus wrth symud ymlaen, gan sicrhau bod unrhyw feysydd o bryder sy'n dod i'r amlwg yn cael eu nodi ac yn cael sylw yn effeithiol.

Dylid nodi hefyd, o ran arweinyddiaeth ac ymgysylltu â gweithgareddau gwella, ei bod yn ymddangos bod yr elfen nyrsio wedi datblygu'n gyflymach na'r elfen feddygol. Mae gwaith pellach i'w wneud o hyd i sefydlogi a chadarnhau arweinyddiaeth feddygol newyddenedigol.

Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod hyn ac mae'r Panel yn cydnabod y gellid rhoi sylw i hyn ar ôl i staff pediatrig ymgynghorol newydd ddechrau yn eu swyddi, gan y bydd gan rai ohonynt gyfrifoldebau arwain neonatoleg.

## 8 Strategaeth Ymgysylltu Mamolaeth

Yn ei adroddiad cynnydd diwethaf, daeth y Panel i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd, yn ogystal ag adennill momentwm yn dilyn cyfyngiadau pandemig COVID-19, wedi defnyddio'r cyfle mewn adfyd i greu sylfaen gryfach ac ehangach ar gyfer ymgysylltu â'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio ei wasanaethau mamolaeth. Ar yr un pryd, roedd wedi datblygu strategaeth well sy'n cael ei chydabod yn arloesol ac mewn sawl maes, yn arwain y ffordd ar sail Cymru gyfan.

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar gynaliadwyedd y strategaeth ymgysylltu mamolaeth a'r gweithgareddau cysylltiedig ac yn ystyried i ba raddau y maent bellach wedi'u gwreiddio yn systemau'r Bwrdd Iechyd ac wedi'u hadlewyrchu mewn ymarfer arferol. Mae hefyd yn edrych ar sut mae cynnyrch ymgysylltu yn effeithio ar wella gwasanaethau ac yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir i fenywod a theuluoedd.

Er bod y gwasanaeth newyddenedigol gryn ffordd y tu ôl i'r gwasanaeth mamolaeth wrth ddatblygu ei ddull o ymgysylltu, mae'r adran hon hefyd yn edrych ar y ffordd y mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r hyn y mae wedi'i ddysgu o'i waith mamolaeth i ddatblygu dull gweithredu mwy cyson ar draws y ddau wasanaeth.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Strategaeth Ymgysylltu Mamolaeth**

Y strategaeth yn cael ei chyflawni yn unol â'r cynllun a'r amserlen; y broses Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion (PREMs) wedi'i sefydlu; tystiolaeth bod allbynnau PREMs a data o ffynonellau ymgysylltu eraill yn cael eu gwerthuso'n systematig ac yn gyrru gwelliannau pendant i'r gwasanaeth.

### **8.1 Cynaliadwyedd Ymgysylltu â Mamolaeth**

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd, arsylwadau rheolaidd y Panel o'i weithgareddau ymgysylltu, trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod yr ymweliad sicrwydd diweddar a rhyngweithiadau eraill, gan gynnwys 'arddangosfa ymgysylltu' a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2022, sicrhawyd y Panel bod y strategaeth ymgysylltu mamolaeth yn cael ei chyflawni yn unol â'r cynllun a'r amserlenni.

Ceir tystiolaeth sylweddol o ymgysylltu'n weithredol â menywod, teuluoedd a chymunedau gan ddefnyddio ystod eang o ddulliau sy'n sicrhau y ceir gwybodaeth reolaidd ac adborth ar brofiad defnyddwyr. Mae hefyd yn glir bod dulliau penodol a phriodol yn cael eu defnyddio i gyrraedd grwpiau poblogaeth ar wahân yn seiliedig ar le a diddordeb. Yn arwyddocaol, mae ffrwd waith Ansawdd Profiad Menywod (QWE) wedi symud y tu hwnt i 'statws prosiect' ac mae bellach yn cael ei rheoli fel 'busnes fel arfer' craidd gan y Bwrdd Iechyd.

Mae tystiolaeth hefyd sy'n dangos bod cynnyrch ymgysylltu â mamolaeth yn dylanwadu ar y gwelliannau mewn gofal mamolaeth, diwylliant y sefydliad a dulliau cyfathrebu staff.

Ym marn y Panel, mae'r enghreifftiau canlynol yn dystiolaeth o lefel uchel o aeddfedrwydd a chynaliadwyedd yn null gweithredu'r y Bwrdd Iechyd o ran ymgysylltu'r gwasanaeth mamolaeth:-

- mae ystod o ddulliau ymgysylltu'n cael eu defnyddio fel mater o drefn i gyrraedd amrywiol ddefnyddwyr gwasanaeth a chymunedau. Yn ogystal â'r arolygon systematig drwy PREMs, mae'r dulliau'n cynnwys digwyddiadau byw/dros y we, y cynllun cod QR amser real 'dweud eich dweud', cyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol, straeon menywod a theuluoedd, gweithdai cyn-geni, ymweliadau siopwr dirgel '15 Cam', a'r grŵp My Maternity, My Way sydd wedi hen ennill ei blwyf;
- mae adborth rheolaidd yn cael ei roi i fenywod, teuluoedd, y cyhoedd a chymunedau lleol sydd wedi bod yn gysylltiedig drwy adroddiadau 'dywedoch chi, gwnaethom ni' ar lefel gwasanaeth, y wefan, cyfryngau cymdeithasol a dulliau hygyrch eraill;
- mae adroddiadau rheolaidd ar lefel uwch o dystiolaeth o newid a gwella o ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltu â'r gwasanaethau mamolaeth. Mae gwybodaeth ansoddol yn rhan hanfodol o'r broses adrodd ochr yn ochr â data meintiol i adeiladu darlun o'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd angen ei newid. Er enghraifft, mae'r broses o lunio gwybodaeth a darparu'r broses brysbennu ar gyfer dod ag esgor yn ei blaen wedi cael ei siapio gan adborth gan fenywod;
- mae ymgysylltu â menywod a theuluoedd yn greiddiol i ddatblygu gwasanaethau ac mae'n elfen allweddol o ran deall y defnydd a wneir o'r gwasanaeth. Enghraifft o arfer da o adolygiad thematig y Bwrdd Iechyd o farw-enedigaethau (2021) yw archwilio ffactorau y mae menywod yn rhoi gwybod amdanynt yn lleol sy'n effeithio ar eu penderfyniadau ynghylch y cytundeb ar gyfer post-mortem, sydd wedyn yn rhan o hyfforddiant gofal profedigaeth staff;
- bydd gwaith parhaus i ddatblygu dull integredig o ymgysylltu ar draws gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn darparu cyfleoedd i gefnogi dewisiadau menywod, yn enwedig o ran dull geni a bwydo babanod.

Mae'n amlwg i'r Panel bod dull gweithredu presennol y Bwrdd Iechyd o ran ymgysylltu yn gwbl wahanol i'r darlun a geir yn adolygiad y Colegau Brenhinol. Mae hyn yn brawf o ymroddiad a brwdfrydedd staff ar bob lefel.

## **8.2 Cynaliadwyedd Ymgysylltu â'r Gwasanaeth Newyddenedigol**

Canfu ymarfer ymgysylltu'r Panel 'gwrando ar deuluoedd', a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad manwl o'r gwasanaethau newyddenedigol gyfleoedd sylweddol i wella'r ffordd y mae menywod a theuluoedd yn ymgysylltu â'r gofal newyddenedigol a ddarperir i'w babanod, yn ogystal â sut y galluogir hwy i gyfrannu at gynllunio a datblygu'r gwasanaeth newyddenedigol i'r dyfodol.

Ers hynny, mae strategaeth ymgysylltu newydd wedi cael ei datblygu ac mae penodi Arweinydd Ymgysylltu pwrpasol i weithio ochr yn ochr â'r tîm newyddenedigol ehangach wedi arwain at gynnydd ac egni yn y maes gwaith pwysig hwn.

Mae'r tîm yn amlwg yn deall yr angen i roi mwy o bwyslais ar gynnwys teuluoedd yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno'r strategaeth ac mae wedi meithrin perthynas gyda defnyddwyr gwasanaeth diweddar ac yn y gorffennol i helpu i ddatblygu dulliau newydd o ymgysylltu.

Mae dulliau ymgysylltu'r gwasanaeth newyddenedigol nawr yn dilyn y llwybr a ddilynwyd gan y gwasanaeth mamolaeth ac yn cynnwys cyswllt drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gweithredu Fforwm Ymgysylltu ac adborth rheolaidd gan rieni sy'n defnyddio'r gwasanaeth i gofnodi eu profiad, yn enwedig o ran cyswllt â staff.

Er y cafwyd momentwm cynnar, mae ymgysylltu â theuluoedd yn y gwasanaethau newyddenedigol yn dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo; nid yw'r system wedi'i gwreiddio'n llawn eto ac mae llawer o'r dulliau ymgysylltu yng nghamau cynnar eu datblygiad. Fodd bynnag, calonogwyd y Panel o ddysgu bod y Bwrdd Iechyd yn edrych ar y cyfle i ymestyn y system PREMs craidd er mwyn gallu casglu gwybodaeth am brofiadau teuluoedd o'r gwasanaethau newyddenedigol a bod teuluoedd wedi dangos diddordeb sylweddol mewn ymgysylltu â'r gwasanaeth.

Croesewir hefyd weithio'n agosach gyda'r fforwm My Maternity My Way a datblygu is-grŵp newyddenedigol. Fodd bynnag, mae rhagor o gyfleoedd o hyd i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r dulliau llwyddiannus a ddefnyddiwyd yn y gwasanaethau mamolaeth a bydd archwilio strategaethau gweithio ar y cyd yn dod â manteision sylweddol i'r ddau wasanaeth.

## **8.3 Strategaeth ar y cyd ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol**

Roedd adroddiad cynnydd diwethaf y Panel yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu cyfleoedd ymgysylltu ar gyfer menywod a theuluoedd drwy gydol eu taith beichiogrwydd, gan gynnwys gofal adeg geni, ar ôl geni a newyddenedigol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod hyn ac mae'n datblygu dull integredig o ymgysylltu a chyfathrebu.

Rhagwelir y bydd model gweithredu newydd y Bwrdd Iechyd yn cefnogi ymhellach y gwaith o gasglu a rhannu'r hyn a ddysgwyd o bob agwedd ar ymgysylltu â menywod, teuluoedd a phlant. Gyda'r trosglwyddiad i strwythur newydd y Grŵp Gofal, mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth bellach yn goruchwyllo'n uniongyrchol yr holl elfennau gofal sy'n cael eu darparu i fenywod a theuluoedd drwy gydol eu beichiogrwydd, yn ogystal ag i'w hiechyd a'u lles cyffredinol. Mae hyn yn rhoi cyfle sylweddol ar gyfer integreiddio'n agosach wrth symud ymlaen.

Yn greiddiol i ddatblygu dull gweithredu integredig fydd yr angen i sicrhau bod lleisiau menywod a theuluoedd yn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y dyfodol. Mae 'Dechrau'n Dda', Strategaeth Mamolaeth a Newyddenedigol ddrafft y Bwrdd Iechyd 2022 - 2025, yn pwysleisio'r defnydd o ddata i sbarduno gwelliant ac mae'n tynnu sylw at brofiad a chanlyniadau a adroddwyd gan gleifion fel meincnod allweddol.

Yn y cyfamser, mae cyfleoedd sylweddol i wella cydweithio pellach ar draws gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, er enghraifft o ran cefnogi dewis menywod, yn enwedig o ran dull geni a bwydo babanod.

**Gan ystyried yr holl ddatblygiadau hyn, mae'r Panel o'r farn bod yr amod hwn ar gyfer cynaliadwyedd wedi cael ei fodloni'n dda. Fodd bynnag, bydd yn bwysig i'r Bwrdd Iechyd barhau i ddilyn dull integredig o ymgysylltu ar draws gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wrth symud ymlaen.**

## **8.4 Cwynion a Phryderon**

Yn ei adroddiad diwethaf, tynnodd y Panel sylw at yr angen i'r Bwrdd Iechyd barhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag oedi wrth ymateb i gwynion a phryderon, ansawdd yr ymatebion a ddarperir, cysondeb yr ymatebion ar draws safleoedd a dangos dysgu systematig o'r canfyddiadau.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, mae'r Panel wedi manteisio ar y cyfle i asesu i ba raddau y mae cynnydd wedi cael ei wneud ac yn parhau i gael ei wneud yn y maes hwn drwy adolygu gwybodaeth am berfformiad a sgysiau gydag aelodau allweddol o staff.

### **Prydlondeb Ymatebion**

Bu gwelliant i'w groesawu ym mhrydlondeb yr ymatebion. Mae materion sy'n ymwneud â chydymffurfio wedi cael sylw erbyn hyn ac mae tystiolaeth o gadw'n gryf at yr amserlenni Gweithio i Wella ffurfiol mewn perthynas â chwynion a phryderon am y gwasanaeth mamolaeth. Mae heriau'n dal i gael eu profi pan fydd cwynion a phryderon yn ymwneud â rhyngweithio ag amrywiaeth o wasanaethau, er enghraifft, yr adran achosion brys, gynaeoleg a sonograffeg.

Mae cael mewnbwn gan nifer o wasanaethau i lunio ymateb cydlynol i deuluoedd yn arwain yn aml at oedi. Fodd bynnag, mae defnydd effeithiol o'r broses ôl-drafod yn gynnar a mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i gwrdd â menywod a theuluoedd wyneb yn wyneb yn golygu y gellir cynnal cyfathrebu effeithiol drwy rannu gwybodaeth yn rheolaidd.

Mae gwaith yn parhau ar sicrhau cysondeb o ran prydlondeb ymatebion ar draws safleoedd a gwasanaethau ysbytai.

### **Gwella Ansawdd Ymatebion**

Mae'r dangosydd allweddol o ansawdd a phriodoldeb ymatebion o safbwynt yr achwynydd yn deillio o'r dadansoddiad o'r cwestiynau sy'n gysylltiedig â'r gŵyn yn yr arolwg PREMs. Mae hwn yn fesur meddal sy'n tynnu sylw at broblemau o ran y ffordd y gellir datrys cwynion yn fwy effeithiol. Caiff y mesurau anos eu cofnodi yn y nifer o weithiau y caiff cwynion a phryderon eu cyfeirio at yr Ombwdsmon neu pan fydd yr achwynwyr yn mynegi anfodlonrwydd yn ffurfiol â'r ymateb a bod angen cymryd camau pellach i ddatrys materion.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio cyfarfodydd wyneb yn wyneb, gan gynnwys y gwasanaeth ôl-drafod, cyn gynted â phosibl fel arfer da yn y broses gwyno ffurfiol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Penaethiaid Bydwreigiaeth a'r Arweinydd Profiad ac Ymgysylltu ar gyfer gwasanaethau mamolaeth i adolygu ansawdd yr ymatebion yn ogystal â'r themâu sy'n dod i'r amlwg. Ar ben hynny, mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth bellach yn goruchwyllo'r gwaith o sicrhau ansawdd a chymeradwyo'r holl ymatebion cyn iddynt gael eu rhannu â theuluoedd.

Er bod y dull hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau mamolaeth ar hyn o bryd, cydnabyddir bod model newydd y Grŵp Gofal yn gyfle gwerthfawr i ymestyn y fethodoleg ar draws gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau cysylltiedig eraill.

### **Cofnodi Themâu o Gwynion a Phryderon**

Mae'r Panel hefyd yn falch o adrodd bod tystiolaeth gynyddol o fframwaith cadarn i ddangos yr hyn a ddysgir o ymchwiliadau a chanlyniadau. Ceir trefniadau cyfarfod rheolaidd rhwng y Penaethiaid Bydwreigiaeth a'r Arweinydd Ymgysylltu gyda ffocws ar themâu sy'n dod i'r amlwg o gwynion ffurfiol a dadansoddi materion sy'n codi dro ar ôl tro.

Mae nodiadau briffio saith munud o hyd yn cael eu cynhyrchu sy'n crynhoi achosion lle ceir dysgu penodol, ac yn fisol, mae un sesiwn briffio saith munud yn derbyn ffocws penodol ac fe'i rhennir mewn pedair ffordd wahanol fel a ganlyn:-

- y briff yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod llywodraethu/archwilio'r gwasanaeth;
- copïau caled yn cael eu hargraffu a'u darparu yn y maes clinigol;
- y briff yn cael ei rannu mewn cylchlythyrau dysgu misol y gwasanaeth;
- e-bost yn cae ei anfon at bob clinigydd.

Mae datblygu'r broses hon yn rhoi syniad o'r arwyddocâd y mae'r uwch dîm arwain yn ei roi yn awr ar gasglu a rhannu'r hyn a ddysgir o gwynion a phryderon.



O fewn cylch cyfarfodydd misol y gwasanaeth mamolaeth, mae'r cyfarfod ansawdd a diogelwch bellach wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer monitro themâu sy'n codi dro ar ôl tro a'r camau gweithredu sy'n deillio o gwynion. Mae themâu cwynion a phryderon yn rhan annatod o adroddiad y Gweithlu, Effeithiolrwydd, Diogelwch a Phrofiad ac Ymgysylltu (WESEE) ac, yn y pen draw, mae hyn yn bwydo i mewn i adroddiad ar draws y gwasanaeth.

Cynhelir cyfarfodydd wythnosol ar lefel y safle i fonitro cydymffurfiad â materion sy'n ymwneud â gwasanaethau mamolaeth a chynhelir adolygiad o'r gofrestr risg, pryderon ffurfiol, digwyddiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt yn genedlaethol, achosion Datix agored, achosion yr Ombwdsmon a chwestau. Mae'r Panel yn fodlon bod hyn yn ffordd effeithiol o nodi a thriongli themâu rheolaidd ar draws amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r uwch dîm yn cydnabod y bydd angen cyflwyno'r dull gweithredu hwn, sydd ond ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth, ar draws y Grŵp Gofal ac y bydd angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod yr arferion gorau'n cael eu defnyddio'n gyson ar draws yr holl safleoedd a'r gwasanaethau yn y grŵp.

Mae rheoli pryderon anffurfiol hefyd yn cael ei adolygu i sicrhau bod pryderon 'yn y fan a'r lle' yn cael eu cofnodi'n well gan fenywod a theuluoedd. Mae ffocws penodol ar ddangos gwerth ymatebion cynnar wrth ddatrys pryderon ac mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu i oruchwylwyr rheng flaen gan ddefnyddio enghreifftiau o reoli cwynion a phryderon yn effeithiol.

### **Dysgu o Ymchwiliadau a Chanlyniadau**

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gallu dangos bod themâu rheolaidd sy'n deillio o'r ymchwiliad a chanlyniadau cwynion a phryderon, digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn genedlaethol a thystiolaeth arall yn cael eu defnyddio fel ysgogwyr ar gyfer hyfforddiant a chyfleoedd dysgu eraill.

Dyma ddwy enghraifft sy'n dangos y dull gweithredu hwn:-

- Mae cyfathrebu â menywod a theuluoedd a'r defnydd o iaith yn datblygu dro ar ôl tro fel thema mewn cwynion a phryderon, digwyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn genedlaethol ac yn yr adborth o PREMs a gweithgareddau ymgysylltu eraill, gan gynnwys yr adborth gan fenywod a theuluoedd yn ystod ymweliad diweddaraf y Panel â'r safle. Er enghraifft, mae menywod a theuluoedd wedi sôn am yr effaith y gall digwydd clywed gwrthdaro rhwng staff ei chael arnynt. Mewn ymateb, mae'r Bwrdd Iechyd wedi comisiynu'r elusen Birthrights i ddarparu hyfforddiant i staff er mwyn gwella eu sgiliau cyfathrebu a'u gallu i ddewis yr iaith iawn wrth ymgysylltu â menywod a theuluoedd;

- Mae menywod a theuluoedd yn aml yn tynnu sylw at y ffaith eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu diystyru wrth godi pryderon am symudiadau eu baban neu godi materion eraill sydd, yn eu barn hwy, yn galw am weithredu pellach. Mae'r rhaglen hyfforddiant CTG orfodol bellach yn defnyddio strategaeth gyfathrebu RCOG/RCM 'Teach or Treat' sy'n annog trafodaeth gyda menywod a theuluoedd am y sefyllfa glinigol yn cael ei dwysáu ac yn tynnu sylw at yr angen am ymateb caredig, parchus a phrydlon, yn enwedig wrth roi sicrwydd i fenywod ynghylch pa mor briodol yw'r camau sydd i'w cymryd.

Mae'r enghreifftiau hyn ac eraill yn dangos bod yr hyn a ddysgir o ymchwiliadau a chanlyniadau bellach yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i gyflawni gwelliannau a siapio gwasanaethau wrth symud ymlaen. Bydd yn bwysig bod y Bwrdd Iechyd yn gwerthuso canlyniadau'r ymyriadau hyn a newidiadau mewn arferion hyfforddi er mwyn penderfynu a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi gwella profiadau'r menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Nododd y Colegau Brenhinol bod rheoli cwynion a phryderon yn effeithiol yn faes i'w wella ac er bod y Panel yn fodlon bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, nid oedd yr argymhelliad perthnasol wedi'i gyflawni'n llawn ac fe'i symudwyd ymlaen i'r cynllun gwella tymor hwy pan gaewyd cynllun gweithredu'r Colegau Brenhinol ym mis Ebrill 2022.

Calonogwyd y Panel o weld bod y ffocws ar gwynion a phryderon wedi'i gynnal a bod cynnydd pellach wedi'i wneud yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae hyn yn rhoi hyder bod taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant yn dod yn gynaliadwy a bod ethos gwelliant parhaus bellach ar waith a fydd yn sicrhau bod modd gwneud cynnydd pellach heb oruchwyliaeth a chefnogaeth allanol bwrpasol.

## 9 Arweinyddiaeth Feddygol

Mae'r Panel yn gryf o'r farn bod cyswllt annatod rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ac na ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain; maent yn darparu un llwybr ar gyfer gofalu am famau a babanod. Felly, mae cyfathrebu a chydlynu effeithiol rhwng gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn hanfodol.

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf, roedd yn cydnabod bod cynnydd wedi'i wneud o ran gweithio ar y cyd. Fodd bynnag, yr oedd mwy i'w wneud i atgyfnerthu'r sefyllfa ac, yn benodol, i wella effeithiolrwydd arweinyddiaeth feddygol ar draws y ddau wasanaeth.

Bryd hynny, roedd penodiadau wedi cael eu gwneud i swyddi arweinyddiaeth feddygol allweddol a gwelliannau wedi'u gwneud i brosesau mewn meysydd fel cynllunio swyddi, hyfforddiant a datblygu yn ogystal â chymorth gan gymheiriaid a adlewyrchwyd wrth gymeradwyo argymhellion perthnasol y Colegau Brenhinol. Roedd tystiolaeth gynyddol hefyd o agwedd amlddisgyblaethol tuag at hyfforddi a datblygu a thystiolaeth o fwy o ymwneud meddygol mewn systemau a phrosesau allweddol, er enghraifft, datblygu a chynnal canllawiau ac adolygiadau o ddigwyddiadau y mae'n rhaid rhoi gwybod amdanynt yn genedlaethol.

Serch hynny, roedd angen o hyd i arweinyddiaeth feddygol fod yn fwy amlwg, cefnogaeth barhaus i ddatblygu a mwy o ymgysylltiad gan y corff ymgynghorol yn y daith barhaus tuag at welliant ar draws y ddau wasanaeth. Am y rheswm hwnnw, nododd y Panel arweinyddiaeth feddygol amlwg ac effeithiol fel un o'r tri ar ddeg amod y byddai angen iddynt fod ar waith i ddangos bod taith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant yn gynaliadwy yn y dyfodol.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Arweinyddiaeth Feddygol**

Arweinyddiaeth feddygol yn amlwg ac yn effeithiol; mae cymorth datblygu arweinyddiaeth ar waith ac mae'r corff ymgynghorol yn ei gyfanrwydd yn cyfrannu'n frwd at y gwaith o wella'r gwasanaeth.

Ers hynny, mae arweinyddiaeth feddygol obstetreg wedi cael ei chryfhau ymhellach drwy ddirprwyo rolau a chyfrifoldebau'n gliriach o ran cynnal ansawdd a diogelwch, gan gynnwys arweinwyr dynodedig ar gyfer adolygiadau marw-enedigaethau a PMRT. Mae amser wedi'i neilltuo bellach yn cael ei ddarparu o fewn cynlluniau gwaith ymgynghorwyr i gefnogi'r gwaith o gyflawni gwelliannau o ran ymarfer clinigol.

Mae gwelliannau o'r fath yn cynnwys hyfforddiant amlddisgyblaethol, rhaglen gynefino fwy effeithiol i hyfforddeion, datblygu llwybrau asesu gynaeoleg brys a sefydlu uned asesu dydd gynaeoleg (GDAU) sydd wedi lleihau amseroedd aros yn sylweddol. Drwy neilltuo amser i ymgynghorwyr, mae mwy o ffocws yn awr ar ddysgu o'r adeg pan fydd pethau'n mynd o chwith a rheoli risg. O ran sefydlogrwydd y gweithlu meddygol, mae'r Panel yn ymwybodol o gynlluniau i leihau ymhellach y defnydd o staff locwm drwy benodiadau parhaol newydd.

Yn dilyn ei ymweliad diweddaraf â'r safle, mae'r Panel yn deall bod Addysg a Gwella lechyd Cymru (AaGIC) wedi argymhell i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol y dylai'r Bwrdd lechyd gael ei dynnu oddi ar ei statws monitro uwch yng nghyswllt hyfforddiant a datblygiad meddygol, gan adlewyrchu'r gwelliannau clir a wnaed yn y meysydd pwysig hyn. Mae'r argymhelliad hwn wedi cael ei dderbyn ers hynny a rhagwelir ymweliad yn ôl yn ystod Gwanwyn 2023 i sicrhau bod y gwelliannau'n cael eu cynnal a'u bod yn parhau.

Mae angerdd ac ymrwymiad y Cyfarwyddwyr Clinigol yn glodwiw ac maent yn darparu arweiniad, gweledigaeth a chyfeiriad clir i'r corff o ymgynghorwyr yn ei gyfarwydd. Mae hyn yn helpu i feithrin diwylliant dysgu cefnogol lle mae her adeiladol yn cael ei hannog a'i chrosawu ac mae awydd cryf i wasanaethau'r Bwrdd lechyd ddod yn ganolfannau rhagoriaeth.

Yn ystod yr ymweliad sicrwydd diweddar ag Ysbyty'r Tywysog Siarl, cynhaliodd y Panel drafodaeth grŵp ffocws adeiladol gyda nifer o ymgynghorwyr obstetreg. Roedd hyn yn gwbl wahanol i sgwrs debyg a gafodd y Panel yn nyddiau cynnar y broses oruchwylio. Er bod gwaith i'w wneud o hyd, gadawodd y Panel gan deimlo'n dawel eu meddwl bod y corff o ymgynghorwyr yn y gwasanaeth mamolaeth yn benodol bellach yn ymwneud yn helaeth iawn â'r daith tuag at welliant, wedi'i ategu gan ethos amlddisgyblaethol dilys sy'n cyfrannu fwyfwy at welliannau mewn ansawdd a diogelwch.

Er gwaethaf y cynnydd amlwg sydd wedi cael ei wneud yn ystod y cyfnod adrodd hwn, nid yw'r Bwrdd lechyd yn llaesu dwylo ac mae'n cydnabod bod trawsnewid diwylliannol yn broses barhaus; mae mwy i'w wneud o hyd i sicrhau bod yr holl staff yn cymryd rhan weithredol yn y daith tuag at welliant ac yn ei chefnogi. Mae hefyd yn cymryd amser i'r manteision gael eu gwireddu ac i'r rhain gael eu gwerthuso i benderfynu pa gamau pellach y gallai fod angen eu cymryd.

O safbwynt y gwasanaeth newyddenedigol, mae gwelededd ymgynghorwyr wedi gwella ac mae'r tîm meddygol yn cymryd rhan weithredol yn y rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer y sefydliad cyfan. Mae ymgynghorwyr ychwanegol wedi cael eu penodi'n ddiweddar gyda phrofiad blaenorol o arwain ym maes newyddenedigol a rhagwelir y byddant yn dod â syniadau newydd a ffyrdd arloesol o weithio, yn ogystal â darparu mwy o sefydlogrwydd ac ymgysylltu mwy cynaliadwy â'r broses wella.

Er gwaethaf y cynnydd clir hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau cyfranogiad meddygol cyson ym mhob agwedd ar daith y gwasanaeth newyddenedigol tuag at welliant a byddai'n fuddiol archwilio unrhyw ddysgu ac arfer gorau y gellid eu mabwysiadu o brofiad y gwasanaeth mamolaeth.

**At ei gilydd, bu cynnydd sylweddol yn y maes hwn yn y chwech i naw mis diwethaf ac ar y sail honno, cred y Panel fod y cyflwr arweinyddiaeth feddygol ar gyfer cynaliadwyedd wedi'i fodloni o ran y gwasanaeth mamolaeth ac y bydd y gwasanaeth newyddenedigol yn dilyn maes o law wrth i gapasiti gynyddu ac i'r dysgu gael ei rannu ar draws y ddau wasanaeth.**

## 10 Gwella Ansawdd

Yn ei adroddiad diwethaf, pwysleisiodd y Panel fod bwriad clir o fewn y Bwrdd Iechyd i symud y tu hwnt i argymhellion y Colegau Brenhinol i ddull mwy deinamig a pharhaus o wella sy'n defnyddio methodolegau Gwella Ansawdd cydnabyddedig i sicrhau newid yn raddol, a hynny'n fesuradwy ac yn gynaliadwy.

Cytunwyd gyda'r Bwrdd Iechyd fod hwn yn alluogwr allweddol ar gyfer gwelliant cynaliadwy yn y tymor hwy. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd mai uchelgais tymor hwy oedd hon; yn y tymor byr, ni fyddai ond yn bosibl dangos bod sylfeini proses Gwella Ansawdd effeithiol wedi'u rhoi ar waith a bod rhai camau bach wedi'u cymryd o ran cymhwyso'r broses.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gwella Ansawdd**

Mae dull gwella ansawdd ar waith sy'n cyd-fynd â'r trefniant iCTM corfforaethol; mae cynllun gwella ansawdd a phrosiectau gwella ansawdd ar waith ac mae tystiolaeth bod mân newidiadau graddol yn cael eu cyflawni.

Ar sail y dystiolaeth ddogfennol y mae wedi'i gweld a'r dystiolaeth a ddaeth i'r amlwg o 'Arddangosfa Gwella Ansawdd' a gynhaliwyd fel rhan o'r ymweliad sicrwydd diweddar, mae'r Panel yn fodlon bod y sylfeini hynny bellach yn eu lle. Mae'n amlwg hefyd, dros y chwe mis diwethaf, bod y camau cyntaf pwysig yn y broses tymor hwy o wreiddio Gwella Ansawdd fel ffordd o weithio yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wedi cael eu cymryd.

Mae Rheolwr Gwella Ansawdd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wedi cael ei benodi ac mae eisoes yn meithrin gallu o ran Gwella Ansawdd o fewn y gwasanaethau. Yn bwysig, mae hyn yn cael ei gefnogi gan swyddogaeth gorfforaethol iCTM ac mae'n amlwg bod perthynas waith adeiladol a chydgefnogol rhwng y ddau dîm. Mae brwdfrydedd ac ymrwymiad y Rheolwr Gwella Ansawdd yn amlwg a gwnaeth argraff ar y Panel gyda'i disgrifiad o'r rôl fel un o 'rannu'r llawenydd o wella' gyda'i chydweithwyr.

Gyda chymorth y tîm canolog, mae siarter Gwella Ansawdd wedi cael ei datblygu ac ymarfer blaenoriaethu wedi'i gwblhau er mwyn i staff ymgymryd â hyfforddiant 'Gwelliant mewn Ymarfer' a luniwyd gan y corff cenedlaethol Gwelliant Cymru. Mae'r hyfforddiant hwn bellach yn mynd rhagddo ac mae disgwyl iddo redeg yn barhaus, ac mae aelodau o'r tîm blaenoriaeth wedi archebu'u lle i fynychu hyfforddiant rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2022. Mae clinigau Gwella Ansawdd wedi cael eu lansio'n ddiweddar gyda dull gweithredu amlddisgyblaethol. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau galw heibio rhithiol sydd ar gael i staff ar bob graddfa ac sydd wedi'u targedu i gefnogi'r gwaith o gynllunio prosiectau Gwella Ansawdd, darparu gwybodaeth am brosiectau sy'n mynd rhagddynt, galluogi mynediad at hyfforddiant a phe cynnau cymorth a galluogi staff i gael rhagor o wybodaeth ynghylch Gwella Ansawdd yn fwy cyffredinol.

Mae'r Panel yn cydnabod bod y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran Gwella Ansawdd yn cysylltu'n agos iawn â'r rhaglen diwylliant a datblygu sy'n cael sylw yn [Adran 11](#) yr adroddiad hwn. Anogir staff i gynnig syniadau ac, yn gynyddol, mae ganddynt yr hyder i godi llais.

Cafodd y Panel ei galonogi o weld buddsoddiad y Bwrdd Iechyd yn y meddalwedd 'Simply Do' sydd wedi cael ei greu'n benodol i alluogi staff i fewnbynnu syniadau ac i'r rhain gael eu hystyried gan y tîm iCTM a, lle bo hynny'n briodol, gael adnoddau a chefnogaeth.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod yn rhaid i'r sefydliad ddod yn un sy'n cael ei yrru fwy gan ddata er mwyn gallu parhau gyda llwyddiant o ran Gwella Ansawdd; un sy'n defnyddio data fel mater o drefn i ddysgu a gwella gwasanaethau. Mae wedi dod yn fwyfwy amlwg drwy ymgysylltu'n ddiweddar â'r Bwrdd Iechyd ac yn benodol drwy ymweliad sicrwydd diweddar y Panel, bod data'n dechrau ymddangos mewn sgysiau ac yn y modd y mae pobl yn meddwl am ffyrdd o wella a datblygu'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Yn ystod yr Arddangosiad Gwella Ansawdd diweddar, derbyniodd y Panel nifer o gyflwyniadau a oedd yn dangos sut yr oedd Gwella Ansawdd yn cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau, gan gynnwys prosiect a oedd wedi'i lunio i werthuso'r defnydd o System Brysbennu Obstetrig Symptom-benodol (BSOTS) Birmingham. Mae hon yn enghraifft dda o'r math o waith gwella ansawdd sy'n cael ei wneud ac mae'n arwyddocaol oherwydd ei fod yn faes risg uchel sy'n cael ei ystyried yn weithredol ar lefel genedlaethol yn y Deyrnas Unedig.

## **Prosiect Gwella Ansawdd BSOTS**

*System brysbennu mamolaeth yw BSOTS y dangoswyd ei fod yn gwella diogelwch mamau a babanod. Mae'n cynnwys brysbennu menywod yn fras pan fyddant yn dod i'r ysbyty ac mae'n ffordd safonol o bennu'r brys clinigol y mae angen eu gweld.*

*Dechreuodd y tîm drwy gasglu ac adolygu data gwaelodlin (amser archebu, amser gweld gan fydwraig, amser gweld gan feddyg, rheswm dros ddod i'r ysbyty a chanlyniad yr apwyntiad) i ddeall beth oedd yn digwydd. Canfuwyd bod y rhan fwyaf o fenywod yn cael eu gweld gan fydwraig yn gyflym ond bod yr amser i weld meddyg yn amrywio. Hefyd, weithiau nid oedd digon o lefydd neu welyau i'w galluogi i adolygu eu gofal mewn amgylchedd diogel ac urddasol.*

*O ganlyniad, aethant ati i sefydlu gweithgor a dechrau gwneud y gwaith cefndir i sefydlu Prosiect Gwella Ansawdd. Roedd y tîm yn ymwybodol iawn bod angen i'r atebion gael eu gyrru gan y rhai sy'n gweithio yn y system ac yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion menywod.*

*Ar hyn o bryd maen nhw'n gweithio gyda'r Fydwraig Profiadau Menywod i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan ac roeddent wrthi'n addasu PREMs i gasglu adborth am brofiad menywod o'r broses brysbennu.*

Er bod y prosiect yn ei ddyddiau cynnar, calonogwyd y Panel o weld y defnydd o ddata, y defnydd o fethodolegau gwella ansawdd a'r gydnabyddiaeth o'r angen i fenywod a theuluoedd fod wrth galon y broses, ac roedd hyn i gyd yn dangos yn glir bod y dysgu o brosesau gwella yn dechrau cael ei gymhathu mewn ymarfer gweithredol.

Fel mewn sawl maes yn y rhaglen wella, canfu'r Panel ei bod yn ymddangos bod y gwasanaeth mamolaeth wedi datblygu mwy na'r gwasanaeth newyddenedigol o ran ei ddull gweithredu ar gyfer Gwella Ansawdd, gyda newidiadau bach eisoes yn cael eu gwireddu yn y gwasanaeth.

Nid yw hyn yn annisgwyl o gofio bod gwasanaethau newyddenedigol wedi dechrau ar eu taith tuag at welliant yn ddiweddarach na gwasanaethau mamolaeth a'u bod yn parhau i weithio drwy eu hargymhellion ar gyfer gwella o'r adolygiad manwl.

Fodd bynnag, bydd hyn yn dilyn wrth i'r gwasanaeth newyddenedigol aeddfedu ac wrth i gyfleoedd ar gyfer gweithio'n agosach ddod i'r amlwg o'r newid i strwythur y Grŵp Gofal.

**Gan gydnabod mai'r uchelgais ar y cam hwn oedd 'seiliau cadarn' a 'blagur gwyrdd' wrth sefydlu proses Gwella Ansawdd yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, mae'r Panel yn credu bod yr amod hwn ar gyfer cynaliadwyedd hwn wedi'i fodloni.**

## 11 Newid Diwylliant a Gweledigaeth Strategol

Mae llawer iawn o waith wedi cael ei wneud ers 2019 i sicrhau'r newid mewn diwylliant ac agweddau staff y galwyd amdanynt gan y Colegau Brenhinol. Mae hyn wedi bod yn llawer ehangach na gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ac mae wedi ymestyn i bob rhan o'r sefydliad ac i bobl ar bob lefel 'o'r ward i'r Bwrdd'.

Fel rhan o'r ymateb corfforaethol i ymyriadau wedi'u targedu, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynllunio a gweithredu rhaglen waith gynhwysfawr i feithrin gallu i arwain, i ysgogi'r gweithlu o ran gweledigaeth a phwrpas y sefydliad ac i greu profiad mwy ystyrlon i staff ar bob cam o'u taith gyflogaeth. Mae gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad – *gwrando a dysgu, trin pawb â pharch a chydweithio fel tîm* – wrth galon y rhaglen, sy'n cael ei chyflwyno'n systematig ar draws y sefydliad.

**Ffigur 2: Gwerthoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg**



Mae newid diwylliant yn cymryd amser ac mae llawer i'w wneud o hyd i greu'r math o sefydliad y mae'r Bwrdd Iechyd yn anelu ato. Yn wir, mor gymhleth yw'r materion sy'n sail i ddiwylliant sefydliadol ac mor ddeinamig yw'r ffactorau sy'n dylanwadu arno, fel ei bod bron yn sicr na fydd y gwaith byth yn cael ei gwblhau. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth glir bod diwylliant y sefydliad ac yn enwedig diwylliant gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn newid er gwell.

Adlewyrchir hyn yn adborth defnyddwyr drwy PREMs a'r cyfryngau cymdeithasol, yng nghanlyniad adolygiadau allanol annibynnol (er enghraifft, y rhai a wneir o bryd i'w gilydd gan y Cyngor Iechyd Cymuned) ac yn sylwadau'r Panel ar ymddygiad staff ac uwch reolwyr yn ystod ymweliadau sicrwydd a rhyngweithiadau eraill gan gynnwys y rhai â defnyddwyr gwasanaeth a fforymau cynrychioliadol fel My Maternity My Way. Mae'r newid graddol ond cadarnhaol hwn wedi'i gofnodi'n helaeth yn adroddiadau blaenorol y Panel.

Mae'r Panel yn credu'n gryf bod y mwyafrif helaeth o'r bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn dod i'r gwaith bob dydd i wneud gwaith da. Fodd bynnag, yn fwy felly yn y gorffennol nag ar hyn o bryd, maent yn aml wedi dod ar draws atalfeydd neu rwystrau yn systemau a phrosesau'r sefydliad nad ydynt wedi'u galluogi i ddarparu'r ansawdd gofal yr hoffent ei roi.



Yn y gorffennol, arweiniodd hyn at ddatblygu 'diwylliant beio' a oedd yn canolbwyntio ar fethiannau unigol yn hytrach na cheisio mynd i'r afael â'r gwendidau yn y systemau a'r prosesau a arweiniodd at ganlyniadau gwael. Roedd hyn yn annog pobl i fod yn agored ac yn onest ac roedd yn amlwg yn ffactor pwysig yn y broses o beidio â rhoi gwybod am ddigwyddiadau difrifol a oedd wedi cyfrannu at gomisiynu adolygiad y Colegau Brenhinol.

Enghraifft dda sy'n dangos y pwynt hwn yw darpariaeth hyfforddiant yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Yn hanesyddol, roedd y cyfleoedd hyfforddi'n gyfyngedig ac roedd yr hyfforddiant a ddarparwyd yn seiliedig ar 'seilo'. Dros amser, roedd hyn wedi arwain at ddatgysylltiad rhwng bydwragedd ac obstetreg, nyrsio newyddenedigol a neonatoleg ac, yn fwy cyffredinol, rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Fel y dangosodd gwaith adolygu clinigol y Panel, roedd y diffyg cydlyniant hwn yn aml yn ffactor arwyddocaol mewn canlyniadau andwyol.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r datgysylltiad hwn wedi cael ei gydnabod yn glir ac mae'r Bwrdd lechyd yn mynd i'r afael ag ef yn systematig. Addysg a hyfforddiant ambroffesiwn yw'r norm erbyn hyn ac mae'n dechrau talu ar ei ganfed o ran creu ethos tîm mwy cydlynol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal diogel a di-dor i'r fam, y baban a'r teulu.

Yn erbyn y cefndir hwnnw o gynnydd graddol ond cyson, mae'r Panel a'r Bwrdd lechyd wedi cytuno y bydd newid cadarnhaol mewn diwylliant, yn enwedig o ran gwaith ambroffesiwn a chael gwared â 'gweld bai', yn gyfrwng allweddol i gefnogi gwasanaeth cynaliadwy yn y dyfodol. Felly, mae newid mewn diwylliant wedi cael ei nodi fel un o'r tri amod ar ddeg ar gyfer cynaliadwyedd.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Newid Diwylliant**

Mae tystiolaeth o newidiadau cadarnhaol o ran diwylliant mewn meysydd allweddol fel cydweithio rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, gweithio amlddisgyblaethol a mynd i'r afael â'r diwylliant o weld bai.

## **11.1 Ymateb y Sefydliad**

Fel rhan o'r trefniadau ehangach ar gyfer codi lefel ymyriadau wedi'u targedu (TI), mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud llawer iawn o waith datblygu i gefnogi arweinyddiaeth a diwylliant.

Mae'r sefydliad wedi ymateb yn yr un modd i TI ag y mae i fesurau arbennig (SM) o ran nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn sicrhau gwelliannau cynaliadwy.

O ran arweinyddiaeth a diwylliant, mae'r Bwrdd lechyd wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad sydd â'r capasiti a'r gallu i arwain er mwyn sicrhau bod gofal cyson o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu.

Er mwyn cyflawni ei nod cyffredinol, mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth ar bob lefel drwy'r canlynol:

- datblygu sgiliau arwain a rheoli yn barhaus ar bob lefel ac ar gyfer pob proffesiwn er mwyn cryfhau aeddfedrwydd rheoli;
- sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio ar bob agwedd ar gynllunio gweithlu strategol a gwneud y mwyaf o sgiliau ei staff presennol;
- ymgorffori a dangos gwerthoedd ac ymddygiadau byw ar draws y sefydliad cyfan.

O safbwynt y Panel, mae'n galonogol gweld bod datblygiadau yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn cyd-fynd â'r rhaglen datblygu corfforaethol a bod staff yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r cynnig datblygu ac arweinyddiaeth corfforaethol.

## 11.2 Cyflawniadau Allweddol hyd yma

Mae diwylliant yn sail i'r holl feysydd allweddol i'w gwella yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol. Ar sail honno, mae'r Panel wedi nodi rhai enghreifftiau o'r newidiadau cadarnhaol sydd wedi digwydd dros y chwe mis diwethaf yn y tabl isod.

**Tabl 1: Dangosyddion Newid Diwylliant**

Meysydd Allweddol	Enghreifftiau o Gynnydd a Chyflawniadau
<b>Datblygu strategaeth y Gwasanaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal sesiynau ymgysylltu â staff a theuluoedd fel sail ar gyfer datblygu'r strategaeth.</li> <li>• Sesiynau datblygu strategaeth mewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a rhaglen ymgynghori ehangach yn cael ei chwblhau.</li> </ul>
<b>Arweinyddiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddi a chyfrifoldebau arweinyddiaeth glinigol wedi'u diffinio a'u deall yn glir.</li> <li>• Mwy o welededd ymysg yr uwch dîm arwain gyda phresenoldeb wrth drosglwyddo staff a cerdded o gwmpas yn rheolaidd.</li> <li>• Cwrs arwain a rheoli pwrpasol wedi'i gwblhau gan yr uwch dîm mamolaeth.</li> <li>• Cyfraniad blynyddol bydwagedd at Raglen Arweinyddiaeth a Datblygu Coleg Brenhinol y Bydwagedd (RCM).</li> <li>• Fforwm Arweinyddiaeth Misol wedi'i gynnal gyda'r Tîm Gweithredol.</li> <li>• Cylchlythyr wythnosol i'r holl staff (ar draws pob safle) a gynhyrchir gan y Cyfarwyddwyr Clinigol.</li> </ul>

<b>Meysydd Allweddol</b>	<b>Enghreifftiau o Gynnydd a Chyflawniadau</b>
<b>Hyfforddiant a Datblygiad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canolbwyntio ar dalentau a chynllunio olyniaeth gyda Dadansoddiad o Anghenion Dysgu (LNA) a gynhaliwyd ar draws gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau newyddenedigol, gynaeoleg a gwasanaethau iechyd rhywiol integredig.</li> </ul>
<b>Diwylliant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynhaliwyd Adolygiad o Iechyd y Sefydliad ac arolwg sylfaenol o ddiwylliant ar draws y gwasanaethau gyda sesiynau dilynol ar wrando'n gynnar.</li> <li>• Ail-lansiwyd Siarter 'Caring 4 U' Coleg Brenhinol y Bydwraidd ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Fydwraig (05 Mai 2022) gan roi ystyriaeth benodol i hydradu, cyfleusterau ar gyfer cymryd egwyl ac amseroedd i adennill nerth i ffwrdd o'r ardal glinigol. Y Bwrdd Iechyd oedd y cyntaf yng Nghymru i lofnodi ac ymrwymo i fersiwn wedi'i adnewyddu o'r Siarter hon ar 26 Medi 2022.</li> <li>• Penodwyd Hyrwyddwyr Ymddygiad yn y Gweithle Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) ym mis Gorffennaf 2022.</li> </ul>
<b>Diogelwch a Llesiant Seicolegol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu pecyn cefnogi a llesiant staff.</li> <li>• Sesiynau 'Rhannu i Ofalu' wedi'u sefydlu i roi cyfle i staff rannu straeon a myfyrio ar brofiadau neu fynd i'r afael â chwestiynau mewn amgylchedd diogel.</li> <li>• Rhwydwaith o Hyrwyddwyr Ymgysylltu wedi'u nodi.</li> </ul>
<b>Cyfathrebu ac Ymgysylltu</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cafodd cynllun ymgysylltu, diwylliant a llesiant ei ddatblygu a'i lansio ddiwedd mis Medi 2022 sy'n cael ei roi ar waith ar draws gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau newyddenedigol, gynaeoleg a gwasanaethau iechyd rhywiol integredig.</li> <li>• Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ar draws y cymunedau sydd wedi cynhyrchu adroddiadau thematig yn seiliedig ar 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni'.</li> <li>• Mae Cod QR 'Lleisiau Staff' yn cael ei gyflwyno er mwyn galluogi mynegi sylwadau, pryderon a chwynion yn ddienw ac i uwch fydwraig gael mynediad atynt o fewn 24 awr i ddiwrnod gwaith arferol.</li> </ul>

### 11.3 Cynllun Datblygu Arweinyddiaeth

O fewn y cyfnod adrodd presennol, mae'r gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu cynllun arweinyddiaeth a datblygu integredig. Mae hyn yn ategu rhaglen datblygu arweinyddiaeth gynhwysfawr y Bwrdd Iechyd ac mae'n cyd-fynd yn agos â gwerthoedd ac ymddygiad y sefydliad.


Y bwriad yw y bydd y cynllun hwn yn adeiladu ar lwyddiannau cyfredol i gyflwyno rhaglen datblygu arweinyddiaeth a diwylliant a luniwyd i gyflawni tri amcan allweddol:-

1. creu lefel gynaliadwy o atebolrwydd a goruchwyliaeth o ran arweinyddiaeth sy'n sicrhau profiad cadarnhaol i gleifion a gweithwyr;
2. creu diwylliant cadarnhaol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn ddiogel yn seicolegol ac yn glir ynghylch disgwyliadau;
3. arwain ac ysbrydoli unigolion a thimau i fod ar eu gorau drwy roi iddynt yr adnoddau, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen diwylliant ac arweinyddiaeth wedi cael ei sefydlu, dan arweiniad y tîm corfforaethol, i oruchwyllo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynllun sy'n seiliedig ar bum nod allweddol.

Mae'r cynllun yn seiliedig ar y [Fframwaith ar gyfer Gofal Diogel, Dibynadwy ac Effeithiol](#) a ddatblygwyd gan y Sefydliad Gwella Gofal ac a nodir yn Ffigur 3. Mae gan bob nod gyfres o weithgareddau a gynigir a mecanwaith cyflawni y cytunwyd arno, ynghyd ag atebolrwydd, amserlenni a mesuriadau effaith clir.

**Ffigur 3: Fframwaith ar gyfer Gofal Diogel, Dibynadwy ac Effeithiol**



## Ffigur 4: Nodau Arweinyddiaeth a Diwylliant Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

<b>Arweinyddiaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>•Ysbrydoli diwylliant cydweithredol o arweinyddiaeth dosturiol ac ar y cyd lle mae pawb yn cymryd perchnogaeth dros ddarparu gofal rhagorol i gleifion.</li></ul>
<b>Diogelwch a Llesiant Seicolegol Staff</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>•Ysbrydoli diwylliant o fod yn agored lle mae staff yn cael eu hannog ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus i godi'u llais pan na lynir wrth safonau y cytunwyd arnynt neu pan welant bethau'n mynd o chwith.</li></ul>
<b>Atebolrwydd</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>•Creu amgylchedd o ymddiriedaeth lle mae aelodau'r tîm yn dal ei gilydd yn atebol a phawb wedi ymrwymo i gynllun gweithredu clir.</li></ul>
<b>Gwaith Tîm a Chyfathrebu</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>•Creu cyd-ddealltwriaeth o rolau unigol a thîm er mwyn i dimau fod mewn sefyllfa well i ragweld a datrys problemau a gwrthdaro.</li></ul>
<b>Ymddygiadau a Safonau Proffesiynol</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>•Gosod disgwyliadau clir o ran ymddygiad ar gyfer yr holl staff.</li></ul>

Dechreuodd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth newydd yn ei swydd ym mis Ebrill 2022 ac mae eu dyfodiad wedi bod yn gatalydd ar gyfer hwb sylweddol o ran cyflymder a momentwm mewn perthynas â datblygu'r cynllun arweinyddiaeth ac elfennau tymor hwy eraill y rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol.

Maent hefyd wedi gyrru gwaith sy'n ymwneud â diwylliant a gwerthoedd yn ei flaen yn gyflym ac maent wedi bod yn rhan allweddol o'r gwaith o lunio'r Weledigaeth a'r Strategaeth sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy gamau terfynol yr ymgynghoriad mewnol cyn eu cyhoeddi.

O ganlyniad i'r newid i strwythur newydd y Grŵp Gofal, mae gan y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth bellach gyfrifoldeb arweinyddiaeth uwch uniongyrchol dros wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ac mae hynny wedi arwain at integreiddio'r ddau wasanaeth yn gynyddol.

### 11.4 Ymweliad Sicrwydd ar y Safle - Medi 2022

Ddechrau mis Medi 2022, treuliodd y Panel ddau ddiwrnod yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, gan gwrdd â staff ar bob lefel ac mewn amrywiaeth o wahanol rolau, fel unigolion ac mewn grwpiau ffocws mwy. Roedd yn gyfle gwerthfawr i ddeall sut mae'r newidiadau sy'n digwydd o fewn y sefydliad yn effeithio ar staff a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Teimlai'r Panel ei fod yn cael ei groesawu ac roedd yn amlwg bod y timau clinigol wedi gwneud llawer o ymdrech i hwyluso'r ymweliad. Roedd yn amlwg bod gwersi wedi cael eu dysgu o ymweliadau blaenorol ac roedd y rhaglen wedi cael ei strwythuro er mwyn sicrhau'r sicrwydd mwyaf posibl pan oedd ar gael.

Roedd ymrwymiad a brwdfrydedd y timau mamolaeth a newyddenedigol yn amlwg. Sylwyd bod llawer mwy o bobl, gan gynnwys mwy o staff rheng flaen, yn cymryd rhan yn y daith tuag at welliant o'i gymharu ag ymweliadau blaenorol y Panel. Mae'n ymddangos bod capasiti a gallu'r tîm ehangach wedi tyfu ac roedd staff ar bob lefel yn siarad â mwy o hyder a dealltwriaeth; roedd ymdeimlad o falchder ac roedd pobl yn awyddus i rannu eu gwaith.

Yn ystod yr ymweliad, gwelodd y Panel dystiolaeth glir o waith tîm amlddisgyblaethol ac yr oedd y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth, y Cyfarwyddwr Clinigol a'r uwch dîm arwain ehangach yn darparu model rôl amlwg a phwerus. Roedd ymdeimlad cryf bod dull 'Un CTM' bellach yn cael ei ddefnyddio ar draws y gwasanaeth amenedigol a bod dysgu'n cael ei rannu ar draws y tri safle a rhwng gwasanaethau.

Cafodd y Panel gyfle estynedig i gerdded o gwmpas yr unedau mamolaeth a newyddenedigol a chael gwir ymdeimlad o frwdfrydedd ac ymrwymiad sydd gan y staff yn awr ar gyfer gwella a datblygu gwasanaethau. Roedd hi'n amlwg nad yw ymgysylltu bellach yn fater i'r Fydwaig Ymgysylltu ac roedd teimlad bod y timau gweithredol yn awyddus i sicrhau bod mamau, babanod a'u teuluoedd yn parhau i fod wrth galon popeth a wnânt.

Roedd hi'n arbennig o galonogol clywed staff yn siarad am gychwyn ac arwain prosiectau Gwella Ansawdd a chlywed staff yn y meysydd clinigol yn sôn am eu profiad go iawn o gynllun Gwella Ansawdd a'i gychwyn o ddigwyddiadau gwrando a gynhaliwyd gan yr uwch dîm arwain.

Mae'n bwysig bod holl staff y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn cael cyfle i fod yn rhan o'r ateb ac mae staff bellach yn cael eu holi'n rheolaidd ynglŷn â sut maent am weld pethau'n newid a sut y gellir cyflawni'r amcan hwnnw. Yn ddiweddar, mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth wedi cyhoeddi bwletin 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' i ddangos sut mae uwch reolwyr yn gwrando ac yn ymateb i faterion a godwyd gan staff.

Er bod y Panel wedi canfod naws cadarnhaol cryf, fel sy'n aml yn wir mewn unrhyw raglen ar gyfer newid sefydliadol ar y raddfa hon, mae gwaith i'w wneud o hyd i fynd â phob aelod o staff ar y daith tuag at welliant. Roedd hi'n amlwg bod rhai staff yn parhau i fethu â mynegi'r cynnydd amlwg sydd wedi'i wneud hyd yma, gan ganolbwyntio yn lle hynny ar broblemau a heriau'r gorffennol neu'r rhai y maent yn eu hwynebu o hyd.

Efallai ei bod yn ddealladwy yn yr amgylchedd presennol bod rhai staff yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â galw a chapasiti a'r problemau a achosir gan absenoldeb staff a ffactorau yn ymwneud â swyddi gwag.

Yn draddodiadol, Medi yw'r adeg o'r flwyddyn pan fydd gan y rhan fwyaf o sefydliadau eu nifer uchaf o swyddi gwag ym maes bydwreigiaeth. Mae hyn oherwydd y bwriad i recriwtio bydwagedd sydd newydd gymhwysu ar ôl cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus. Teimlai nifer fechan o'r staff y buom yn siarad â hwy fod hyn yn effeithio ar ansawdd y gwasanaeth yr oeddent yn gallu ei ddarparu.

Cafwyd cyfle hefyd yn ystod yr ymweliad i gwrdd â menywod a theuluoedd a oedd naill ai wedi rhoi genedigaeth yn ddiweddar neu ar fin gwneud hynny. Er mai grŵp bach oedd hwn ac nad oedd yn ddigon i ddod i unrhyw gasgliadau pendant, roedd eu profiadau wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan er bod rhai themâu wedi dod i'r amlwg ynghylch cysondeb y dull gweithredu a'r dewis mewn meysydd fel bwydo o'r fron. Roedd hefyd yn amlwg bod ansawdd eu profiad yn aml yn gysylltiedig ag arddull a dull personol y bydwagedd unigol a oedd ar ddyletswydd ar y pryd.

Gan ystyried popeth, rhoddodd y Panel ymdeimlad go iawn i'r Bwrdd Iechyd bod y gwelliannau sydd wedi cael eu cyflawni dros y tair blynedd diwethaf wedi cael eu gwreiddio mewn ymarfer a'u bod bellach yn dod yn 'fusnes fel arfer'. Roedd hefyd yn galonogol gweld newidiadau cadarnhaol mewn diwylliant a pherthynas fwy adeiladol rhwng staff rheng flaen ac uwch reolwyr.

Yn ei adborth i'r Bwrdd Iechyd yn dilyn yr ymweliad, roedd y Panel yn credu nad oedd y gwasanaeth mamolaeth yn ddim byd tebyg i'r hyn a welwyd yn ei ymweliadau cynnar ag Ysbyty'r Tywysog Siarl yn ystod 2019 a bod cynnydd sylweddol wedi bod ers mis Chwefror 2022.

**Ar y sail honno, mae'r Panel yn fodlon bod yr amod ar gyfer newid diwylliant bellach wedi'i fodloni. Mae'n amlwg bod llawer iawn o waith i'w wneud yn y maes hwn ond mae'r mecanweithiau a'r strategaethau yn eu lle bellach i alluogi hynny i ddigwydd.**

Byddai'r Panel wedi hoffi gweld rhywfaint o wybodaeth feintiol er mwyn gallu cynnal asesiad o sut mae argraffiadau staff wedi newid dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Sefydlwyd sefyllfa waelodlin yn 2020 a rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai arolwg pellach o staff wedi cael ei gynnal. Fodd bynnag, am amrywiaeth o resymau, yn enwedig y ffaith mai dim ond yn ddiweddar y mae'r uwch dîm arwain newydd yn ei swydd, penderfynwyd gohirio hyn tan 2023.

Mae'r Panel yn ymwybodol bod Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wedi cynnal arolygiad dirybudd o'r gwasanaethau mamolaeth a ddarperir yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ddiwedd mis Medi. Rhagwelir y bydd yr adroddiad sy'n nodi canfyddiadau'r arolygiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'r Panel yn deall y bydd y canfyddiadau'n adlewyrchu'n fras y gwelliannau y mae'r Panel wedi tynnu sylw atynt yn ei adroddiadau dros y tair blynedd a hanner diwethaf. Fodd bynnag, roedd arolygiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi nodi rhai heriau a oedd yn dal i fodoli o ran agweddau a diwylliant staff, yn debyg i'r rhai a nodwyd gan y Panel yn ystod ei ymweliad sicrwydd ar y safle ddechrau mis Medi.

Bydd angen i'r Bwrdd lechyd barhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion hynny wrth symud ymlaen i sicrhau nad yw'r cynnydd sylweddol sydd wedi cael ei wneud yn cael ei danseilio.

## **11.5 Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol 2022-2025**

Un o'r camau gweithredu a etifeddwyd a oedd eto i'w gyflawni o gynllun gweithredu'r Colegau Brenhinol oedd datblygu gweledigaeth strategol ar gyfer y gwasanaeth mamolaeth (Argymhelliad 7.67). Cafodd hyn ei symud ymlaen fel cam gweithredu yn y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, a chytunodd y Panel a'r Bwrdd lechyd arno fel un o'r tri ar ddeg o amodau ar gyfer gwella cynaliadwy.

Mae'n bwysig bod gan y Bwrdd lechyd ymdeimlad cyffredinol o gyfeiriad y tu hwnt i gyflawni'r gwelliannau a argymhellwyd gan y Colegau Brenhinol; bydd datblygu'r weledigaeth strategol yn darparu hynny. Fodd bynnag, roedd hi'n bwysig hefyd bod y strategaeth yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd o ystyried bod Gweledigaeth a Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Cymru gyfan yn debygol o ddod i'r amlwg o'r Rhaglen Cymorth Diogelwch Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn y tymor canolig.

### **Amod ar gyfer Cynaliadwyedd – Gweledigaeth Strategol**

Wedi'i datblygu, ei chymeradwyo a'i chyfathrebu â'r cyhoedd; cyflawnwyd y camau cynnar gan roi hyder y bydd modd cyflawni gwelliannau parhaus cynaliadwy yn y tymor hwy.

Mae Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Cwm Taf Morgannwg 2022-2025 wedi cael ei chydgyhyrchu ar ôl ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth, grwpiau cynrychioladol a staff ar bob lefel. Mae hefyd wedi defnyddio llawer iawn o dystiolaeth a phrofiad ymarferol dros y tair blynedd a hanner diwethaf. Mae'r Bwrdd lechyd wedi mynd y tu hwnt i'r hyn a awgrymwyd gan y Colegau Brenhinol i ddatblygu strategaeth sy'n pontio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r strategaeth ar ffurf drafft ar hyn o bryd ac yn destun ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid allweddol. Erbyn cyhoeddi'r adroddiad hwn (adroddiad y Panel), rhagwelir y bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu ategol wedi cael eu cyhoeddi ac ar gael ar wefan y Bwrdd lechyd.




Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth tair blynedd y Bwrdd Iechyd ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Mae'r Panel wedi adolygu'r strategaeth ddrafft a gall gadarnhau ei fod yn ceisio mynd i'r afael â'r materion allweddol y mae angen canolbwyntio arnynt wrth symud ymlaen. Mae'n adlewyrchu'r daith tuag at welliant hyd yma ac yn ymrwmo i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd i wella gwasanaethau a rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i rieni a babanod newydd.

Nid yw'r strategaeth wedi'i llunio fel gweledigaeth annibynnol ond mae wedi'i halinio a'i chysylltu â strategaethau ehangach ar draws y Bwrdd Iechyd fel CTM2030, y strategaeth sefydliadol a dogfennau cenedlaethol fel Gweledigaeth Mamolaeth Cymru Gyfan.

Mae uchelgeisiau'r gwasanaethau wedi cael eu nodi yn unol â'r pum egwyddor allweddol yn y weledigaeth genedlaethol sydd hefyd yn cyd-fynd â phedair conglfaen strategol y sefydliad:

### Ffigur 5: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Conglfeini Strategol



Mae'r strategaeth wedi cael ei datblygu drwy ymgynghori â staff a defnyddwyr gwasanaeth ac mae'r Panel wedi gweld tystiolaeth o ddeunyddiau ymgysylltu sydd wedi cael eu bwydo i mewn i'r pum uchelgais a bennwyd.

Mae'r Panel yn cydnabod y gallai'r Bwrdd Iechyd gael ei gyfyngu wrth weithredu'r strategaeth gan fod y Rhaglen Genedlaethol Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol yng nghanau cynnar ei datblygiad ar hyn o bryd. Mae'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol sydd hefyd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu ar hyn o bryd yn debygol o arwain at newidiadau ar lefel genedlaethol o ran darparu, goruchwyllo a monitro gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Mae'r Panel yn cydnabod bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu o fewn cyd-destun gweithredol a pholisi sy'n newid ac yn nodi y bydd angen adolygu a diweddarau'r strategaeth yn unol â'r cyfeiriad cenedlaethol.

**Yn y cyfamser, mae'r strategaeth yn rhoi'r cyfeiriad sydd ei angen ar y Bwrdd lechyd wrth symud ymlaen ac ar y sail honno, mae'r Panel yn fodlon bod y weledigaeth a'r amod strategaeth ar gyfer cynaliadwyedd wedi cael eu bodloni.**

## 12 Casgliadau ac Argymhellion

Dros y tair blynedd a hanner diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd i bob pwrpas wedi gweddnewid ei wasanaethau mamolaeth i'r graddau fod y Panel bellach yn teimlo ei fod yn gallu sicrhau'r Gweinidog bod gwasanaethau'n cael eu darparu i safon y mae gan y menywod a'r teuluoedd sy'n eu defnyddio a'u cymunedau ehangach yr hawl i'w disgwyl.

Mae'r rhan fwyaf o 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael sylw llawn ac mae'r llond llaw sy'n dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gwella tymor hwy y Bwrdd Iechyd. Ym marn y Panel, nid yw'r gwasanaeth mamolaeth yn ddim byd tebyg i'r gwasanaeth a welodd am y tro cyntaf yn 2019.

Pan gafodd y gwasanaeth mamolaeth ei adolygu gan y Bwrdd Iechyd yn erbyn y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) ym mis Awst eleni, aseswyd ei fod ar lefel 'Aeddfedrwydd' yn y maes Gofal Diogel ac Effeithiol, 'Aeddfedrwydd' yn y maes Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac 'Enghraifft o Ragoriaeth' yn y maes Ansawdd Profiadau Menywod.

Mae'r Panel yn cefnogi'r asesiadau hynny'n llawn ac yn credu bod y dystiolaeth i'w cyfiawnhau wedi'i nodi'n raddol yn yr adroddiad hwn a'r chwe adroddiad cynnydd a'i rhagflaenodd. Mae gwaith i'w wneud o hyd, yn enwedig o ran arweinyddiaeth a diwylliant, ond mae'r camau pellach y mae angen i'r Bwrdd Iechyd eu cymryd mewn perthynas â'i wasanaethau mamolaeth yn rhai datblygiadol yn hytrach nag adferol.

Am resymau sydd wedi'u trafod, nid yw'r gwasanaeth newyddenedigol yn yr un sefyllfa eto. Fodd bynnag, mae cynnydd ystyrion wedi bod yn ystod y chwe mis diwethaf a phan gafodd y gwasanaeth hwnnw hefyd ei asesu yn erbyn yr IPAAF ym mis Awst 2022, roedd wedi symud ar draws y matricesau aeddfedrwydd o 'Cynnydd Cynnar' i 'Canlyniadau' yn erbyn pob un o'r tri maes. Roedd y Panel yn cefnogi asesiad y Bwrdd Iechyd.

Er bod y cynnydd wedi bod yn arafach na'r disgwyl, mae 15 o'r 19 maes i'w gwella ar unwaith a ddeilliodd o'r adolygiad dwys o'r gwasanaeth newyddenedigol wedi cael sylw erbyn hyn ac mae'r pedwar arall yn waith sy'n mynd rhagddo a bron â'i gwblhau. Cafwyd cynnydd ystyrion hefyd yn erbyn yr argymhellion tymor byr, canolig a hwy yng nghynllun gwella ehangach y gwasanaeth newyddenedigol, er bod llawer i'w wneud o hyd i fynd i'r afael â hwy'n llawn.

Yn ystod y misoedd diwethaf, gwelwyd cynnydd amlwg o ran cyflymder a momentwm yn y broses o wella'r gwasanaeth newyddenedigol, yn cael ei sbarduno gan fwy o ymgysylltu gan y timau clinigol, ac mae hyn wedi cynhyrchu canlyniadau. Mae angen cynyddu capasiti meddygol o hyd er mwyn cyflawni cam nesaf y rhaglen, ond mae'r Panel wedi'i sicrhau bod cynlluniau manwl ar waith i gyflawni hynny.

Mae'r Panel yn credu bod angen rhyw fath o fentora a chefnogaeth barhaus ar gyfer tîm gwella'r gwasanaeth newyddenedigol yn y tymor byr i ganolig ond nad oes angen i'r Panel ddarparu hynny bellach. Trafodir hyn ymhellach yn [Adran 12.3](#) isod.

## **12.1 Asesiad Cyffredinol o Gynnydd – Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd**

Pan adroddodd y Panel ddiwethaf ym mis Mai 2022, nododd dri ar ddeg o 'amodau ar gyfer cynaliadwyedd' a fyddai, pe baent yn cael eu cyflawni, yn dangos bod y gwelliannau yr oedd y Bwrdd lechyd wedi'u gwneud wedi'u gwreiddio mewn ymarfer ac yn gynaliadwy i'r dyfodol. Cytunwyd ar yr amodau hyn gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd lechyd, ynghyd ag atodlen fanwl o'r dystiolaeth a fyddai'n ofynnol i ddangos eu bod wedi'u cyflawni.

Dros y chwe mis diwethaf, mae'r Panel a'r Bwrdd lechyd wedi canolbwyntio'n agos ar y tri ar ddeg amod cynaliadwyedd hynny fel sail ar gyfer gwerthuso cynnydd yn ystod camau diweddarach taith y Bwrdd lechyd tuag at welliant.

Ar sail y dadansoddiad manwl a geir yn Adrannau 4 i 11 yr adroddiad hwn, **mae'r Panel yn credu bod pob un o'r tri amod ar ddeg ar gyfer cynaliadwyedd wedi cael eu bodloni.**

O'r herwydd, mae'r Panel yn gallu rhoi sicrwydd i'r Gweinidog bod **taith gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd lechyd tuag at welliant bellach yn gynaliadwy ac y gallai barhau heb yr angen am y lefel bresennol o oruchwyliaeth a chefnogaeth allanol** pe bai'r Gweinidog yn teimlo bod hynny'n briodol.

## **12.2 Trefniadau Goruchwyllo a Chefnogi i'r Dyfodol**

Tra'n cydnabod y bydd bob amser welliannau pellach y gellir eu gwneud, o gofio:-

- (i) y tybir erbyn hyn bod gwelliant y Bwrdd lechyd, ar sail asesiad seiliedig ar dystiolaeth, yn gynaliadwy wrth symud ymlaen;
- (ii) bod argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu cyflawni i raddau helaeth a bod y gwasanaeth mamolaeth wedi cyflawni o leiaf lefel 'Aeddfedrwydd' yn erbyn yr IPAAF;
- (iii) bod cynnydd ystyrllon wedi'i wneud yn erbyn cynllun gwella'r gwasanaeth newyddenedigol gyda rhagolygon da ar gyfer llwyddiant parhaus;
- (iv) bod gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd lechyd wedi ennill statws 'Enghraifft o Ragoriaeth' ac mae'r gwasanaeth newyddenedigol yn dilyn llwybr tebyg, a bod;
- (v) y Panel wedi rhannu'r hyn y mae wedi'i ddysgu o'r broses oruchwyllo yn ehangach drwy'r Uwchgynhadledd ddiweddar ar Ddiogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol;

bod y Panel yn credu ei fod, ar y cyfan, wedi cyflawni ei gylch gorchwyl, nad yw ei rôl bellach yn angenrheidiol ac y gellid ei rhoi ar y neilltu unwaith y bydd yr holl drefniadau gweinyddol angenrheidiol wedi'u cwblhau.

## **Argymhelliad Un – Rhyddhau'r Panel**

Mae'r Panel yn credu bod ei gylch gorchwyl wedi'i gyflawni'n gyffredinol erbyn hyn ac mae'n argymhell y gallai'r Gweinidog ystyried rhyddhau'r Panel unwaith y bydd y trefniadau gweinyddol angenrheidiol wedi'u cwblhau.

### **12.3 Meysydd ar gyfer Monitro ac Adrodd Pellach**

Yn ddealladwy, efallai, o gofio'r ffaith bod rhaglen wella'r gwasanaeth newyddenedigol wedi dechrau cryn dipyn o amser ar ôl y rhaglen i wella'r gwasanaeth mamolaeth, mai'r ddau amod newyddenedigol ar gyfer cynaliadwyedd fu'r rhai mwyaf heriol i'r Bwrdd lechyd eu cyflawni. Fodd bynnag, mae'r timau clinigol a thîm rheoli'r rhaglen wedi gweithio'n eithriadol o galed dros y ddau fis diwethaf i sicrhau bod digon o gynnydd ystyrion wedi cael ei wneud.

Er gwaethaf y cynnydd hwnnw, mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Mae nifer fach o gamau gweithredu ar unwaith y mae dal angen eu cwblhau neu eu gwreiddio mewn ymarfer ac mae angen i'r broses o fynd i'r afael yn systematig â'r camau gweithredu tymor byr, canolig a hir ddechrau o ddifrif yn awr. Ac er bod cynlluniau ar waith i wella arweinyddiaeth feddygol yn yr uned newyddenedigol, mae bylchau o hyd mewn capasiti y mae angen rhoi sylw iddynt.

Am y tro o leiaf, mae'r Panel yn credu y bydd angen cefnogaeth mentora allanol parhaus ar y timau clinigol a chymorth i werthuso tystiolaeth i benderfynu a yw'n ddigon i gyfiawnhau bod camau gwella wedi cael eu cyflawni a'u gwreiddio'n llawn mewn ymarfer. Fodd bynnag, nid oes angen i'r gefnogaeth honno gael ei darparu gan y Panel ac efallai y byddai'n fuddiol galluogi'r Bwrdd lechyd i benderfynu ar ei drefniadau ei hun.

Yn olaf, mae nifer sylweddol o gamau i'w cymryd o hyd, ac o ystyried y capasiti cyfyngedig sydd ar gael weithiau i ymgymryd â gwaith gwella, mae'r Panel yn credu y byddai'n ddoeth cadw elfen o fonitro allanol am y tro er mwyn sicrhau bod cyflymder a momentwm yn cael eu cynnal.

Nid yw'r Panel yn credu ei bod yn briodol awgrymu sut a chan bwy y dylid darparu'r gefnogaeth ychwanegol – mae hynny'n rhywbeth sy'n fwy priodol i'w drafod rhwng y Bwrdd lechyd a Llywodraeth Cymru – ac am y rheswm hwnnw, mae'r argymhelliad wedi'i gyfyngu i'r 'beth' yn hytrach na'r 'pwy'.

### **Argymhelliad Dau – Goruchwyliaeth a Chymorth Parhaus ar gyfer y Gwasanaeth Newyddenedigol**

Mae'r Panel yn argymhell bod cymorth a goruchwyliaeth barhaus yn cael eu darparu i'r Bwrdd Iechyd yng nghyswllt pedwar maes allweddol:-

- i. trefniadau llywodraethu effeithiol a cymorth parhaus i reoli'r rhaglen er mwyn gallu cyflawni yn erbyn y cerrig milltir yng nghynllun gwella'r gwasanaeth newyddenedigol yn unol â'r llwybrau a bennwyd;
- ii. cymorth i ddeall ac asesu tystiolaeth o welliant yn gadarn;
- iii. cefnogi dealltwriaeth o 'beth mae da yn ei olygu' er mwyn galluogi'r timau clinigol i symud ymlaen ar eu taith eu hunain, gyda chefnogaeth egwyddorion gwella ansawdd;
- iv. capasiti arwain meddygol a nyrsio gwell, o bosibl drwy ailstrwythuro mewnol i greu'r rolau arweinyddiaeth sylweddol sydd eu hangen i symud gwelliannau ymlaen, gyda chymorth gan weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd wedi'u gwreiddio yn y gwasanaeth.

## **12.4 Ystyriaethau Eraill**

Yn yr adroddiad hwn, byddai'r Panel wedi dymuno gallu defnyddio data meintiol a dadansoddiadau ystadegol i dynnu cymariaethau uniongyrchol rhwng perfformiad gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd Iechyd a'r rhai a ddarperir gan sefydliadau iechyd tebyg ledled Cymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y camau breision sydd wedi'u cymryd o fewn y Bwrdd Iechyd o ran defnyddio data'n ddeallus, mae anawsterau o hyd o ran meincnodi perfformiad yn ehangach.

Mae tystiolaeth i ddangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn gwella dros amser ar draws ystod o ddangosyddion ac mae rhywfaint o ddata ar gael ar lefel genedlaethol sy'n dangos nad yw'r Bwrdd Iechyd yn sefyll ar ben ei hun yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid oes dull dibynadwy na digon cadarn ar hyn o bryd i feincnodi perfformiad yn erbyn ei gymheiriaid mewn unrhyw ddyfnder ac mae hynny wedi gwneud asesu cynnydd yn fwy heriol nag y dylai fod.

Mae'r Panel yn deall bod setiau data cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn cael eu datblygu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru drwy raglen Mamolaeth Digidol Cymru. Mae'r Panel o'r farn ei bod yn hanfodol bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo'n gyflym er mwyn cefnogi goruchwyliaeth a sicrwydd parhaus o ran diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ledled Cymru.

Bydd hwn hefyd yn alluogwr sylweddol ar gyfer y Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol cenedlaethol ac y mae felly er budd y gwasanaeth ehangach i'r rhaglen waith hon gael ei chyflwyno cyn gynted ag y bo modd.

### **Argymhelliad Tri – Sefydlu Setiau Data Cenedlaethol**

Mae'r Panel yn argymhell y dylai datblygiad Mamolaeth Digidol Cymru a gweithredu'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol symud ymlaen yn gyflym er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o fonitro a goruchwylio gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ar lefel Cymru gyfan.

Yn ogystal â'r setiau data ar gyfer Cymru gyfan a'r Rhaglen Cefnogi Diogelwch mewn Gofal Mamolaeth a Newyddenedigol, mae'r Panel yn deall bod nifer o ddatblygiadau eraill yn digwydd ar lefel genedlaethol a fydd yn gwella ymhellach y gwaith o fonitro ansawdd, diogelwch a pherfformiad gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Mae hyn yn cynnwys y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol sydd, adeg ysgrifennu'r adroddiad, yn dechrau ar ei gyfnod gweithredu. Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau clinigol sy'n seiliedig yn bennaf ar ofal iechyd darbodus ac egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth. Bydd datblygu rhwydweithiau clinigol sy'n cael eu harwain gan ddatganiadau ansawdd yn cefnogi hyn ac yn caniatáu monitro data llwybrau a chanlyniadau i gefnogi trefniadau meincnodi ac atebolrwydd lleol.

Ar ben hynny, rhagwelir, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, y bydd Gweithrediaeth y GIG yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o fonitro ansawdd a diogelwch gwasanaethau clinigol wrth symud ymlaen, yn ogystal â hwyluso unrhyw welliannau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol. Dylai Gweithrediaeth y GIG ddarparu lefel uwch o oruchwyliaeth drwy drefniadau a mecanweithiau atebolrwydd ffurfiol, yn enwedig mewn perthynas â pherfformiad a darpariaeth gwasanaethau.

Gyda'i gilydd, dylai'r datblygiadau hyn ddarparu'r data a'r mecanweithiau i randdeiliaid allweddol ar lefel genedlaethol allu cael rhagor o sicrwydd ynghylch taith barhaus tuag at welliant gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

## 13 Atodiad A - Cylch Gorchwyl y Panel

### Pwrpas y Panel Trosolwg Annibynnol

Darparu'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i alluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i roi'r argymhellion yn adroddiad y Colegau Brenhinol ar waith mewn modd amserol, agored a thryloyw.

### Cylch Gorchwyl

- Sefydlu trefniadau cadarn sy'n rhoi sicrwydd i randdeiliaid bod y Bwrdd Iechyd yn gweithredu'r argymhellion yn adolygiad y Colegau Brenhinol ac argymhellion eraill cysylltiedig. Pennu a chytuno ar gerrig milltir ac elfennau allweddol i'w cyflawni a thracio cynnydd mewn perthynas â'r rhain;
- Sefydlu a chytuno ar broses amlddisgyblaethol annibynnol i gynnal adolygiad clinigol o'r digwyddiadau difrifol yn 2016-2019 y mae'r Colegau Brenhinol wedi'u nodi fel rhai y mae angen ymchwiliad pellach iddynt. Cynnal ymarfer 'golwg yn ôl' i 2010 a sicrhau bod unrhyw rai sydd â phryderon cyfiawn am eu gofal yn cael cyfle i gael adolygiad o'r gofal hwnnw. Sicrhau bod y Bwrdd Iechyd ac eraill yn gweithredu ar unrhyw wersi i'w dysgu sy'n cael eu hamlygu gan yr adolygiadau hyn;
- Cynghori'r Bwrdd Iechyd ar y camau y mae angen iddo eu cymryd i sefydlu trefniadau ymgysylltu effeithiol sy'n cynnwys cleifion a staff mewn modd gweithredol yn y broses o wella gwasanaethau newyddenedigol a mamolaeth ac adennill ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y Bwrdd Iechyd;
- Uwchgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon ehangach sy'n ymwneud â llywodraethu i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru fel sy'n briodol;
- Rhoi gwybod i'r Gweinidog am unrhyw gamau pellach y mae'r Panel yn eu hystyried yn angenrheidiol i sicrhau bod gwasanaethau newyddenedigol a gwasanaethau mamolaeth yn cael eu darparu'n ddiogel, yn gynaliadwy ac i safon uchel, ac yn canolbwyntio ar y claf. Dylai hyn gynnwys cyngor ar yr angen am unrhyw adolygiadau annibynnol dilynol, ac amseru'r rheini, a nodi unrhyw wersi pellach ar gyfer y GIG yng Nghymru.



## 14 Atodiad B - Werthoedd ac Ymddygiad y Panel

Mae cylch gorchwyl y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth wedi'i ategu gan set o werthoedd a chredoau craidd sy'n sail i ymddygiad y Panel ac sy'n pennu'r disgwyliadau o ran ymddygiad pobl eraill sy'n rhan o'r trosolwg.

Drwy weithredu fel modelau rôl rydym yn gobeithio hyrwyddo'r mathau o ymddygiad a fydd yn sail sylfaenol i daith y Bwrdd lechyd at wella.



**YN CANOLBWYNTIO AR FERCHED A THEULUOEDD** - yn bennaf, diogelwch, ansawdd a phrofiad fydd wrth wraidd ein penderfyniadau, ein hargymhellion a'n gweithredoedd.

**GWERTHFAWROGI POBL** - rydym yn credu bod gweithlu llawn cymhelliant sy'n ymroi'n briodol ac sy'n cael ei arwain yn dda yn ofyniad sylfaenol er mwyn darparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

**AGORED A THRYLOYW** - yn amodol ar gyfyngiadau cyfrinachedd cleifion a diogelu data, byddwn yn gwneud ein gwaith mewn modd agored a thryloyw.

**CYNHWYSOL** - byddwn yn ymgysylltu â'r merched a'r teuluoedd y mae methiant ar ran y gwasanaeth wedi effeithio arnynt, a byddwn yn eu cynnwys yn weithredol yn y broses trosolwg a gwella.

**CYDWEITHREDOL** - mewn amgylchedd o graffu a herio cadarn, byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd lechyd i gael y gorau posibl allan o'r broses wella ac i osgoi biwrocratiaeth a dyblygu ymdrech ac adnoddau diangen.

## 15 Atodiad C - Taith y Bwrdd lechyd tuag at Welliant

### Adroddiad Cynnydd Cyntaf - Mis Mawrth 2019 i Fis Medi 2019 Gwneud y Gwasanaeth yn Ddiogel; Creu'r Sylfeini ar gyfer Gwella

Yn ei adroddiad cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2019, daeth y Panel i'r casgliad bod y sylfeini ar gyfer gwella yn eu lle i raddau helaeth. Roedd arweinyddiaeth effeithiol, llinellau llywodraethu ac atebolrwydd clir ac ymrwymiad gwirioneddol i gyflawni newid ar lefel Bwrdd ac uwch arweinwyr.

Roedd y Bwrdd lechyd wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ymyriad ac roedd yn dechrau gwneud cynnydd o ran cyflawni yn erbyn y cynllun gwella a oedd wedi cael ei ddatblygu i fynd i'r afael â'r argymhellion yn adroddiad y Colegau Brenhinol ac adolygiadau cysylltiedig eraill. Roedd tystiolaeth hefyd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu hollbwysig a gafodd eu hargymell gan y Colegau Brenhinol er mwyn sicrhau diogelwch wedi cael eu cyflawni. Pan oedd y camau hynny yn dal yn waith a oedd yn mynd rhagddo, roedd rhesymau dros hynny ac roedd systemau wedi'u sefydlu i fonitro a lliniaru unrhyw ganlyniadau niweidiol.

Roedd y Panel wedi cydweithio â'r Bwrdd lechyd i roi'r systemau a'r prosesau angenrheidiol ar waith er mwyn gallu monitro ac asesu cynnydd yn erbyn y cynllun gwella, ac roedd Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd (IPAAF) seiliedig ar dystiolaeth wedi cael ei ddatblygu i lywio'r gwaith adrodd dilynol. Roedd yr IPAAF yn gydnaws â thair ffrwd waith allweddol:

- Gofal diogel ac effeithiol;
- Ansawdd profiadau menywod a theuluoedd;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth

O ran ymgysylltu â menywod, teuluoedd a staff, roedd llawer iawn o waith paratoi wedi'i wneud a oedd yn symud tuag at weithredu. Roedd strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu wedi cael ei datblygu, roedd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth wedi cael ei adfywio gyda Chadeirydd Lleyg a mwy o aelodau o blith defnyddwyr gwasanaeth, ac roedd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu'n cael eu cynllunio i ddod â menywod a theuluoedd ynghyd â staff am y tro cyntaf i gydgyhyrchu gwasanaeth mamolaeth gwell ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei gyfrifoldeb i sefydlu proses adolygu clinigol annibynnol, datblygodd y Panel [Strategaeth Adolygiadau Clinigol](#) a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd cyntaf. Pwrpas y strategaeth oedd sicrhau:-

- bod proses adolygu clinigol gadarn ar waith;
- bod y canfyddiadau neu'r themâu yn deillio o'r broses adolygu'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd lechyd i alluogi dysgu ac yn gwella;
- bod mecanweithiau ar waith i alluogi rhoi gwybod i gyrff allanol am achosion lle bo angen;

- bod y Bwrdd Iechyd, drwy adolygu tystiolaeth, wedi dysgu gwersi er mwyn gwella diogelwch, ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaeth amenedigol;
- bod menywod a'u teuluoedd yn ymgysylltu â'r broses (lle roeddent yn dymuno hynny);
- bod staff yn cymryd rhan yn y broses adolygu a bod adborth yn cael ei roi ynghylch y canlyniad;
- bod hyder wedi'i adfer yn y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu.

Adeg llunio'r adroddiad, roedd cam cyntaf y broses adolygiadau clinigol (golwg yn ôl 2016-2018) yn cael ei chwmpasu gyda ffocws ehangach a mwy o ddyfnder na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Colegau Brenhinol. Un o elfennau eraill y broses adolygiadau clinigol oedd sicrhau ansawdd digwyddiadau difrifol a ddigwyddodd ar ôl 01 Hydref 2018. Roedd y gwaith hwn hefyd yn mynd rhagddo gyda rhywfaint o dystiolaeth o gyfraniad amlddisgyblaethol da a gwell ymgysylltu â theuluoedd, er bod angen asesiad pellach.

### **Ail Adroddiad Cynnydd - Mis Hydref 2019 i Fis Ragfyr 2019 Cyflawni'n Gynnar yn erbyn Argymhellion RCOG**

Yn ei ail ddiweddariad cynnydd, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, adroddodd y Panel fod y Bwrdd Iechyd wedi adeiladu ar y sylfeini cadarn a sefydlwyd yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol. Roedd tystiolaeth bendant o gynnydd pellach yn erbyn y 79 cam gweithredu a nodwyd yn y cynllun gwella, ac arwyddion clir a oedd yn cael eu hategu gan wybodaeth o ystod o ffynonellau mewnol ac allanol, fod y gwasanaeth mamolaeth yn gwella yn fwy cyffredinol.

Gwnaed cynnydd pellach yn erbyn y tri argymhelliad diogelwch hollbwysig a oedd yn parhau'n waith a oedd yn mynd rhagddo, ac roedd y Panel wedi asesu tystiolaeth a ddarparodd sicrwydd rhesymol iddo fod 25 argymhelliad pellach wedi'u cyflawni. Roedd enghreifftiau o gynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys:-

- gwelliannau i ansawdd yr hyfforddiant a roddir i staff meddygol a staff bydwreigiaeth, ynghyd â chyfraddau cydymffurfio uwch a chynlluniau cadarn ar gyfer cyflawni yn y dyfodol;
- creu fframwaith llywodraethu clinigol cynhwysfawr, gyda thystiolaeth glir fod y fframwaith bellach ar waith ac yn arwain at welliannau mewn ymarfer clinigol;
- cadarnhad fod y lefelau staffio yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n unol â hwy ym maes bydwreigiaeth a nyrsio dros y naw mis diwethaf yn cydfynd â'r lefelau sy'n cael eu hargymell gan Birthrate+;
- datblygu proses archwilio clinigol a gwella'r prosesau a ddefnyddir i gofnodi digwyddiadau difrifol, i ymchwilio iddynt ac i ddysgu oddi wrthynt.

Ar ben hynny, roedd matrices aeddfedrwydd mamolaeth wedi cael ei ddatblygu gan y Bwrdd Iechyd a oedd, ar y cyd â'r IPAAF, yn caniatáu asesiad o'r cynnydd ar draws y tri maes.

Mae'r matrices yn disgrifio pum lefel o gynnydd gan ddefnyddio cyfres o ddisgrifyddion naratif, fel a ganlyn:-

1. **Sylfaenol** - wedi derbyn yr egwyddorion, ac wedi ymrwymo i weithredu.
2. **Cynnydd Cynnar** - tystiolaeth o ddatblygiadau a chynnydd cynnar.
3. **Canlyniadau** - wedi cyflawni canlyniadau a cherrig milltir cychwynnol.
4. **Aeddfedrwydd** - canlyniadau'n cael eu cyflawni'n gyson.
5. **Enghraifft o Ragoriaeth** - eraill yn dysgu o gyflawniadau'r Bwrdd Iechyd.

Cafodd yr asesiadau cyntaf yn erbyn y matrices aeddfedrwydd eu cynnal ar sail prawf, ac mae asesiad y Bwrdd Iechyd yn dangos bod pob un o'r tri maes ar y lefel 'Cynnydd Cynnar'. Er nad oedd amheuaeth bod cynnydd yn cael ei wneud, adroddodd y Panel bod llawer iawn i'w wneud o hyd, a galwodd am gynyddu cyflymder, cydlyniant a disgyblaeth gweinyddol. Nodwyd nifer o feysydd lle'r oedd y Panel yn disgwyl gweld cynnydd, gan gynnwys datblygu'r IPAAF ymhellach a'r cynllun gwella i gynnwys cerrig milltir a thargedau cliriach.

Penderfynodd y Panel y gwnaed cynnydd da o ran gwella'r ffordd yr oedd y Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu â menywod a theuluoedd, yn arbennig o ran eu cynnwys nhw a'r gymuned ehangach yn y gwaith o helpu i ddylunio a gwella gwasanaethau mamolaeth.

Adeg llunio'r adroddiad, roedd y ddau gyntaf o dri digwyddiad ymgysylltu â'r gymuned a drefnwyd wedi cael eu cynnal ac roedd y menywod a'r teuluoedd a oedd yn bresennol, yn ogystal â'r aelodau staff a oedd yn cymryd rhan, wedi croesawu'r rhain, ar y cyfan. Yr oedd yr wybodaeth a ddysgwyd o'r ddau ddigwyddiad cyntaf yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r ffordd yr oedd yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chymunedau yn ehangach.

Yn y cyfamser, roedd y Panel yn rhoi cam cyntaf y rhaglen adolygiadau clinigol ar waith (golwg yn ôl 2016-2018) ac roedd wedi sefydlu Grŵp Prosiect Adolygiadau Clinigol. Roedd yr aelodau'n cynnwys Arweinwyr Obstetreg a Bydwreigiaeth y Panel, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Uned Gyflawni GIG Cymru (Uned Gyflawni) a'r Cyngor Iechyd Cymuned. Roedd timau amlddisgyblaeth o fydwragedd, obstetregwyr, anesthetyddion a neonatolegwyr wedi cael eu recriwtio a'u cynefino. At ddibenion dyrannu achosion, cytunwyd ar dri chategori bras fel y nodir yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Categoriâu'r Adolygiadau Clinigol**

CATEGORI	DISGRIFIAD
1. Afiachedd a marwolaethau ymysg mamau	Y gofal a roddwyd i famau, gan gynnwys y rhai yr oedd angen eu hanfon i'r uned gofal dwys (ICU) o bosibl
2. Marw-enedigaethau	Babanod a oedd wedi cael eu geni'n farw
3. Afiachedd a marwolaethau ymysg babanod newydd-anedig	Babanod a fu farw yn dilyn genedigaeth neu a oedd angen gofal arbenigol

Cynhaliwyd astudiaeth beilot er mwyn 'profi'r' systemau a sefydlwyd ac i sicrhau cysondeb y dull gweithredu. Roedd y menywod yr oedd eu gofal yn cael ei adolygu wedi cael gwybod a chawsant eu gwahodd i rannu eu straeon i'w hystyried gan y timau adolygu ochr yn ochr â'u nodiadau clinigol.

## **Trydydd Adroddiad Cynnydd - Mis Ionawr 2020 i Fis Mawrth 2020 Cynnydd Cyson - Taith tuag at Welliant ar y Trywydd Iawn**

Cyn cyhoeddi trydydd adroddiad cynnydd y Panel ym mis Mai 2020, roedd graddfa ac effaith y goblygiadau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 newydd ddechrau dod i'r amlwg. Yng ngoleuni'r datblygiadau hyn, adolygodd y Panel ei arferion gweithio mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y dylai'r Panel barhau i ddarparu elfen gyson o drosolwg a chefnogaeth i'r daith y Bwrdd Iechyd tuag at welliant, er y byddai hynny yn llawer llai, gan wneud y defnydd mwyaf posibl o weithio o gartref a thechnolegau rhithiol.

Yn ei asesiad yn erbyn y cynllun gwella mamolaeth, nododd y Panel fod rhagor o gynnydd graddol wedi'i wneud, gan adrodd bod y Bwrdd Iechyd yn bendant ar y trywydd iawn nid yn unig i gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol, ond hefyd, ymhen amser, i ddarparu gwasanaeth mamolaeth y gallent hwy, eu staff a'u cymunedau fod yn falch ohono. Fodd bynnag, adroddodd y Panel ei bryderon ynghylch a fyddai'r Bwrdd Iechyd yn gallu cynnal y ffocws a'r ymrwymiad tymor hwy a oedd eu hangen i adeiladu ar y llwyfan cadarn yr oedd wedi'i greu o ystyried y cyfnod o ansicrwydd mawr yr oedd yn ei wynebu.

Yn ystod y cyfnod dan adolygiad, roedd y Panel wedi asesu tystiolaeth a oedd yn rhoi sicrwydd rhesymol bod 16 o argymhellion pellach wedi cael eu cyflawni, gan olygu bod dros hanner y 79 o argymhellion yn y cynllun gwella wedi cael eu rhoi ar waith gyda'r gweddill yn waith a oedd yn mynd rhagddo. Roedd hyn yn cynnwys y datblygiadau canlynol:-

- yr oedd y gwasanaeth profedigaeth wedi cael ei adolygu a gwelliannau wedi eu gwneud i sicrhau bod cymorth a chwnsela priodol ar gael i'r holl deuluoedd;
- yr oedd y tîm llywodraethu a risg mamolaeth wedi cael adnoddau priodol er mwyn sicrhau y gellid ymdopi â llwythi gwaith a bod cofnodion Datix (system ar gyfer cofnodi digwyddiadau cysylltiedig ag iechyd a diogelwch) yn cael eu hadolygu a'u graddio, a bod gweithredu arnynt yn briodol a phrydlon;
- erbyn hyn mae holl Aelodau Annibynnol y Bwrdd wedi cael hyfforddiant ar oblygiadau Deddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007, er mwyn deall yn well beth yw eu rôl o ran sicrhau diogelwch gwasanaethau'r Bwrdd;
- lluniwyd a darparwyd rhaglen hyfforddiant orfodol (yn cynnwys hyfforddiant mewn CTG, PROMPT, GAP a GROW) i'r holl staff meddygol a bydwreigiaeth a llwyddwyd i gyrraedd lefel uchel o gydymffurfiaeth.

Yr oedd y Panel hefyd wedi ailasesu nifer o argymhellion a gymeradwywyd yn ystod chwarteri blaenorol er mwyn sicrhau bod cynnydd wedi cael ei gynnal a bod newid wedi cael ei ymgorffori mewn ymarfer.

Ategwyd hyn ymhellach gan ymarfer 'triongli' a gynhaliwyd i ddarparu sicrwydd bod unrhyw faterion eraill a nodwyd gan gyrff rheoleiddio, fel Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), yn cael eu nodi ac yn cael sylw.

Y tu allan i'r cynllun gwella, roedd agor Canolfan Geni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ffurfiol ar 09 Mawrth 2020 yn ddigwyddiad symbolaidd a oedd hefyd yn rhoi gwir deimlad i'r Panel fod pethau'n newid er gwell.

Er bod angen mireinio'r IPAAF ymhellach a'i addasu'n gynyddol o hyd, dywedodd y Panel ei fod yn fodlon bod fframwaith asesu perfformiad a sicrwydd ymarferol ar waith. O ganlyniad, llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gwblhau ei hunanasesiad cyntaf yn erbyn y matrices aeddfedrwydd a daeth i'r casgliad bod pob maes yn dod o fewn 'Cynnydd Cynnar'.

Roedd y cynnydd cynnar a wnaed o ran ymgysylltu a chynnwys menywod a theuluoedd wedi cael ei atgyfnerthu, a dywedodd y Panel bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd mwy o gamau ymlaen a oedd yn amlwg yn dechrau newid natur a naws y berthynas rhwng y bobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth a'r rhai sydd yn ei ddarparu.

Roedd y rhaglen ymgysylltu gychwynnol wedi dod i ben ac roedd cynlluniau clir yn dod i'r amlwg ar gyfer gweithgareddau dros y 12 mis nesaf, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r adborth a gasglwyd o gam cychwynnol yr ymgysylltu.

O ran y rhaglen adolygiadau clinigol, dywedodd y Panel fod dau dîm adolygu amlddisgyblaeth arall wedi cael eu caffael, gan ganiatáu i'r ail gategori o adolygiadau gydredeg â'r cyntaf. Yn ogystal, gweithredwyd trefniadau sicrhau ansawdd i oruchwylio'r adolygiadau unigol, i dynnu sylw at y themâu a'r materion allweddol yn ogystal â sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu rhwng timau.

Aildrefnwyd tîm gwella'r Bwrdd Iechyd er mwyn darparu cymorth gyda mwy o ffocws i'r broses adolygiadau clinigol, a nodwyd capasiti ychwanegol er mwyn golygu nodiadau achos a phapurau cefnogol.

Roedd y broses hunanatgyfeirio, a oedd yn darparu llwybr i fenywod a theuluoedd nad oeddent yn dod o fewn cyfnod adolygu golwg yn ôl 2016-2018 ddod ymlaen a gofyn am ystyriaeth ar gyfer adolygiad clinigol, hefyd wedi cael ei chytuno a'i chymeradwyo.

## **Pedwerydd Adroddiad Cynnydd - Mis Mawrth 2020 i Fis Medi 2020 Cloddio'n Ddwfn - Dod Drwy Storm COVID-19**

Roedd y pedwerydd adroddiad cynnydd yn cydnabod, er bod COVID-19 yn ddiamau wedi cael effaith, bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud yn rhyfeddol o dda mewn amgylchiadau anodd a heriol i gynnal ffocws a momentwm a'i fod, wrth wneud hynny, wedi gwneud cynnydd graddol pellach o ran cyflawni yn erbyn ei gynlluniau gwella.

Er gwaethaf y pwysau mewn rhannau eraill o'r system gofal iechyd, roedd y Bwrdd Iechyd a'i uwch arweinwyr yn parhau wedi ymrwymo'n llwyr i'r rhaglen wella ac nid oedd wedi lleihau lefelau ymgysylltu yn y broses oruchwylio yn sylweddol.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, roedd y Panel wedi asesu'r dystiolaeth a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd ac wedi dod i'r casgliad bod 12 cam arall yn gyflawn. Roedd rhai o'r camau gweithredu a gyflawnwyd yn gamau sylweddol ymlaen yn nhaith gyffredinol y Bwrdd Iechyd tuag at welliant ac yn atgyfnerthu ymhellach y sylfeini a osodwyd. Yn benodol:-

- cafodd canllawiau mamolaeth eu hadolygu a'u diweddarau a rhoddwyd system gadarn ar waith i sicrhau bod y canllawiau diwygiedig, wrth symud ymlaen, yn cael eu sicrhau o ran ansawdd, yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a'u defnyddio'n ymarferol ar sail amlddisgyblaeth;
- roedd systemau ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau wedi cael eu cryfhau drwy ddefnyddio'r Datix yn fwy effeithiol, drwy wella hyfforddiant a chyflwyno fforymau amlddisgyblaeth i gynnwys staff meddygol a staff bydwreigiaeth yn y gwaith o ganfod, asesu ac ymateb i ddigwyddiadau niweidiol;
- bod y prosesau a oedd ar waith i sicrhau bod dysgu o ddigwyddiadau difrifol yn cael ei rannu â staff ar bob lefel mewn fformat rheolaidd a hygyrch wedi cael eu hadolygu a'u cryfhau;
- bod y fforwm 'My Maternity My Way' (MMMW) ei ailddatblygu a'i ail-egniō;
- bod digon o gynnydd wedi'i wneud o ran y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn rhyngweithio â menywod a theuluoedd;
- bod y gwelliannau a nodwyd gan y Colegau Brenhinol o ran dulliau gweithio ymgynghorwyr, darpariaeth ymgynghorwyr, goruchwylio hyfforddeion meddygol a datblygu rhaglenni addysgu amlddisgyblaeth ym marn y Bwrdd Iechyd wedi'u gwreiddio mewn ymarfer gweithredol.

Soniodd y Panel hefyd am ddatblygiadau eraill a oedd yn cryfhau capasiti a gallu'r Bwrdd Iechyd i gynnal gwelliannau yn y tymor hwy.

Yn fwyaf nodedig, roedd y Tîm Gwella Mamolaeth wedi cael ei integreiddio o fewn y gwasanaeth mamolaeth, gan alluogi newid i ddull gwella parhaus a oedd yn 'eiddo' i staff rheng flaen ac wedi'i wreiddio mewn gweithrediadau o ddydd i ddydd. Ar ben hynny, ymgorfforwyd gwelliannau i'r gwasanaeth newyddenedigol yn y Rhaglen Gwella Mamolaeth tra y cytunwyd ar drefniadau goruchwylio ar y cyd a sefydlwyd llinell sylfaen ar gyfer welliant pellach.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei ail hunanasesiad yn erbyn y matricsau aeddfedrwydd a daeth i'r casgliad bod lefel aeddfedrwydd yn erbyn y tri maes fel a ganlyn:-

- **Gofal Diogel ac Effeithiol** yn bendant yn y cam 'Canlyniadau', gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfedrwydd';
- **Ansawdd Profiad Menywod** yn y cam 'Canlyniadau' er bod rhai agweddau ar y gwasanaeth yn parhau i fod o fewn 'Cynnydd Cynnar';
- **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** yn y cam 'Canlyniadau' er bod rhai agweddau yn parhau i fod o fewn 'Cynnydd Cynnar'.

Roedd datblygiadau o ran ymgysylltu a chynnwys teuluoedd yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol a dulliau rhithiol eraill i gyfathrebu'n fwy helaeth â menywod am eu profiad mamolaeth yn ogystal ag esblygu'r fforwm My Maternity My Way, gan alluogi cydgynhyrchu a sicrhau bod llais menywod yn parhau i fod yn ganolog i ddatblygu gwasanaethau.

O ran ei raglen adolygiadau clinigol, dywedodd y Panel fod y trefniadau ar gyfer rheoli'r rhaglen yn gyffredinol wedi cael eu cryfhau a bod y Grŵp Prosiect gwreiddiol wedi cael ei ddisodli gan Fwrdd Prosiect a Grŵp Gweithrediadau. Roedd adolygiadau o fewn trydydd categori, a chategori olaf golwg yn ôl 2016-2018 wedi dechrau ac roedd y Panel yn paratoi i ysgrifennu at y menywod a'r teuluoedd a oedd yn rhan o'r adolygiadau afiachedd a marwolaethau ymysg mamau i'w gwneud yn ymwybodol o'u canfyddiadau. Ar ben hynny, roedd cyfran arall o ddigwyddiadau hunangyfeirio gofal wedi cael eu hadolygu ac roeddent yn cael eu hasesu.

Yn yr adroddiad, eglurodd y Panel bod ansawdd naw o adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol wedi'i sicrhau ond daeth y Panel i'r casgliad mai dim ond dau oedd wedi'u cwblhau i safon dderbyniol. Felly, o fewn y cyfnod hwn, cyfarfu'r Panel â'r Bwrdd Iechyd ac argymhellodd adolygiad o'r prosesau a oedd ar waith ar y pryd i sicrhau bod ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol yn cael eu cwblhau i safon resymol a bod menywod a'u teuluoedd yn cael eu cynnwys.

O ganlyniad, cytunodd y Bwrdd Iechyd i ymgymryd â darn sylweddol o waith i adolygu ei brosesau a'r ôl-groniad cynyddol o ddigwyddiadau difrifol.

## **Pumed Adroddiad Cynnydd - Mis Medi 2020 i Fis Medi 2021 Cloddio'n Ddwfn - Dod Drwy Storm COVID-19**

Oherwydd yr ymateb parhaus i'r pandemig, ni chyhoeddwyd adroddiad cynnydd ym mis Mai 2021, er y cyflwynwyd diweddariad a datganiad sefyllfa i'r Gweinidog.

Cytunwyd y dylid ymestyn y cyfnod adrodd i 12 mis oherwydd er nad oedd unrhyw arwyddion amlwg o lithro'n ôl ac, yn hytrach, rhywfaint o dystiolaeth o gamau bach ymlaen, ni fu cymaint o gynnydd pendant ag a welwyd mewn cyfnodau adrodd blaenorol. Nid oedd hyn yn annisgwyl o ystyried cyd-destun gwaith y Bwrdd Iechyd ar y pryd.



Yn ei bumed adroddiad, rhoddodd y Panel fanylion cyfres o fesurau a roddwyd ar waith gan y Bwrdd Iechyd i adfywio'r rhaglen wella, er mwyn adennill y momentwm a gollwyd yn ystod yr ymateb i COVID-19. Roedd y mesurau hyn yn cynnwys:-

- penodi Cyfarwyddwr Rhaglen penodol gyda phrofiad sylweddol o reoli rhaglenni newid a diwygio gwasanaethau ar raddfa fawr;
- datblygu methodoleg fwy cadarn ar gyfer rheoli rhaglenni yn rhoi pwyslais cliriach ar ganlyniadau, yr elfennau allweddol i'w cyflawni ac amserlenni;
- proses ddiwygiedig ar gyfer adolygu tystiolaeth, a luniwyd i sicrhau bod y dystiolaeth sy'n dangos cyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol yn cael ei chofnodi, ei dadansoddi a'i herio, cyn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a'r Panel am ystyriaeth a chymeradwyaeth bosibl;
- gwell trefniadau monitro a goruchwylio mewnol, drwy roi bywyd newydd i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a Phwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd;
- cynllunio a chyflawni llawer o gonglfeini allweddol camau nesaf y broses wella (gan gynnwys cynllun gweithredu (gan gynnwys 'map', cynllun cerrig milltir wedi'i ddiwygio gydag elfennau allweddol i'w cyflawni ac amserlenni cliriach, a chynlluniau i ddatblygu gweledigaeth bum mlynedd ar gyfer dyfodol gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol);
- integreiddio'n agosach â rhaglen datblygu corfforaethol y Bwrdd Iechyd ac aliniad gwell â'r fframwaith asesu ymyriadau wedi'u targedu.

Adroddodd y Panel ar datblygiadau calonogol mewn meysydd eraill hefyd, y tu hwnt i'r trefniadau rheoli rhaglenni. Er enghraifft:-

- gwnaed penodiadau i nifer o swyddi arweinyddiaeth feddygol allweddol a oedd heb eu llenwi;
- datblygu cynllun realistig, gyda chefnogaeth yr Uned Gyflawni, i gwblhau'r ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol ar ôl 2018 a oedd yn dal heb eu gorffen.

Daeth y pumed adroddiad i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd, er gwaethaf heriau parhaus pandemig COVID-19, mewn perthynas â'i wasanaethau mamolaeth, yn gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd yn adroddiad y Colegau Brenhinol.

Er ei fod yn cydnabod bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, pwysleisiodd y Panel fod yr argymhellion yr oedd y gwasanaeth mamolaeth wedi'u cyflawni hyd at y pwynt hwnnw yn rhai o natur weithrediadol gan fwyaf; roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â gwelliannau yn y systemau, y prosesau a'r gweithdrefnau yr oedd angen eu rhoi ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn ddiogel ac yn effeithiol, yn cael ei arwain yn dda, yn cael ei reoli'n dda ac yn canolbwyntio ar anghenion defnyddwyr y gwasanaeth.

Dywedodd y Panel fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y gwelliannau hynny'n gynaliadwy, ac y byddai hyn yn golygu newid i ddull mwy trawsnewidiol, yn enwedig i fynd i'r afael â rhai o'r anghenion datblygu mwy heriol a thymor hwy yn gysylltiedig â diwylliant, arweinyddiaeth a strategaeth y sefydliad.

Eglurodd y Panel hefyd y byddai angen gwneud rhai addasiadau o ran sut mae cynnydd y Bwrdd Iechyd yn cael ei asesu oherwydd y ffordd yr oedd y Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol yn esblygu. Roedd hyn yn gofyn am symud oddi wrth argymhellion y Colegau Brenhinol fel y prif ddangosydd cynnydd.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei ail hunanasesiad yn erbyn y matricesau aeddfedrwydd a daeth i'r casgliad bod lefel aeddfedrwydd yn erbyn y tri maes fel a ganlyn:-

- **Gofal Diogel ac Effeithiol** yn bendant yn y cam 'Canlyniadau', gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfedrwydd';
- **Ansawdd Profiadau Menywod** yn bendant yn y cam 'Canlyniadau', gyda nifer o agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfedrwydd';
- **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** yn bendant yn y cam 'Canlyniadau', gyda llawer o agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Aeddfedrwydd'.

Ni chafodd hunanasesiad yr IPAAF ei gwblhau ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol yn ystod y cyfnod adrodd hwn, am nad oedd yr adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol, a gomisiynwyd ar y cyd gan y Panel a'r Bwrdd Iechyd yn gynharach y flwyddyn honno, wedi'i gwblhau'n llawn.

Fodd bynnag, fe wnaeth y Panel roi diweddariad ar gynnydd yr adolygiad manwl a thynnodd sylw at y ffaith bod rhai materion wedi'u nodi mewn perthynas â gwasanaeth newyddenedigol Ysbyty'r Tywysog Siarl a allai, o bosibl, effeithio ar gysondeb diogelwch. Roedd y rhain wedi cael eu huwchgwyfeirio i'r Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru i weithredu arnynt ar unwaith ac roedd y Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i fynd i'r afael â nhw.

Adroddodd y Panel fod Cynllun Ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-2023, wedi ei gwblhau'n derfynol a'i gyflwyno i'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ym mis Rhagfyr 2020. Roedd y cynllun yn cynnwys map proses y cylch ymgysylltu ac yn cwmpasu'r methodolegau niferus a oedd ar waith gan y gwasanaeth bryd hynny er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chasglu adborth, yn ychwanegol at y dulliau eraill yr oedd y gwasanaeth wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith yn y dyfodol agos.

Carreg filltir allweddol a gyflawnwyd tua diwedd y cyfnod adrodd hwn oedd gweithredu'r PREMs (Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion) sy'n canolbwyntio ar gasglu ac asesu profiadau menywod ar sail ansawdd y gofal a dderbyniant, yn hytrach na chanolbwyntio ar statws eu hiechyd neu ar ganlyniadau eu gofal a'u triniaeth. Nododd y Panel yn ei adroddiad y byddai'n disgwyl, wrth fynd ymlaen, i'r mecanweithiau ar gyfer casglu a dadansoddi adborth o PREMs fod ar waith yn llawn a bod themâu a materion allweddol yn cael eu hadrodd yn rheolaidd ac yn cael sylw systematig.

O ran y rhaglen adolygiadau clinigol, cafodd [adroddiad](#) yn crynhoi'r canfyddiadau a'r dysgu o'r categori cyntaf a oedd yn canolbwyntio ar famau yr oedd angen gofalu am famau yr oedd angen gofal brys arnynt yn ystod genedigaeth (categori mamolaeth), ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2021. Dywedodd y Panel, ers hynny, fod yr ail categori a oedd yn edrych ar y gofal a ddarparwyd i fenywod a'u babanod a oedd, yn drist iawn yn farw-anedig (categori marw-anedig) wedi dod i ben a'r canfyddiadau wedi'u casglu ynghyd mewn [adroddiad](#) a gyhoeddwyd ochr yn ochr ag adroddiad mis Medi 2021. Cadarnhaodd y Panel fod ei ffocws wedi symud tuag at y categori terfynol a oedd yn cynnwys adolygiadau o ofal mamau a'u babanod a fu farw yn anffodus neu yr oedd angen gofal newyddenedigol arbenigol arnynt ar ôl genedigaeth (categori newyddenedigol).

## **Chweched Adroddiad Cynnydd - Mis Medi 2021 i Fis Ebrill 2022 Creu'r Amodau ar gyfer Gwella Cynaliadwy**

Yn ei chweched adroddiad cynnydd, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022, roedd y Panel yn cydnabod, er gwaethaf yr heriau gweithredol parhaus, bod clinigwyr rheng flaen, rheolwyr gweithredol ac uwch arweinwyr y Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ac ymgysylltu â'r gwaith o hybu gwelliannau yn y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Ar yr un pryd, roedd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd yn parhau i graffu a herio'r Rhaglen Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol, gan sicrhau goruchwyliaeth fwyfwy effeithiol ar lefel y Bwrdd o'r daith tuag at welliant.

Cadarnhaodd y Panel, ar ddiwedd y cyfnod adrodd, bod 62 (89%) o 70 o argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael eu dilysu gan y Panel fel rhai wedi'u cyflawni'n llawn, gyda'r wyth arall (11%) yn cael eu hystyried yn waith a oedd yn mynd rhagddo ar wahanol gamau cyflawni. O ganlyniad, gwnaeth y Panel argymhelliad ffurfiol i'r Gweinidog yn ei adroddiad y dylid dirwyn proses argymhellion y Colegau Brenhinol i ben. Derbyniwyd hyn gan y Gweinidog a chytunwyd y byddai unrhyw elfennau a oedd yn weddill o'r argymhellion yn cael eu trefnu i'w cyflawni yng Nghynllun Gwella Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol y Bwrdd Iechyd yn y tymor hwy.

Esboniodd y Panel fod yr adolygiad manwl o'r gwasanaethau newyddenedigol wedi dod i ben ym mis Tachwedd 2021 a bod [adroddiad](#) yn nodi'r canfyddiadau wedi ei gyhoeddi gan y Gweinidog ym mis Chwefror 2022. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod angen gwella'r gwasanaeth newyddenedigol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn sylweddol, a chyflwynodd 42 o argymhellion. Cafodd pob un o'r rhain eu derbyn yn ddiweddarach gan y Bwrdd Iechyd.

O ran cynnydd yn erbyn yr argymhellion, dywedodd y Panel, er ei fod wedi gobeithio gweld tystiolaeth fwy pendant, bod nifer o faterion sy'n hollbwysig i ddiogelwch wedi cael sylw a bod y prosesau allweddol wedi eu rhoi ar waith i gefnogi gwelliannau parhaus. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft:-

- camau i wella safonau rhagnodi a datblygu nifer o gynlluniau i newid arferion rhagnodi;
- darpariaeth well o ran meddygon ymgynghorol yn ystod y dydd sydd bellach yn rhedeg rhwng 08:30 a 16:30, gydag amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith newyddenedigol wedi'i gytuno yng nghynlluniau gwaith nifer o feddygon ymgynghorol;
- ffocws clir ar wella safonau dogfennau gyda chynlluniau ar waith i ddatblygu hyn ymhellach;
- tystiolaeth o gydweithio mwy effeithiol rhwng y timau newyddenedigol a mamolaeth.

Yn ystod mis Ebrill 2022, cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ei bumed hunanasesiad yn erbyn matricesau aeddfedrwydd yr IPAAF. Yn ei adroddiad roedd y Panel o'r farn bod yr IPAAF wedi'i wreiddio yn y rhaglen wella a'i fod wedi cael ei berchenogi gan y gwasanaeth amenedigol fel dull o bwysu a mesur a gwerthuso'r dysgu.

Ar sail ei hunanasesiad, daeth y Bwrdd Iechyd i'r casgliad canlynol o ran lefel aeddfedrwydd ar sail yr IPAAF mamolaeth:-

- **Gofal Diogel ac Effeithiol** bellach yn y cam 'Aeddfedrwydd' ar ôl symud o 'Canlyniadau' yn yr hunanasesiad blaenorol. Roedd nifer o ffactorau yn ategu'r sefyllfa hon, gan gynnwys:-
  - datblygu'r Fframwaith Sicrwydd Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol drafft;
  - cydymffurfiaid ar lefel uchel gyda hyfforddiant PROMPT wedi'i gynnal;
  - sefydlu byrddau trosglwyddo digidol;
  - cyflwyno monitorau CTG newydd a hyfforddiant cysylltiedig.
- **Ansawdd Profiadau Menywod** yn bendant yn y cam 'Aeddfedrwydd' gyda rhai elfennau'n nesáu at statws 'Enghraifft o Ragoriaeth'. Roedd y sefyllfa hon, sy'n welliant ar yr hunanasesiad blaenorol, yn cael ei ategu gan nifer o ffactorau, gan gynnwys:-
  - cyd-gynhyrchu gwybodaeth cleifion a lloïo dros adolygu'r cyfyngiadau ymweld drwy'r fforwm My Maternity My Way;

- cynllun ymgysylltu wedi'i adolygu a'i adnewyddu;
  - rhith-deithiau a lansiad y wefan gyhoeddus;
  - digwyddiadau ymgysylltu llwyddiannus ar-lein, gan gynnwys sesiwn ar fwydo babanod yn cael ei wyllo dros 2,800 o weithiau ar-lein.
- **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** yn aros yn y cam 'Canlyniadau' gyda nifer o agweddau yn nesáu at 'Aeddfedrwydd'. Roedd nifer o ffactorau yn ategu'r sefyllfa hon, gan gynnwys:-
    - gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn yr Undebau Llafur;
    - llwyddo i reoli'r gwaith a oedd wedi ôl-gronni o ran ymchwilio i ddigwyddiadau difrifol ar y cyd â'r Uned Gyflawni;
    - datblygu fframwaith Dadansoddiad o Anghenion Dysgu;
    - ymgysylltiad staff â thriwriaeth y Grŵp Gwasanaethau Clinigol (CSG).

Dywedodd y Panel bod y newid o 'Canlyniadau' i 'Aeddfedrwydd' yn y meysydd Gofal Diogel ac Effeithiol ac Ansawdd Profiadau Menywod yn garreg filltir bwysig i'r Bwrdd Iechyd mewn perthynas â'i wasanaethau mamolaeth. Yr oedd yn dangos bod y gwasanaeth bellach yn cael ei ddarparu'n gyffredinol i'r safonau a ddisgwylir gan wasanaeth mamolaeth sy'n gweithredu ar y lefel hon yn system iechyd y DU.

Nododd y Panel bod y maes Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn dal i fod yn y cam 'Canlyniadau', yn bennaf oherwydd mai dyna lle roedd llawer o'r gwaith tymor hwy mewn perthynas â diwylliant, arweinyddiaeth a strategaeth.

O ran y gwasanaeth newyddenedigol, ar sail ei hunanasesiad, daeth y Bwrdd Iechyd i'r casgliad canlynol o ran lefel aeddfedrwydd yn erbyn y tri maes yn IPAAF y gwasanaeth newyddenedigol:-

- **Gofal Diogel ac Effeithiol** yn y cam 'Cynnydd Cynnar' gyda nifer o agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Canlyniadau'. Roedd y sefyllfa hon, a oedd heb newid o'r hunanasesiad blaenorol, yn cael ei ategu gan nifer o ffactorau gan gynnwys:-
  - datblygu'r Fframwaith Sicrwydd Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol drafft;
  - rhoi trefniadau ar waith ar gyfer cymorth canolfan drydyddol gydag ymweliadau gan feddygon ymgynghorol â'r uned drydyddol a threfniadau cylchdroi nyrsys yn dechrau ym mis Ebrill 2022;
  - sefydlu hyfforddiant efelychu amlddisgyblaethol;
  - cytuno ar gynllun archwilio ar draws y ddau safle ar gyfer 2022/23.
- **Ansawdd Profiadau Teuluoedd** yn bendant yn y cam 'Cynnydd Cynnar'. Roedd y sefyllfa hon, a oedd eto heb newid, yn cael ei ategu gan nifer o ffactorau, gan gynnwys:-
  - hysbysebu secondiad ar gyfer swydd yr Arweinydd Ymgysylltu;

- sefydlu sesiynau ôl-gyfarfod ar y cyd â'r gwasanaeth pediatreg a mamolaeth ar gyfer teuluoedd sydd wedi cael profiad o ddigwyddiad trawmatig;
  - mecanweithiau ar waith i fonitro pryderon teuluoedd ar ffurf cyfarfodydd llywodraethu bob yn ail wythnos;
  - nifer isel o bryderon neu gwynion yn ymwneud â'r gwasanaeth newyddenedigol yn cael eu codi.
- **Ansawdd Arweinyddiaeth a Rheolaeth** yn bendant yn y cam 'Cynnydd Cynnar' gyda rhai agweddau ar y gwasanaeth yn nesáu at 'Canlyniadau'. Roedd y sefyllfa hon yn ddigyfnewid hefyd, gyda nifer o ffactorau yn ategu hynny, gan gynnwys:-
    - cynnal cydymffurfriad BAPM ar gyfer lefelau staff nyrsio;
    - gwelliannau o ran ansawdd data a datblygu dangosfwrdd;
    - argaeledd cymorth seicolegol i staff;
    - polisi galwad neidio ar waith ac yn grymuso staff.

Adroddwyd bod yr asesiad bod y gwasanaeth newyddenedigol o fewn 'Cynnydd Cynnar' yn adlewyrchu'r ffordd yr oedd y gwasanaeth ar gam gwahanol iawn yn ei daith tuag at welliant o'i gymharu â'r gwasanaeth mamolaeth. Fodd bynnag, tynnodd y Panel sylw at y ffaith bod cyswllt annatod rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol ac na ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain; maent yn darparu un llwybr ar gyfer gofalu am famau a babanod. Yn ei adroddiad roedd y Panel yn cydnabod rhai datblygiadau allweddol o ran gweithio ar y cyd a oedd yn cefnogi'r asesiad cyffredinol o gynnydd a oedd yn cynnwys cysoni prosesau, polisïau a chanllawiau'n well.


Ochr yn ochr yn ochr â'r chweched adroddiad cynnydd, cyhoeddodd y Panel [adroddiad](#) hefyd yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ac yn nodi'r hun a ddysgwyd o'r trydydd categori a'r categori terfynol (newyddenedigol) yn y rhaglen adolygiadau clinigol.

Adroddwyd, er bod goleuni pellach wedi'i daflu yn y categori hwn, nid oedd Panel yn credu bod unrhyw beth sylfaenol newydd wedi dod i'r amlwg y tu hwnt i'r themâu allweddol a nodwyd yn y ddau gategori cyntaf neu yn yr asesiadau achos clinigol a gynhaliwyd fel rhan o'r adolygiad manwl o'r gwasanaeth newyddenedigol.

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Panel hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am reoli digwyddiadau difrifol. Roedd yr Uned Gyflawni wedi ymgymryd â darn penodol o waith sicrwydd yng ngwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol y Bwrdd lechyd i gryfhau eu prosesau a'u systemau ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau a dysgu o ddigwyddiadau, yn ogystal â'u helpu i flaenoriaethu'r digwyddiadau difrifol sydd wedi ôl-gronni ac i ddelio â nhw'n brydlon.

Ym mis Ebrill 2022, cyflwynodd yr Uned Gyflawni ei hadroddiad terfynol a ddaeth i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran rheoli digwyddiadau difrifol gan ei wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Dywedodd y Panel, er bod gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod gwelliannau'n gynaliadwy a bod pob elfen o argymhellion blaenorol yn cael eu cyflawni'n llawn, y dylid cydnabod hyn fel cyflawniad sylweddol gan y Bwrdd Iechyd.

## 16 Atodiad D - Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd





## 17 Atodiad E - Meini Prawf Llwyddiant y Cytunwyd Arnynt ar gyfer Amodau ar gyfer Cynaliadwyedd

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>Llywodraethu Corfforaethol</b>	Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (Q&SC) yn goruchwyllo ac yn craffu'n effeithiol ac yn gyson ar y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwelliant mamolaeth a newyddenedigol yn parhau i fod yn eitem sefydlog ar yr agenda yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.</li> <li>Cyflwyno gwybodaeth glir yn seiliedig ar dystiolaeth (h.y. dangosfyrddau) wedi'i driongli gydag adborth ansoddol fel sail ar gyfer goruchwyllo a chraffu gan Aelodau Annibynnol.</li> <li>Cofrestrau risg y gwasanaeth yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.</li> <li>Sefydlu dangosfyrddau y gwasanaeth Mamolaeth a Newyddenedigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sylwadau y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd.</li> <li>Papurau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.</li> <li>Papurau'r Bwrdd.</li> <li>Papurau MNIB.</li> <li>Arddangosiad Rheoli'r Rhaglen.</li> <li>Dangosfyrddau Mamolaeth a Gofal Newyddenedigol a thystiolaeth bod y rhain yn llywio llywodraethu ar bob lefel (h.y. adroddiadau CSG / ILG).</li> <li>Fframwaith sicrwydd gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol diweddaraf ar gyfer y Grŵp Gofal.</li> <li>Arddangosiad Data.</li> </ul>
<b>Ymchwilio i Ddigwyddiadau Difrifol</b>	Mae argymhellion Uned Gyflawni GIG (Cymru) wedi'u cyflawni a'u cymeradwyo; ymchwiliadau effeithiol yn cael eu cynnal ar sail 'busnes fel arfer'; yr holl ddysgu'n cael ei nodi a'i rannu'n rheolaidd fel mater o drefn ac mae dystiolaeth bod hyn yn arwain at welliannau mewn gofal.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Yr ôl-groniad o achosion difrifol (SI) wedi'i gwblhau.</li> <li>Paneli Sicrhau Ansawdd wedi'u gwreiddio mewn gweithrediadau arferol.</li> <li>Camau gweithredu a etifeddwyd o adroddiad yr Uned Gyflawni (DU) (h.y. organogram, system Datix) wedi'u trosglwyddo i'r cynllun cerrig milltir ar gyfer cyflawni.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Arddangosiad SI.</li> <li>Adroddiad yr Uned Gyflawni ar systemau a phrosesau ar gyfer rheoli SI.</li> <li>Cynllun cerrig milltir / adroddiad uchafbwyntiau.</li> <li>Fframwaith rheoli digwyddiadau.</li> <li>Fframwaith gwrando a dysgu.</li> </ul>

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>Argymhellion y Colegau Brenhinol</b>	Proses argymhellion y Colegau Brenhinol wedi cael ei chyflawni; yr holl argymhellion naill ai wedi cael eu hardystio gan y Panel fel rhai sydd wedi'u cyflawni neu'n rhai y trefnwyd i'w cyflawni yng Nghynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol tymor hwy y Bwrdd Iechyd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Camau gweithredu a etifeddwyd wedi'u trosglwyddo i gynllun cerrig milltir ar gyfer cyflawni.</li> <li>• Cynllun cerrig milltir yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.</li> <li>• Y Bwrdd wedi cymeradwyo argymhellion/cynllun gweithredu'r Colegau Brenhinol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun cerrig milltir / adroddiad uchafbwyntiau.</li> <li>• Arddangosiad Rheoli'r Rhaglen.</li> <li>• Adroddiad cau argymhellion y Colegau Brenhinol.</li> </ul>
<b>Newyddenedigol Cynnar - Gwasanaeth Newyddenedigol</b>	Y Panel wedi cadarnhau bod yr argymhellion yn yr Adolygiad Manwl o Wasanaethau Newyddenedigol a oedd yn gofyn am weithredu ar unwaith wedi cael eu cwblhau ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch yr uned; cynllun i gyflawni'r argymhellion sy'n weddill wedi cael ei ddatblygu a'i gytuno gan y Panel.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• 19 o gamau gwella ar unwaith wedi'u cyflawni a'u cadarnhau.</li> <li>• Diffiniadau a blaenoriaethau wedi'u cytuno ar gyfer camau gwella / argymhellion sydd ar ôl.</li> <li>• Tîm clinigol yn defnyddio cefnogaeth ac arbenigedd allanol i gyflymu camau gwella drwy sesiynau dal i fyny clinigol rheolaidd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Proses adolygu tystiolaeth newyddenedigol (dilysu drwy ffurflenni adborth IMSOP).</li> <li>• Camau gweithredu ar unwaith wedi cael sylw yng nghynllun cerrig milltir y gwasanaeth newyddenedigol sy'n gysylltiedig â 7 ffrwd waith y cytunwyd arnynt / adroddiad uchafbwyntiau.</li> <li>• Fersiwn terfynol - dogfen ddisgrifio argymhellion ac uwchgyfeirio.</li> </ul>

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>Rhaglen Adolygiadau Clinigol</b>	Mae'r Rhaglen Adolygiadau Clinigol wedi'i chwblhau'n llwyr; rhoddwyd sylw llawn i'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu'r Bwrdd Iechyd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Mae cyflawni amod SI yn llawn yn rhagofyniad ar gyfer cyflawni'r amod hwn.</i></li> <li>• Proses hunangyfeirio cyn-2016 wedi'i chytuno a'i sefydlu.</li> <li>• Pob achos golwg yn ôl 2016-2018 wedi'u cau gan y bwrdd iechyd – gan gynnwys 35 SI a oedd angen cymeradwyaeth weithredol.</li> <li>• Argymhellion adroddiad thematig o farw-enedigaethau wedi cael sylw yn y ffrydiau gwaith presennol.</li> <li>• Cynlluniau clir o fewn ffrydiau gwaith presennol i fynd i'r afael â'r meysydd ffocws a amlinellwyd yn adroddiad thematig y gwasanaeth newyddenedigol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad hunanatyfeirio.</li> <li>• Cyflwyno'r broses cau / dadansoddiad o'r bylchau.</li> <li>• Ymarfer samplu ar hap.</li> <li>• Adroddiad uchafbwyntiau.</li> <li>• Adroddiad adolygu'r dadansoddiad thematig o farw-enedigaethau 12-18 mis.</li> </ul>

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>Strategaeth Ymgysylltu Mamolaeth</b>	<p>Y strategaeth yn cael ei chyflawni yn unol â'r cynllun a'r amserlen; y broses Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion (PREMs) wedi'i sefydlu; tystiolaeth bod allbynnau PREMs a data o ffynonellau ymgysylltu eraill yn cael eu gwerthuso'n systematig ac yn gyrru gwelliannau pendant i'r gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• PREMs wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn a'u cyflwyno i'r gwasanaethau mamolaeth.</li> <li>• Gwybodaeth ansoddol, gan gynnwys adborth gan MMMW, yn cael ei defnyddio ochr yn ochr â data meintiol i lywio'r gwaith o ddylunio a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol.</li> <li>• Ffrwd waith Ansawdd Profiad Menywod (QWE) wedi'i rhoi o'r neilltu ac asesiad annibynnol o ansawdd ar waith.</li> <li>• Adborth systematig i fenywod, teuluoedd a chymunedau ynghylch effaith y cynnyrch ymgysylltu.</li> <li>• Pryderon o ran cyrraedd y targed 30 diwrnod, gydag ansawdd yr ymateb yn cael ei fonitro drwy gyfraddau ail-agor a boddhad.</li> <li>• Dull tymor hir o integreiddio ymgysylltiad mamolaeth a newyddenedigol wedi'i gytuno.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiadau data PREMS / pryderon a champau gweithredu wedi cael eu cyflwyno ar bob lefel llywodraethu (WESEE, MNIB, ILG/CSG, Q&amp;SC).</li> <li>• Arddangosiad ar ddata PREMS a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau.</li> <li>• Cyflawni yn erbyn mesurau/terfynau amser a nodir yn y Strategaeth Ymgysylltu Mamolaeth.</li> <li>• Adborth rheolaidd ar effaith ymgysylltu drwy wefan CTM a'r cyfryngau cymdeithasol.</li> <li>• Strategaeth Ymgysylltu Corfforaethol a chanllawiau PTR.</li> </ul>

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>Arweinyddiaeth Feddygol</b>	<p>Arweinyddiaeth feddygol yn amlwg ac yn effeithiol; mae cymorth datblygu arweinyddiaeth ar waith ac mae'r corff ymgynghorwyr yn ei gyfanwydd yn cyfrannu'n frwd at y gwaith o wella'r gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cydymffurfio â gofynion hyfforddi gorfodol.</li> <li>• Meddygon yn ymgysylltu â chyrsgiau datblygu arweinyddiaeth corfforaethol neu allanol.</li> <li>• Meddygon yn ymwneud yn rheolaidd â'r fframwaith llywodraethu ac yn mynd ati'n weithredol i ddatblygu gwasanaethau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trafodaeth gyda'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Pobl ar y cyswllt rhwng Arweinyddiaeth Feddygol y gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol a'r gwaith Arweinyddiaeth a Diwylliant Ymyriadau wedi'u Targedu (TI).</li> <li>• Y corff ymgynghorwyr yn manteisio ar gynigion datblygu arweinyddiaeth corfforaethol ac allanol.</li> <li>• Presenoldeb a mewnbwn i newidiadau i'r model gweithredu a chynllunio strategaeth gwasanaethau clinigol, sgysgiau 1:1 gyda Chyfarwyddwyr Clinigol obstetreg a newyddenedigol.</li> <li>• Arddangosiad drwy ymweliad IMSOP/ grŵp ffocws ymgynghorwyr.</li> </ul>

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>IPAAF</b>	Mae'r IPAAF yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ar lefel y gwasanaeth a'r Bwrdd er mwyn ystyried a gwerthuso cynnydd yn rheolaidd; aseswyd bod y gwasanaeth mamolaeth wedi cyrraedd lefel 'aeddferwydd' ar gyfer gofal diogel ac effeithiol, gyda'r meysydd eraill yn symud tuag at aeddferwydd; aseswyd bod y gwasanaeth newyddenedigol ar lefel 'canlyniadau' ym mhob un o'r tri maes; tystiolaeth gynnar o gynnydd yn erbyn y metrigau allweddol y cytunwyd arnynt.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ail-gynnal hunanasesiad IPAAF ym mis Awst.</li> <li>• Y gwasanaeth mamolaeth wedi'i asesu ar lefel 'aeddferwydd' ar gyfer gofal diogel ac effeithiol gyda meysydd eraill yn symud tuag at aeddferwydd.</li> <li>• Y gwasanaeth newyddenedigol wedi'i asesu ar lefel 'canlyniadau' ym mhob un o'r tri maes.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau cyfarfodydd hunanasesu IPAAF (lefel CSG, trafodaeth gydag SRO, lefel Bwrdd).</li> <li>• Dangosfyrddau mamolaeth a newyddenedigol.</li> </ul>
<b>Gwella Ansawdd (QI)</b>	Mae dull gwella ansawdd yn ei le sy'n cyd-fynd â'r trefniant iCTM corfforaethol; mae cynllun gwella ansawdd a phrosiectau gwella ansawdd yn eu lle ac mae tystiolaeth bod mân newidiadau graddol yn cael eu cyflawni.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Prosiectau Gwella Ansawdd wedi'u sefydlu ac yn cyd-fynd â threfniadau iCTM corfforaethol.</li> <li>• Dull gweithredu a chynllun gwella ansawdd wedi'i gymeradwyo a'r adnoddau yn eu lle.</li> <li>• Hyfforddiant gwella ansawdd wedi'i gyflwyno drwy'r gwasanaeth yn unol â'r cynllun.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Drafft terfynol y cynllun Gwella Ansawdd.</li> <li>• Lefelau hyfforddi Gwella Ansawdd.</li> <li>• Arddangosiad Gwella Ansawdd yn dangos prosiectau a staff sy'n ymwneud â Gwella Ansawdd ac mae'r prosiectau hyn yn rhai aml-ddisgyblaeth o ran natur.</li> <li>• Disgrifiad swydd ar gyfer rôl Rheolwr Gwella Ansawdd.</li> </ul>

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>Rheoli Rhaglenni</b>	Mae strwythur rheoli rhaglenni effeithiol yn ei le, sy'n diffinio amcanion y gwaith gwella, ac mae ganddo gynlluniau sy'n dangos sut mae'r gwaith yn cael ei gyflawni a pha rwystrau allai effeithio ar eu cyflawni neu ar y canlyniadau; mae trefniadau adrodd effeithiol, agored a thryloyw yn perthyn i'r strwythur, gyda goruchwyliaeth effeithiol gan y Bwrdd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn ôl y diffiniad.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fframwaith rheoli rhaglen.</li> <li>• Cofrestr Risg y rhaglen.</li> <li>• Cynllun cerrig milltir.</li> <li>• Arddangosiad rheoli rhaglen.</li> <li>• Strwythur rheoli'r rhaglen.</li> <li>• Cynlluniau trawsnewid MNIP.</li> </ul>
<b>Newid Diwylliant</b>	Mae tystiolaeth o newidiadau cadarnhaol o ran diwylliant mewn meysydd allweddol fel cydweithio rhwng y gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol, gweithio amlddisgyblaethol a mynd i'r afael â'r diwylliant o weld bai.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar amcanion, dull gweithredu a chynllun.</li> <li>• Ail-gynnal arolwg ciplun.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun datblygu diwylliant ac arweinyddiaeth.</li> <li>• Arolygon staff / arolygon pwls.</li> <li>• Sgyrsiau â staff yn ystod ymweliad IMSOP pellach.</li> <li>• Arddangosiad bach yn yr MNIB nesaf.</li> <li>• Canllawiau rhyddid i siarad.</li> <li>• Y diweddaraf am ymgysylltu â staff yn MNIB.</li> </ul>
<b>Gwelliannau Tymor Hwy i'r Gwasanaeth Newyddenedigol</b>	Cynlluniau gwella tymor hwy yn gredadwy gydag amserlen a llwybr clir; mae tystiolaeth o gynnydd ystyrion yn erbyn yr elfennau hynny yn y cynllun gwella sy'n gofyn am ymatebion tymor byr a chanolig, yn enwedig yr argymhellion hynny sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â theuluoedd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffiniadau ac amserlenni cyflawni y cytunwyd arnynt ar gyfer argymhellion / camau gwella tymor hir sydd ar ôl.</li> <li>• Cytundeb ar sut yr eir i'r afael â'r camau hyn a'u goruchwyllo.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun gwella'r gwasanaeth newyddenedigol yn gysylltiedig â 7 ffrwd waith y cytunwyd arnynt / adroddiad uchafbwyntiau.</li> <li>• Drafft terfynol o strategaeth ymgysylltu'r gwasanaeth newyddenedigol a chynlluniau i integreiddio â'r strategaeth ymgysylltu mamolaeth.</li> </ul>

Maes	Amod	Meini Prawf Llwyddiant	Tystiolaeth a Awgrymir
<b>Gweledigaeth Strategol</b>	<p>Wedi'i datblygu, ei chymeradwyo a'i chyfathrebu â'r cyhoedd; cyflawnwyd y camau cynnar gan roi hyder y bydd modd cyflawni gwelliannau parhaus cynaliadwy yn y tymor hwy.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweledigaeth yn seiliedig ar gynnyrch ymgysylltu ac yn cydfynd â gwaith cenedlaethol (wedi'i chymeradwyo drwy brosesau llywodraethu mewnol).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Drafft cyntaf y strategaeth.</li> <li>Deunydd o ymgysylltu â staff.</li> <li>Deunydd o ymgysylltu â menywod a theuluoedd.</li> <li>Presenoldeb a deunydd gweithdai ar gyfer staff ac arweinwyr.</li> </ul>



## 18 Atodiad F - Y Sefyllfa yn Erbyn Camau Brys yr Adolygiad Manwl o'r Gwasanaeth Newyddenedigol

	Angen Gwelliant	Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno	Sefyllfa
<b>ESC. 1</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd gyflwyno mesurau diogelu ar unwaith i gefnogi'r broses o roi presgripsiynau'n ddiogel yn ymarferol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Canllawiau presgripsiynu da ar gael ac yn cael eu harddangos i'r holl grwpiau staff eu defnyddio.</li> <li>• Hyfforddiant staff i'r holl staff ar bresgripsiynu.</li> <li>• Staff i wrthod presgripsiynau nad ydynt yn dilyn y canllawiau presgripsiynu da.</li> <li>• Taflen nodiadau byr ar gyfer nyrsys ar ffurf pwyntiau bwled er mwyn gwirio camau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ddiogel.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 2</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd barhau i ddangos gwelliant yn y berthynas waith gyda'r gwasanaethau mamolaeth mewn sawl maes.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr i fenywod beichiog i sicrhau cynllun clir ar gyfer asesu a throsglwyddo menywod sydd mewn perygl o fod angen gofal dwys i'r newydd-anedig, yn benodol y rheini sydd y tu allan i gwmpas ymarfer ar gyfer gwasanaeth newyddenedigol y Bwrdd lechyd.</li> <li>• Prosesau clir i nodi newid o ran canlyniadau lle nad yw'n bosibl ymgymryd â throsglwyddiad menywod beichiog, gan gynnwys tystiolaeth o adolygiad trylwyr o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau a rheoli gwasanaethau mamolaeth.</li> <li>• Dulliau archwilio ac adborth parhaus safonol i dimau clinigol, y Bwrdd a'r rhwydwaith mewn perthynas ag achosion.</li> </ul>	<b>Gwaith yn mynd Rhagddo</b>

	<b>Angen Gwelliant</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Sefyllfa</b>
<b>ESC. 3</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod y ddarpariaeth o feddygon ymgynghorol ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol yn ddiogel ac yn effeithiol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r meddygon ymgynghorol sy'n darparu gofal newyddenedigol ymgymryd ag o leiaf 4 wythnos gwasanaeth y flwyddyn er mwyn sicrhau mwy o gysondeb i'r tîm newyddenedigol a'r babanod sy'n cael gofal.</li> <li>• Nodi grŵp craidd o feddygon ymgynghorol sy'n rhannu cyfrifoldeb dros oruchwylio gwaith a safonau'r grŵp ehangach o feddygon ymgynghorol, ac yn arwain y gwasanaeth.</li> <li>• Dylid ymestyn gwasanaeth meddygon ymgynghorol yn yr uned newyddenedigol ar unwaith i 8.30am-4.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.</li> <li>• Rhaid i feddygon ymgynghorol sydd â diddordeb yn y newydd-anedig gael amser wedi'i neilltuo i sicrhau bod y gwasanaeth newyddenedigol yn cael ei ddarparu gan uwch staff meddygol gyda dealltwriaeth o'r arbenigedd sydd ei angen i gefnogi gwasanaeth newyddenedigol diogel a chydabod pan fydd angen uwchgyfeirio i wasanaethau NICU i gael cyngor neu i drosglwyddo.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 4</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod gwelliannau'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol arbenigol ar gyfer y cleifion mwyaf sâl ac agored i niwed yn y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dylai'r trothwy atgyfeirio ar gyfer cyngor gan NICU enwebedig gael ei nodi'n glir ar gyfer yr holl staff clinigol a dylai fod ar lefel lle mae unrhyw faban ag anghenion cymhleth neu sydd angen triniaeth mewn uned gofal dwys yn cael ei drafod ar y cyfle cyntaf i gydweithwyr sicrhau bod clinigwyr arbenigol yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau clinigol ar unwaith.</li> <li>• Dylai proses glir fod yn ei lle i sicrhau bod codi cynnar yn parhau i'r holl fabanod sydd angen triniaeth barhaus mewn uned gofal dwys er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu trosglwyddo'n amserol.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 5</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd adolygu ei arferion oeri yn unol â fframweithiau cenedlaethol a sicrhau bod arferion lleol yn cyrraedd y safon hon.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i'r holl staff fod â chymhwyster cyfredol i ddefnyddio'r holl offer a ddefnyddir yn y driniaeth oeri.</li> <li>• Dylai safonau'r dogfennau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau ar gyfer oeri gynnwys y canlynol, o leiaf: y meini prawf a fodlonir a sut, archwiliad niwrolegol manwl llawn a manylion llawn sgwrs â NICU / CHANTS.</li> <li>• Dylid parhau i ddefnyddio llwybr Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru i ategu dogfennau meddygol a nyrsio sy'n ymwneud ag oeri er mwyn helpu i roi arferion oeri diogel ar waith.</li> <li>• Rhaid i bob achos lle cafodd baban driniaeth oeri gael adolygiad manwl safonol gan y Tîm Amlddisgyblaethol ochr yn ochr â'r gwasanaeth mamolaeth.</li> </ul>	<b>Gwaith yn mynd Rhagddo</b>

	<b>Angen Gwelliant</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Sefyllfa</b>
<b>ESC. 6</b>	Dylai'r Bwrdd lechyd fynd ati ar unwaith i adolygu pob achos o dynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio sy'n digwydd yn y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cael dealltwriaeth o gyfraddau tynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio fesul 1000 o ddiwrnodau ar beiriant anadlu o'i gymharu â nifer yr achosion a ddisgrifir yn genedlaethol.</li> <li>• Dylai gwaith gwella lleol ar y mater hwn ddigwydd ar y cyd â NICU lleol er mwyn deall yr arferion a'r mesurau diogelu sydd eisoes ar gael i'w haddasu ar gyfer y gwasanaeth yn y Bwrdd lechyd.</li> <li>• Datix/archwiliad ar gyfer pob achos o dynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio.</li> <li>• Newidiadau o ran sicrhau arferion i atal achosion o dynnu tiwb endotracheaidd.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 7</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd sicrhau bod adolygiadau o ddigwyddiadau clinigol, adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol ac adolygiadau o Farwoldeb/PMRT yn cael eu cynnal fel Tîm Amlddisgyblaethol gyda chymorth allanol cydweithwyr yn y NICU lleol i gwestiynu a darparu arbenigedd clinigol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu a monitro prosesau achosion difrifol gan geisio arbenigedd clinigol ychwanegol pan fo angen i gefnogi dysgu lleol ynghylch sut beth yw adolygiad da.</li> <li>• Ymgysylltu'n ehangach â'r Bwrdd lechyd mewn adolygiadau llywodraethu gan y tîm diogelwch cleifion corfforaethol.</li> <li>• Sicrhau bod adborth amserol yn cael ei roi i staff sy'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn ogystal â gwybodaeth am wersi a ddysgwyd er mwyn osgoi digwyddiadau o niwed sy'n digwydd dro ar ôl tro.</li> <li>• Rhaid i newidiadau mewn ymarfer y cytunwyd arnynt gael eu disgrifio yn eu cyd-destun i sicrhau bod staff yn deall rhesymeg a chanlyniad disgwylidig y newidiadau.</li> <li>• Rhestr Sbarduno Datix ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol i'w diweddarau, gan gynnwys: trosglwyddiadau allan, babanod wedi'u geni &lt;32/40, derbyniadau cyfnod llawn, achosion o dynnu tiwb endotracheaidd heb ei gynllunio.</li> <li>• Cyfathrebu â staff gan dynnu sylw at newidiadau i'r rhestr sbarduno a pham mae'r rhain wedi cael eu hychwanegu.</li> </ul>	<b>Gwaith yn mynd Rhagddo</b>
<b>ESC. 8</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd barhau i ddatblygu dull cadarn ar gyfer adolygu'r holl dderbyniadau cyfnod llawn i'r uned babanod newydd-anedig ochr yn ochr â chydweithwyr obstetreg a mamolaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i themâu a'r hyn a ddysgir o adolygiadau Derbyniadau Cyfnod Llawn gael eu rhannu â'r timau ehangach a dylid rhoi ymyriadau uniongyrchol ar waith ar unwaith, sydd wedi'u nodi i leihau'r nifer sy'n cael eu derbyn yn ddiangen.</li> <li>• Cymorth a chynghor gan y gwasanaeth NICU lleol lle mae'r broses hon wedi'i hen sefydlu o ran sut y gellir lleihau derbyniadau cyfnod llawn.</li> <li>• Parhau i gwblhau Datix ar gyfer pob derbyniad cyfnod llawn.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>

	<b>Angen Gwelliant</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Sefyllfa</b>
<b>ESC. 9</b>	Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu'r dulliau adrodd radioleg ffurfiol presennol a gofyn am adolygiad allanol gan radiolegydd pediatrig gyda phrofiad newyddenedigol i dynnu sylw at feisydd sy'n peri pryder.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gofyn am gymorth gan radiolegydd pediatrig o ganolfan drydyddol i archwilio adroddiadau radioleg ffurfiol diweddar.</li> <li>• Sicrhau bod yr holl luniau radioleg yn cael eu hadolygu a'u dehongli gan feddyg ymgynghorol yn y gwasanaeth newyddenedigol a bod cofnod yn cael ei gadw o hynny.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 10</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd adolygu dogfennau ar unwaith a chyflwyno dogfennau ategol i helpu i wella safonau dogfennau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfathrebu ac addysg/hyfforddiant i'r holl staff ynghylch safonau dogfennau yn unol â'r cyrff llywodraethu.</li> <li>• Cyflwyno dogfennau ategol: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Siart gweithdrefnau gyda blaenoriaeth ar gyfer gosod tiwb yn y tracea; mynediad canolog a draeniau'r frest;</li> <li>○ Siart ar gyfer cofnodi cyfathrebu gyda NICU i gael cyngor;</li> <li>○ Siart ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau at CHANTS ar gyfer trosglwyddo;</li> <li>○ Taflen ysgrifennu ar gyfer rheoli dadebru yn yr uned babanod newydd-anedig a'r ystafell geni.</li> </ul> </li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 11</b>	Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried camau gweithredu i gefnogi gweithio gyda theuluoedd i ddeall effaith yr ymarfer gwranddo a gwella'r broses o gynnwys teuluoedd yn y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnwys rhieni sydd â phrofiad o wasanaeth newyddenedigol Ysbyty'r Tywysog Siarl a sefydlu mecanweithiau i gasglu adborth ar brofiadau teuluoedd yn ystod y cyfnod pan fydd eu babanod yn derbyn gofal yn yr uned ac ar ôl hynny.</li> <li>• Adolygu a threfnu adborth teuluoedd yn ôl themâu a fformat adolygu defnyddiol.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>

	<b>Angen Gwelliant</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Sefyllfa</b>
<b>ESC. 12</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd wella diwylliant staff yr uned i sicrhau bod yr holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrando arnynt.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Meithrin tîm y Tîm Amlddisgyblaethol (gan gynnwys y tîm gwella) yn canolbwyntio ar weithio ar y cyd.</li> <li>• SIMS y Tîm Amlddisgyblaethol i barhau â thystiolaeth o gyfranogiad gan y tîm mamolaeth a newyddenedigol llawn.</li> <li>• Ymarfer ymgysylltu â staff wedi'i gynnal.</li> <li>• Cynnal arolwg Diwylliant Diogelwch er mwyn gallu dangos newid/gwelliant.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 13</b>	Rhaid i hyb gwella'r Bwrdd lechyd a'r timau clinigol weithio gyda'i gilydd i ddeall y nod cyffredin o gael gwasanaeth sy'n fwy diogel.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid i'r tîm gwella weithio i ymgysylltu'r tîm clinigol â'r daith tuag at welliant.</li> <li>• Rhaid cefnogi'r tîm clinigol i gymryd perchnogaeth o'r gwasanaeth a deall ei rôl mewn gwelliannau.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>ESC. 14</b>	Rhaid i'r Bwrdd lechyd gyflwyno strwythur archwilio clir i fonitro gwelliannau a dangos tystiolaeth o effeithiolrwydd y gwasanaeth.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bod â system archwilio dan arweiniad clinigol sy'n nodi, blaenoriaethu, cynllunio, cynnal, monitro ac adolygu allbynnau archwilio ar draws y gwasanaeth.</li> <li>• Adolygiad a chyngor o'r System Archwilio gan NICU lleol (neu LNU arall).</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>

	<b>Angen Gwelliant</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Sefyllfa</b>
<b>3.2</b>	Mae angen darparu amser ychwanegol ar gyfer meddyg ymgynghorol er mwyn caniatáu ar gyfer patrwm meddyg ymgynghorol yr wythnos rhwng 09:00 a 17:00. Dylai pob meddyg ymgynghorol sy'n gweithio yn yr uned ar alwad gael o leiaf bedair wythnos o wasanaeth newyddenedigol y flwyddyn.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu'r gweithlu meddygol yn dilyn uwchgyfeirio'r Adolygiad Manwl ynghyd â'r cynllun gweithredu cysylltiedig.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>3.9</b>	Mae angen ehangu adnoddau fferyllwyr clinigol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y gwasanaeth newyddenedigol, gan gynnwys y gallu i rwydweithio er mwyn datblygu arbenigedd ac arferion enghreifftiol yn yr Uned Newyddenedigol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Darpariaeth amser ddigonol ar gyfer adolygiad fferyllfa o fabanod yn yr uned newyddenedigol a'r rhai sydd angen meddyginiaeth ar bresgripsiwn mewn meysydd eraill gan gynnwys babanod sy'n derbyn triniaeth ar y ward ôl-enedigol.</li> <li>• Neilltuo a gwarchod amser i fferyllwyr ar gyfer cefnogi addysg a hyfforddiant i'r holl staff sy'n ymwneud â phresgripsiynu a gweinyddu meddyginiaethau ym maes gofal newyddenedigol.</li> <li>• Neilltuo a gwarchod amser i fferyllwyr ar gyfer sicrhau ansawdd (e.e. archwilio) a chynlluniau gwella.</li> <li>• Fferyllfa'n goruchwyllo'r holl bresgripsiynau ni waeth pa mor hir yw'r arhosiad yno.</li> <li>• Archwiliadau siartiau cyffuriau misol hyd yma.</li> <li>• Sicrhau bod mecanwaith cadarn ar waith sy'n cynnwys mewnbwn fferyllwyr i holl adolygiadau Datix o'r gwallau presgripsiynu/ gweinyddu meddyginiaeth hyd yma.</li> <li>• Cyfraniad y fferyllfa i adolygiadau'r Tîm Amlddisgyblaeth o fabanod a drosglwyddwyd allan i gael gofal dwys hyd yma.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>

	<b>Angen Gwelliant</b>	<b>Yr Ymyriad Lleiaf Posibl y Cytunwyd Arno</b>	<b>Sefyllfa</b>
<b>5.1</b>	Rhaid i'r tîm clinigol sicrhau bod data yr Uned Newyddenedigol yn gyflawn ac yn gywir.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Uwch glinigwyr i adolygu data newyddenedigol i sicrhau y gellir rhoi sicrwydd mewnol i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau.</li> <li>• Dylai data newyddenedigol fod yn rhan o gyfarfodydd y tîm amlddisgyblaethol, meddygon ymgynghorol a nyrsys i sicrhau bod y data sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaeth yn gywir ac yn cynnwys naratif priodol.</li> <li>• Mae rolau clir yn cael eu nodi gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod data yn gywir ac ar gael yn brydlon.</li> </ul>	<b>Gwaith yn mynd Rhagddo</b>
<b>7.1</b>	Rhaid i'r cyfathrebu â theuluoedd ar yr Uned Newyddenedigol fod yn amserol, yn agored, yn onest a rhaid cadw cofnod cynhwysfawr ohono.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhaid siarad â phob teulu cyn trosglwyddo'r baban i'r uned newyddenedigol a dylid cofnodi hyn yn y nodiadau – os nad yw hyn yn bosibl oherwydd cyflwr y fam a'r ffaith nad oes aelodau o'r teulu ar gael, dylid cofnodi hyn yn glir.</li> <li>• Dylid cofnodi pob sgwrs gyda'r teulu yn glir ar ddalen ar wahân yn y nodiadau.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>
<b>7.6</b>	Rhaid gwella safonau dogfennau yn unol â gofynion y Cyngor Meddygol Cyffredinol/Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a rhaid i uwch-feddygon oruchwylio adroddiadau rhyddhau cleifion.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Safonau ar gyfer y dogfennau i'w cytuno yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol/Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.</li> <li>• Yr archwiliad o grynoded rhyddhau'r claf i'w ddatblygu a'i gynnal gan uwch staff meddygol a'i adrodd yng nghanlyniadau'r archwiliad o ddogfennau.</li> <li>• Yn cynnal ac yn adrodd ar archwiliad o safonau dogfennau yn rheolaidd bob mis.</li> </ul>	<b>Cyflawnwyd</b>

## 19 Atodiad G - Rhestr Termâu

Talfyriad	Teler
<b>A&amp;E</b>	Adran Damweiniau ac Achosion Brys
<b>AMU</b>	Ochr yn ochr ag uned a arweinir gan fydwragedd
<b>ANNP</b>	Uwch-ymarferydd Nyrsio Newyddenedigol
<b>Apgar</b>	Dull sgorio a ddefnyddir i asesu cyflwr babi ar ei enedigaeth
<b>AW</b>	Archwilio Cymru
<b>Badgernet</b>	System rheoli data cleifion newyddenedigol
<b>BP</b>	Pwysedd gwaed
<b>BR+</b>	Birthrate plus
<b>CD</b>	Cyfarwyddwr Clinigol
<b>CEO</b>	Prif Swyddog Gweithredol
<b>CHC</b>	Cyngor Iechyd Cymuned
<b>CLC</b>	Gofal o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol
<b>CMB</b>	Cyfarfod bwrdd clinigol
<b>CMO</b>	Y Prif Swyddog Meddygol
<b>CNO</b>	Y Prif Swyddog Nyrsio
<b>COO</b>	Y Prif Swyddog Gweithredu
<b>CPAP</b>	Pwysedd positif parhaus yn y llwybr anadlu
<b>CPD</b>	Datblygiad proffesiynol parhaus
<b>CSfM</b>	Goruchwylwyr clinigol i fydwragedd
<b>CSR</b>	Cyfraddau toriad Cesaraidd
<b>CTG</b>	Cardiotocograffi
<b>CTMUHB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
<b>CTUHB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
<b>Datix</b>	Meddalwedd diogelwch cleifion
<b>DOM</b>	Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth
<b>DON</b>	Cyfarwyddwr Nyrsio
<b>DU</b>	Uned Gyflawni GIG Cymru
<b>EBC</b>	Each Baby Counts
<b>EFM</b>	Monitro'r ffetws yn electronig
<b>ELCS</b>	Toriad Cesaraidd dewisol
<b>EMCS</b>	Toriad Cesaraidd brys
<b>ETT</b>	Tiwb endotracheaidd
<b>Euroking</b>	System TG genedlaethol ar gyfer mamolaeth
<b>FGR</b>	Cyfyngiad o ran twf y ffetws
<b>FMU</b>	Uned Bydwreigiaeth Annibynnol
<b>GAP</b>	Protocol asesu twf
<b>GMC</b>	Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
<b>GP</b>	Meddyg Teulu



<b>Talfyriad</b>	<b>Teler</b>
<b>Greatix</b>	Cynllun sy'n seiliedig ar 'Datix' ar gyfer rhannu adborth cadarnhaol â'r staff
<b>GROW</b>	Pwysau delfrydol yn ystod y beichiogrwydd
<b>HB</b>	Bwrdd Iechyd
<b>AaGIC</b>	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
<b>HIE</b>	Enseffalopathi isgemig hypocsig
<b>AGIC</b>	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
<b>Crwner EM</b>	Crwner Ei Mawrhydi
<b>HOM</b>	Pennaeth Bydwreigiaeth
<b>HOMAG</b>	Grŵp Cynghori Penaethiaid Bydwreigiaeth Cymru
<b>AD</b>	Adnoddau Dynol
<b>HSCSC</b>	Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
<b>HSIB</b>	Y Gangen Ymchwilio i Ddiogelwch Gofal Iechyd
<b>HTA</b>	Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol
<b>IA</b>	Clustfeinio Ysbeidiol
<b>ICU</b>	Uned Gofal Dwys
<b>ILG</b>	Grŵp Ardal Integredig
<b>IMSOP</b>	Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth
<b>IOL</b>	Dod â'r broses esgor yn ei blaen
<b>IPAAF</b>	Y Fframwaith Integredig ar gyfer Asesu Perfformiad a Sicrwydd
<b>IPPV</b>	Cymorth Anadlu Ysbeidiol gyda Phwysedd Positif
<b>DPA</b>	Dangosyddion perfformiad allweddol
<b>ALI</b>	Awdurdod Lleol
<b>LNU</b>	Uned leol ar gyfer babanod newydd-anedig
<b>LSA MO</b>	Swyddog bydwreigiaeth yr awdurdod arolygu lleol
<b>LSCS</b>	Toriad Cesaraid segment is
<b>MBRRACE</b>	Mamau a babanod: Lleihau risg drwy archwiliad ac ymholiadau cyfrinachol
<b>MDT</b>	Tîm amlddisgyblaethol
<b>MHSS</b>	Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
<b>MID</b>	Y Cyfarwyddwr Gwella Gwasanaethau Mamolaeth
<b>MITs</b>	System Technoleg Gwybodaeth ar gyfer Mamolaeth (yn bwydo i mewn i QlikSense)
<b>MLC</b>	Gofal o dan arweiniad bydwragedd
<b>MLU</b>	Uned a arweinir gan fydwragedd
<b>MMMw</b>	My Maternity My Way (y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth wedi'i ailddatblygu ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg)
<b>MNIB</b>	Y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
<b>MNIP</b>	Y Cynllun Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol
<b>MNIT</b>	Y Tîm Gwella Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol

<b>Talfyriad</b>	<b>Teler</b>
<b>MPB</b>	Y Bwrdd Perfformiad Mamolaeth
<b>AS</b>	Aelod o'r Senedd
<b>MSLC</b>	Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth
<b>MVF</b>	Fforwm Maternity Voices
<b>Llwybr NBC</b>	Llwybr Gofal Cenedlaethol ar gyfer Profedigaeth
<b>NEWTT</b>	Llwybr tracio a throthwy rhybudd cynnar ar gyfer y newydd-anedig
<b>NICU</b>	Uned gofal dwys i'r newydd-anedig
<b>NMC</b>	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
<b>NMPA</b>	Archwiliad Mamolaeth ac Amenedigol Cenedlaethol
<b>NNAP</b>	Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol
<b>NNU</b>	Uned Babanod Newydd-anedig
<b>O2</b>	Ocsigen
<b>O&amp;G</b>	Obstetreg a Gynaecoleg
<b>OD</b>	Datblygu sefydliadol
<b>PADR</b>	Adolygiad arfarnu a datblygu personol
<b>PALS</b>	Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion
<b>PCH</b>	Ysbyty'r Tywysog Siarl
<b>PDM</b>	Bydwraig Datblygu Ymarfer
<b>PMRT</b>	Adnodd Adolygu Marwolaeth Amenedigol
<b>POW</b>	Ysbyty Tywysoges Cymru
<b>PREMs</b>	Mesurau Adrodd ar Brofiadau Cleifion
<b>PROMPT</b>	Hyfforddiant Aml-broffesiynol Ymarferol mewn Obstetreg
<b>PROMS</b>	Mesurau Adrodd ar Ganlyniadau Cleifion
<b>PSAG</b>	Cipolwg ar statws claf
<b>PSOW</b>	Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
<b>PTR</b>	Gweithio i Wella
<b>Q&amp;SC</b>	Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
<b>QA</b>	Sicrhau ansawdd
<b>QlikSense</b>	Meddalwedd gwybodaeth a dadansoddeg weledol i fusnesau
<b>RCA</b>	Dadansoddiad o wraidd y broblem
<b>RCoA</b>	Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion
<b>RCM</b>	Coleg Brenhinol y Bydwreagedd
<b>RCOG</b>	Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr
<b>RCPCH</b>	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
<b>RGH</b>	Ysbyty Brenhinol Morgannwg
<b>SANDS</b>	Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion
<b>SB</b>	Marw-enedigaethau
<b>SBAR</b>	Acronym Saesneg ar gyfer 'situation, background, assessment and recommendation'
<b>SCBU</b>	Uned gofal arbennig i fabanod

<b>Talfyriad</b>	<b>Teler</b>
<b>SCU</b>	Uned gofal arbennig
<b>SFH</b>	Uchder y ffwndws symffysis
<b>SFSP</b>	Porth diogel i rannu ffeiliau
<b>SGA</b>	Bach ar gyfer oed y ffetws
<b>SI</b>	Digwyddiad difrifol
<b>SM</b>	Mesurau Arbennig
<b>CAMPUS</b>	Acronym ar gyfer Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol
<b>SOM</b>	Goruchwyliwr y bydwragedd
<b>SRO</b>	Uwch-swyddog Cyfrifol
<b>SWP</b>	Cynllun De Cymru
<b>TI</b>	Ymyriad wedi'i Dargedu
<b>Trac</b>	Cronfa ddata fawr yn y DU o 'hysbysfyrdau swyddi' ar gyfer y sector iechyd a'r sector cyhoeddus
<b>UHB</b>	Bwrdd Iechyd Prifysgol
<b>USS</b>	Sgan uwchsain
<b>WEEE</b>	Cyfarfodydd gweithredol sy'n ymwneud â'r Gweithlu, Effeithiolrwydd, Diogelwch a Phrofiadau ac Ymgysylltu
<b>WMNN</b>	Rhwydwaith Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru
<b>LIC</b>	Llywodraeth Cymru
<b>WRP</b>	Cronfa Risg Cymru